www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 515
Awst a Medi
2023

# Pencampwyr Lleol a Chenedlaethol

Mae pobl ifanc bro'r Eco wedi dod i'r brig mewn sawl cystadlaethau chwaraeon, ac rydym yn ymfalchïo yn eich llwyddiant ac yn dymuno rhagor o lwyddiannau (a medalau!) i'r dyfodol.

Dyma Guto Williams ac Osian Morris o Lanrug – mae Guto yn dipyn o seren ym myd gymnasteg tra fod Osian yn dringo'r gamp o feicio mynydd.

Rygbi yw camp Jac Petch-Jones o Benisarwaun a Corin Mabon Jones o Gwm-y-Glo, a'r ddau yn enwau uchel eu parch yng ngharfan Rygbi Gogledd Cymru.

Trowch i dudalennau cefn y rhifyn hwn i ddarllen am sêr carfan pêl fasged Dreigiau Caernarfon, a'r rhedwyr lleol llwyddiannus.







Elin Enfys

## Chwilio am Elin Enfys

Cofiwch chwilio am Elin Enfys! Mae'r arth fach yn cuddio 8 gwaith yma'n rhywle. Allwch chi ei ffeindio?

## Yn y rhifyn hwn:


- Buddsoddi yn nyfodol Tyddyn Teg – tud 27
- Newyddion Elusen Dyffryn Peris – tud 30
- Gasworcs Llanberis – tud 20
- Testunau Eisteddfod Bethel – tud 9
- Carnifal Deiniolen – tud 12




11



17

w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k

ECO'r Wyddfa

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238 (tonyelliott17@yahoo.com)

**Golygydd Chwaraeon**
** Swydd y golygydd yn wag ar hyn o bryd

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys (marged_3@hotmail.com)

**Ffotograffwr**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221 (glasgoed@hotmail.com)

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838
(hefsj@aol.com)

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292

**Dylunydd**
Elgan Griffiths (post@elgangriffiths.com)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail**:
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286 870580
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro**:
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen**:
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig**:
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292

**Llanberis**:
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis. 01286 870740
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug**:
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug. 07813 299727
ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris**:
Kate Pritchard
01286 870189
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun**:
** Swydd y gohebydd yn wag ar hyn o bryd.

**Waunfawr**:
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

# Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

£20 Elgan a Mel, Penygaer, Penisarwaun
£20 Er cof annwyl am Emma Bernard oddi wrth y teulu.
£10 Michael Williams (Michael Llwyncoed, Cwmyglo), Llanberis

# Llythyrau

Annwyl Ddarllenwyr,

Mae'n debyg eich bod yn gyfarwydd iawn ag effeithiau dwy her ddifrifol sy'n wynebu nifer gynyddol o bobl yng nghymunedau Gwynedd ar hyn o bryd. Ar yr un llaw, mae pobl sydd efallai efo problemau iechyd neu symudedd sy'n ei gwneud yn anodd iddynt fyw'n annibynnol a chodi allan; ac ar y llaw arall, mae rheini sy'n ei chael yn anodd cael cartref fforddiadwy yn eu cymuned eu hunain.

Mae Cyngor Gwynedd wedi lansio rhaglen Rhannu Cartref Gwynedd, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r ddwy broblem ddyrys hon.

Mae Rhannu Cartref Gwynedd yn helpu pobl i gefnogi'i gilydd o dan yr un to. Mae rhywun sydd ag ystafell sbâr a sy'n chwilio am gwmni a rhywfaint o help ymarferol o gwmpas y tŷ – er enghraifft ychydig o help gyda siopa, coginio, llwytho'r peiriant golchi, neu hyd yn oed fynd â'r ci am dro – yn rhannu eu cartref gyda rhywun sy'n chwilio am lety fforddiadwy.

Yn bwysicach na dim, mae Rhannu Cartref yn cynnig cwmni, cefnogaeth a chyfeillgarwch i'r ddau unigolyn.

Ni fyddai rhent yn cael ei godi ond bydd ffi fechan yn daliadwy gan y naill a'r llall er mwyn gweinyddu'r cynllun. Mae diogelwch yn holl bwysig i'r cynllun hwn a bydd y Cyngor yn dilyn proses drylwyr wrth baru'n ofalus.

Tybed a oes gan eich darllenwyr ddiddordeb yn y cynllun hwn? Neu'n nabod unrhyw un allai elwa ohono? Mae mwy o wybodaeth ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.llyw.cymru/RhannuCartref. I holi am wybodaeth codwch y ffôn neu anfonwch neges draw i: 07388 859015 / rhannucartref@gwynedd.llyw.cymru

Diolch,
Richard Wyn Williams,
Cydlynydd Rhannu Cartref
Cyngor Gwynedd





Annwyl ddarllenwyr

**Aduniad Ysgol Dyffryn Ogwen**

Mae'n fwriad cynnal aduniad o gyn-ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn y Clwb Rygbi, Bethesda ar nos Wener, 1af Medi, i gychwyn am 7.00pm.

Yn hytrach na phenodi blynyddoedd penodol mae'r gwahoddiad yno i unrhyw gyn-ddisgybl dros 70 oed. Ar y noson fe ddarperir adloniant gan Hogiau'r Bonc. Os bydd rhywun yn dymuno archebu bwyd ar y noson gellir dewis oddi ar fwydlen y clwb, a thalu'n unigol. Edrychwn ymlaen am noson gymdeithasol hwyliog a chyfle i ail fyw sawl stori/digwyddiad/cymeriad o'r oes honno.

**Richard Lloyd Jones**

# CAEATHRO

**Capel**

Cofiwch na fydd unrhyw wasanaethau yn cael eu cynnal dros fis Awst yn ystod toriad yr haf – cyfle efallai i fynychu Gwasanaethau mewn Eglwysi cyfagos.

Ar y 3ydd o Fedi, bydd Gwasanaeth undebol dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, pan fyddwn yn croesawu aelodau o Eglwysi eraill yr Ofalaeth. Bydd y Gwasanaeth yn cychwyn am 2:00pm a gweinyddir y Cymun.

Ar y 17eg o Fedi, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Mererid Mair Williams, gyda'r oedfa hon hefyd i gychwyn am 2:00pm.

**Gwellhad Buan**

Pob dymuniad da a gwellhad buan i Rhiannon Roberts, Y Gilfach, yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar.

# Dyddiadau i'w cofio...



| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Hydref | 8 Medi | 22 Medi |
| Tachwedd | 13 Hydref | 27 Hydref |
| Rhagfyr | 10 Tachwedd | 24 Tachwedd |

## Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Gwymon.** Ydi hi'n gywir ei alw'n wymon bellach? Cafodd un o gyflwynwyr y BBC ei gywiro am ei alw yn 'seaweed'. Yn ôl y beirniaid, dylai gael ei alw yn 'marine algae'. Drosodd atoch chi naturiaethwyr.
- **Blodau**. Mae 8 miliwn tunnell o flodau yn cael eu taflu i afon Ganges yn yr India bob blwyddyn, a'r mwyafrif ohonynt yn dod o demlau Hindu. Bellach mae cwmni wedi ei sefydlu sy'n casglu'r blodau ac yn eu defnyddio i wneud math o ledr meddal sy'n cael ei alw yn 'fleather'. Mae'r busnes bellach yn cyflogi bron i 250 o weithwyr ac yn trin tua 6 tunnell o flodau pydredig bob dydd.
- **Tafod**. Zoey, labrador o Louisiana, UDA yw'r ci gyda'r tafod hwyaf yn y byd, sef 5 modfedd. Y record cyn darganfod y ci hwn oedd tair modfedd a thrichwarter.
- **Ffliwt**. Esgyrn adar yn dyddio o 12,000 o flynyddoedd yn ôl yn cael eu darganfod yn Nyffryn Hula, gogledd Israel. Roedd tyllau main wedi eu gwneud yn nifer ohonynt, a chredir bellach mai math cyntefig o ffliwt ydynt.O'u chwythu mae swn tebyg i gri adar ysglyfaethus yn cael ei greu, a chredir mai eu defnydd oedd dychryn adar mudol a'u gwneud yn haws eu dal.
- **Mwstard du**. Mae gwneuthurwyr dillad a chogyddion yn arwain crwsâd yn Califfornia i gasglu blodau'r mwstard du, planhigyn sy'n gynhenid i'r dalaith, ond yn mygu planhigion eraill. Er bod carped o felyn i'w weld pan fo'n blodeuo, mae'n crino'n gyflym iawn ac yn creu tanwydd parod i'r niferoedd o danau gwyllt sy'n peryglu eiddo a bywydau. Defnyddir y planhigyn i liwio dillad ac i roi blas ar fwydydd.
- **Medal.** Llyfr Glas Nebo (wedi ei gyfieithu) yn ennill Medal Carnegie, a'r beirniaid i gyd yn llyfrgellwyr. Dyma'r tro cyntaf i lyfr wedi ei gyfieithu, ennill y wobr ryngwladol hon.
- **Lwc.** Enillwyd £55 miliwn ar Loteri'r Euromillions gan rywun o Brydain, gan ddyfalu'r 5 rhif cywir a chael dwy seren lwcus.
- **Hen bapur newydd.** Mae un o bapurau newydd hynaf y byd yn rhoi'r gorau i argraffu copi papur – a dim ond ar-lein y bydd yn ymddangos bellach. Pennawd olaf y 'Wiener Zeitung' yn Awstria oedd "320 mlynedd, 12 arlywydd, 10 ymerawdwr, 2 weriniaeth, ond dim ond UN papur newydd."
- **Oedran**. Mae pawb yn Ne Korea o leiaf flwyddyn yn ieuengach bellach oherwydd newid swyddogol yn y dull o benderfynu oedran. Yn draddodiadol, roedd plant yn cael eu cyfrif yn 1 oed ar ddyddiad eu geni a phawb yn heneiddio blwyddyn ar Ddydd Calan yn hytrach nac ar ddyddiad eu penblwydd. Roedd hi'n bosib felly i faban a gai ei eni ar ddydd olaf y flwyddyn fod yn ddyflwydd oed y diwrnod canlynol!
- **Cymraeg**. Mae chwe awr o ddarlledu yn Gymraeg bob dydd Mercher ar sianel deledu yn yr UDA. Mae hyn yn dilyn cytundeb rhwng S4C a Ryan Reynolds, un o berchnogion Clwb Pêl-droed Wrecsam, sydd a'i sianel deledu ei hun.
- **Llifogydd**. Saith o bobl wedi boddi a dros 70 o dai wedi eu chwalu yn dilyn glawogydd trwm yn ardal Durban, De Affrica.
- **Pererindod**. Dros 8,400 o bererinion wedi cael triniaeth feddygol yn ystod eu taith i Fecca, a hynny oherwydd effaith gwres, gyda'r tymheredd yn cyrraedd 48C am nifer o ddyddiau'n olynol.
- **Cartŵn**. Y Gweinidog Roberts Jenrick o'r Swyddfa Gartref yn rhoi gorchymyn i beintio dros furlun o gymeriadau cartŵn Disney ar wal cartref yng Nghaint i blant o ffoaduriaid yn ceisio lloches. Ei resymeg? Roedd y cartwnau yn rhy groesawgar.
- **Marathon**. Mae rhedwr o Lundain, Aaron Robinson, wedi cwblhau 200 marathon mewn 200 diwrnod. Roedd yn cychwyn am dri o'r gloch bob bore cyn mynd i weithio diwrnod llawn yn ei swydd gyda'r elusen 'Hope for Justice' sy'n brwydro yn erbyn caethwasiaeth fodern.
- **Malwod**. Roedd Pencampwriaeth Rasio Malwod y Byd i'w chynnal yn Cogham, Norfolk. Mae'r record yn sefyll ers 1995, sef 13 modfedd mewn dau funud gan falwen o'r enw Archie. Does wybod eto a gafodd y record ei thorri – mae'r newyddion braidd yn araf yn dod i law.

## CEUNANT

**Cydymdeimlo**
Ar Orffennaf y 1af, yn dawel yng ngofal ei deulu, bu farw Alwyn Morris (Becar) o Merddyn, Ceunant yn 78 mlwydd oed. Gŵr annwyl Veronica, tad caredig a chefnogol Dilwyn, Gwyn, Dewi a Delyth, tad-yng-nghyfraith Tegwen, Emma, Karen a Lyndon, a thaid balch a hen daid tyner i'w wyrion, wyresau a gor-wyr, ac efaill i Selwyn. Colled enfawr i'w deulu a'i ffrindiau oll ac rydym yn anfon cydymdeimlad dwys at y teulu yn eu profedigaeth.

**Cofion a gwellhad buan**
Anfonwn ein cofion at bawb yn yr ardal sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar, ac yn arbennig at un o ddarllenwyr brwd *Eco'r Wyddfa*, sef Graham Land, Marvista.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Julie a Den, Rhos y Grug ar ddod yn Nain a Thaid unwaith eto. Ganwyd Enfys Grug Priestley ar y 18fed o Fehefin.

## CWM-Y-GLO

**Diolchiadau**
Dymuna Michael Williams (Michael Llwyncoed), ddiolch i bawb am yr holl gardiau, y galwadau ffôn a'r dymuniadau da iddo yn dilyn ei lawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Glan Clwyd.


ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 hefsj@aol.com




## Galw Ffotograffwyr

Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn galw ar bob ffotograffydd brwd i gymryd rhan yn ei chystadleuaeth ffotograffiaeth ar gyfer calendr elusennol yn dangos ffotograffau o gefn gwlad ac amaethyddiaeth Cymru.

Bydd y calendr yn cael ei werthu er budd elusen nesaf Llywydd UAC yn Sioe Aeaf Frenhinol Cymru yn Llanelwedd.

Dywedodd Llywydd yr Undeb, Ian Rickman:

"Ar ôl llwyddiant cystadleuaeth 2022 rydym wedi penderfynu ei chynnal eto ar gyfer calendr y flwyddyn nesaf ac rydym yn chwilio am luniau ar gyfer pob tymor, pob sector a phob tirwedd i greu calendr cofiadwy ar gyfer 2024.

"Byddwn yn datgelu ein helusen newydd maes o law, ond am y tro rydym yn gwahodd cynigion ar gyfer y gystadleuaeth hon. Mae yna brif wobr o £250 am y llun gorau hefyd."

Bydd angen anfon pob llun trwy e-bost at ytir@fuw.org.uk erbyn Awst 28 2023 ac yn o leiaf 1MB o ran maint y ffeil.

# PENISARWAUN

**Profedigaeth**
Daeth y newyddion trist am farwolaeth Tommy Evans yn ei gartref Fferm y Gors, Penisarwaun ar yr 30ain o Ebrill. Bu'n amaethu gydol ei oes yn y Gors ynghŷd â rhedeg ei fusnes contractio ffensio. 'Rydym yn cydymdeimlo a'r teulu cyfan yn eu colled, yn enwedig ei briod Heulwen, y genod Yvonne a Delyth a'u teuluoedd hwythau.

**Diolchiadau**
Dymuna Heulwen, Yvonne a Delyth, teulu'r diweddar Tom Evans, Fferm y Gors, Waen, Penisarwaun ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth o golli, gŵr a thad annwyl. Diolch am y negeseuon o gyfeillgarwch a chefnogaeth â'r rhoddion hael. Diolch yn arbennig i'r Parchedig John Pritchard am arwain y gwasanaeth ar ddiwrnod yr angladd ac i'r organydd Gareth Jones. Diolch hefyd i'r Ymgymerwyr E W Pritchard am eu gofal tyner a'u trefniadau trylwyr ac urddasol.

(Hoffem ymddiheuro i'r teuluoedd na chafodd yr uchod eu cynnwys yn Eco'r mis diwethaf)

**Diolchiadau**
Dymuna Elgan a Mel, Pen y Gaer, ddiolch yn fawr iawn am y llu cyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd yn dilyn genedigaeth Mollie Gwenllian a Jessica Elan.

Dymuna Liz, 17 Bryn Tirion, ddiolch o galon i bawb am yr holl gyfarchion, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur penblwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r plant am drefnu'r parti yng nghwmni teulu a ffrindiau.

Dymuna Anwen Hughes, Gwar y Mynydd, Carmel, a'r teulu oll, ddiolch o waelod calon am yr holl garedigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar yr achlysur trist o golli brawd, ewythr, cefnder a ffrind agos i lawer, sef Dylan Edwin Jones (Dyl Eds) o Lanrug, (gynt o Benisarwaun) yn ddiweddar.

Diolch yn arbennig i gwmni Iolo a'i griw yn Roberts & Owen, Penygroes am eu gofal caredig a'u cymorth a'u trefniadau gofalus ac urddasol.

Diolch yn fawr iawn hefyd i'r Parchedig W. Bryn Williams, Pwllheli (gynt o Dan y Gaer, Pontrythallt) am ei wasanaeth teimladwy ac arbennig.

Casglwyd £2,120.00 er cof am Dylan at Ymchwil yr Arennau.

**Eisteddfod Bentref Cymunedol 2023**
Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar nos Fercher 12fed Gorffennaf, wedi seibiant o dair mlynedd oherwydd yr aflwydd Covid.

Am 4 o'r gloch y prynhawn cynt, bu beirniadu prysur a manwl ar gynnyrch Gwaith Llaw, Arlunio, Coginio, Ffotograffiaeth a Chyfrifiadureg gan Mair a James Griffith. Braf oedd gweld cymaint o ymateb i'r gweithgareddau, gan wneud y dasg o feirniadu'n un hynod anodd. Bu canmoliaeth uchel i'r eitemau i gyd. Diolchir i Mair a Jim am eu beirniadaethau canmoladwy ac am eu rhodd caredig i goffrau'r Eisteddfod.

Braf oedd gweld y Neuadd Gymuned dan ei sang nos Fercher am 6 o'r gloch yr hwyr, gyda nifer o rieni a ffrindiau Cymraeg a di-Gymraeg wedi dod i gefngi'r plant oedd yn cymryd rhan.

Estynwyd croeso i feirniaid y noson gyda Osian Owen, (yn wreiddiol o'r Felinheli) sydd bellach yn byw yng Nghaernarfon, un a enillodd lu o wobrau Eisteddfod yr Urdd yn 2020 a 2021. Y Beirniad Cerdd oedd Elfed Morgan Morris, wyneb cyfarwydd i ni – pennaeth ysgol Gynradd Llandygai ac yn adnabyddus fel cyfansoddwr, cerddor, unawdydd ac arweinydd.

Cychwynwyd yr Eisteddfod drwy ganu un pennill o 'Calon Lân' . Y gystadleuaeth agoriadol oedd canu Blwyddyn Derbyn gyda'r gân, 'Y Clown mawr tew'. Rhoddwyd beirniadaeth uchel i'r chwe chystadleuydd, a'r enillwyr. Cafwyd mwynhad o wylio a gwrando ar ddau gefnder tair a phedair oed, Enoc ac Iago yn mwynhau eu hunain ar y llwyfan, cyn, wedi dyfal berswâd, canu y gân 'Mae'r ffermwr eisiau Gwraig', a chafodd y ddau ganmoliaeth uchel am lwyfannu ac am roi cymaint o fwynhad i'r gynulleidfa.

Daeth 10 o blant Bl 1 a 2 i'r llwyfan i ganu 'Mr Triongl' a Nanw enillodd y Gwpan, i'w chadw am flwyddyn er cof am Mrs Eluned Porter. Roedd hon yn gystaleuaeth arbennig iawn, gyda'r cystadleuwyr yn hoff iawn o'i chanu.

Cafodd Parti Canu plant Bl 2 ac Iau fwynhad mawr o gyflwyno'r gân 'Bore Da Ffrindiau' a chyflwynwyd cwpan i'r parti, yn rhoddedig gan Ann Thomas, cyn athrawes yn yr ysgol. Roedd yn hyfryd eleni gweld cynifer o fechgyn yn cymryd rhan.

Canmoliaeth a fu i fechgyn a merched bl 3 a 4 ar ganu'r gân 'Dere Di, Dere Do'. Nid yn aml y ceir *'Encore'* mewn Eisteddfod, ond cymaint oedd y mwynhad o wrando ar lond llwyfan o blant Bl 3, 4, 5 a 6 yn perfformio 'rap' ar gerddi ysgrifenwyd gan y plant eu hunain ar thema'r 'Chwarel' gan ddefnyddi amrywiol offerynnau. Diolch i Mrs Marie Claire Hawarth o gynllun 'Codi'r To' am eu hyfforddi a rhoi cymaint o gyfleoedd iddynt. Cyflwynwyd cwpan iddynt gan Phyllis er cof am ei thad.

'Bendithia Di' oedd cân Bl 5 a 6 gyda diolch i Jac ac Ifan ar roi cynnig teilwng iawn ar y gân hyfryd yma. Diolch i Zak, enillydd ar yr Unawd Piano, gyda chanmoliaeth uchel yn yr un modd i Myfi ar ei Hunawd Offerynnol ar y gitâr. Canmoliaeth uchel eto i Myfi ar yr Alaw Werin, 'Hen Wraig Fach', gyda pherfformiad gadarn oedd yn hawlio sylw. Cyflwynwyd Tlws er cof am Nansi a Leslie Jones am y perfformiad mwyaf addawol yn yr Adran Gymraeg i Myfi.

Bu cystadleuaeth, 'Sgen ti dalent llwyfan?' yn fwynhad pur i'r gynulleidfa, gyda'r gantores brofiadol ac addawol, Elin Dafydd o Ddeiniolen yn cymryd rhan drwy ganu dwy gân Sioe Gerdd, gyda Lois yn cyfeilio iddi. Gyda chanmoliaeth uchel a diolch am gefnogi'r eisteddfod, cyflwynwyd gwobr haeddiannol o £50 iddi am ei chyfraniad. Gan nad oedd Parti Llefaru yn cystadlu, cafwyd Parti Canu ardderchog gan Bl 3 a 4 a 5 a 6, ganodd 'Rwy'n Gymro, rwy'n Gymraes' gyda diolch a chanmoliaeth am eu datganiad cryf.

Bu bwrlwm hefyd ar y Cystadlaethau Llefaru, gydag Osian yn beirniadu, adroddiad y plant Meithrin ac Iau 'Morus y Gwynt', a do fe ddaeth Iago ac Enoc yn ôl i'r llwyfan i roi tro arni, a diolchwyd iddynt am eu dewrder. Cerdd yr oed Derbyn oedd 'Fy hoff anifail' gan Geraint Lovegreen a chanmolwyd pawb o Bl 1 a 2 a ddaeth i lefaru 'Gwesty Moethus' gan Mei Mac. rhoddodd Marged, Nanw a Chloe gynnig gwych arni! Daeth nifer dda o fechgyn a genethod i adrodd cerdd Eisteddfod yr Urdd eleni 'Ar ôl methu unwaith' gan Myrddin ap Dafydd. Braf clywed bechgyn o gefndir di-Gymraeg yn rhoi cynnig teg ar y gerdd heriol yma, gyda Myfi yn enillydd, Leo yn ail a Hugo ac Ioan yn gydradd drydydd. Canmoliaeth mawr i'r 6 a fu'n cystadlu.

Mwynhaodd Bl 5 a 6 ddysgu'r gerdd ddoniol, 'Llechwffan' gan Mei Mac a bu 6 yn ddigon dewr i lwyfannu'n ardderchog, gyda Mali yn gyntaf, Zak yn ail ac Ioan yn drydydd. Dyfarnwyd Tlws er cof am Sharon Wooley am y perfformiad llafar gorau yn yr Adran Cynradd i Marged. Croesawyd Nia George, cyn ddisgybl o'r ysgol i roi anerchiad fel Llywydd eleni. Melys fu ei hatgofion o gael y cyfleon i gymryd rhan yn yr amrywiol gystadlaethau yn flynyddol a dangos i bawb fod yna dalentau go iawn ym Mhenisarwaun. Bu'r profiad llwyfannu o gymorth iddi yn ystod cyfnod ym Mhrifysgol Caerdydd yn ei gradd roedd gofyn idd wneud pecynnau newyddiol a chynnal rhaglen radio bys. diolchodd i bawb sydd yn dal i gynnal yr Eisteddfod ac am roi cyfleoedd i fagu hyder i blant a phobl ifanc y pentref byrlymus yma. Cofiodd yn ddwys iawn am y diweddar annwyl Gareth Fôn Jones, prifathro cefnogol yr Eisteddfod a holl weithgareddau'r pentref pan fu'n Bennaeth yma.

Angharad Price oedd beirniad y cystadlaethau Llên a Rhyddiaeth yr oedran cynradd. Cafodd fodd i fyw wrth ddarllen gwaith pawb ac anodd iawn oedd dod i benderfyniad am y goreuon. Diolchodd i'r holl athrawon a rhieni am eu gofal dros y plant ac i'r trefnwyr am roi cyfle iddynt.

Cafwyd gwaith da iawn am Jac a'r Goeden Ffa gan blant Bl 1 a 2 ac adroddiad papur newydd yn adrodd hanes, 'Cwymp yn y chwarel' gan blant Bl 3 a 4 – rhai gyda phenawdau bachog a brawddegau cryf a diolch iddynt am osod y gwaith mor gelfydd. Diolch i bl 5 a 6 am gyflwyno gwaith mor gaboledig. Cafwyd mwynhad wrth ddarllen gwaith Barddoniaeth Bl 3 a 4, rhai yn llawn darluniau cofiadwy a rhythm y geiriau'n canu yn y glust. Mae digon o feirdd ymhlith Bl 5 a 6, gyda cherddi cofiadwy am y ddamwain yn y chwarel. O'r holl gynigion, cynnig John y Crwban sy'n dod i'r brig am lwyddo i gyfleu teimladau'r chwarelwyr yn eu gwaith. Cerdd John y Crwban ddaeth i'r brig o holl waith Rhyddiaeth a Barddoniaeth gyda cerdd ardderchog a llawn manylion trawiadol. dyma fardd addawol ac yn llawn haeddu Tarian Prif Lenor Cynradd 2023. Llongyfarchiadau i Ifan o Blwyddyn 6.

Diolchodd Phyllis, Cadeirydd yr Eisteddfod, i'r Beirniaid i gyd, i'r Pennaeth a holl Staff yr ysgol, y Gofalwr, Arweinyddion, a'r holl rieni. Diolchodd am y rhoddion gafwyd gan nifer o ffrindiau, aelodau'r Pwyllgor ac i Nia George, sy'n dymuno cyflwyno Tlws er cof annwyl am Gareth Fôn Jones. Buasai'r Pwyllgor yn hynod falch o cael 'Tlws i'r Llefaru gorau' yn ôl gan y deilydd, os gwelwch yn dda. Mae ein diolch ninnau i Phyllis am fynnu rhoi cyfle i blant y pentref hwn yn ein Eisteddfod Gymunedol, a bu Eisteddfod 2023 yn chwip o Eisteddfod eleni.

Bu cystadlu brwd yn yr oedran dros 18 oed, gyda Megan o Gaerdydd (wyres Arwel a Carys) yn canu unawd ac yn cyfeilio iddi'i hun mor fendigedig, diolch Megan am dy gefnogaeth.

Bu cystadlu brwd i rai ymhell dros 18 oed

gyda Limrigau a Brawddegau. Diolch i Arwel am feirniadu mor deg a hwyliog, gyda Phyllis yn ennill ar greu brawddeg allan o 'C'mon Midffîld' a John Eifion a Marina yn gorffen y Limerig.

I gloi'r Eisteddfod cafwyd eitem safonol gan barti o ferched 'Dan ni yma o hyd' yn cyflwyno cerdd R Williams Parry, 'Eifionydd' gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llŷn ac Eifionydd eleni, a chafwyd clod am y cyflwyno teimladwy. Cafodd Parti Cân Ysgafn hwyl gyda'u 'Cân o groeso' i'r ddau feirniad. Gan fod John Eifion ac Arwel yn methu 'handlo'r' genod a chan fod angen dau ddawnus, un yn ganwr a'r llall yn fardd go iawn, nhw Osian ac Elfed yw'r 'Dream Team' i'n harwain i roi cweir i ferched C'narfon ac ail fyddai Côr Dre.

Ar gyfer yr eitem olaf, daeth llond llwyfan o ferched a dynion i ganu 'Cân yn Ofer' a braf oedd cael canu i gynulleidfa deilwng, arhosodd i gefnogi tan y diwedd un. Diolch i bawb a gymrodd rhan yn Eisteddfod lwyddiannus 2023.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i William Lamb, 7 Bryn Eglwys, myfyriwr Doethuriaeth ym Mhrifysgol Vanderbilt, Nashville ar gael y fraint o weithio ar ddarganfyddiad gwyddonol mwya'r ddegawd.

Yn dilyn 15 mlynedd o ymchwil, mae data gwyddonol wedi ei ddatgelu all newid y ffordd rydym yn credu bod y bydysawd yn gweithio. Dywed William, mai awyr glir Eryri â'i denodd i astudio'r wybren – ei gynefin oedd y dylanwad arno pan yn ifanc iawn. Yn ffodus o gael byw ym Mhenisarwaun, reit o flaen yr Wyddfa a'i chriw, cafodd oriau difyr yn mwynhau astudio'r sêr gyda'r nos.

Yn y rhaglen, 'Dros Dro', bu William, sy'n Gymro deallus iawn, yn ei chanol hi gyda darganfeydd wedi defnyddio y synhwyrydd mwyaf erioed i gael ei adeiladu, er mwyn dod o hyd i'r tonnau disgyrchiol, gan ddefnyddio'r sêr, sydd wedi marw filiynau o flynyddoedd yn ôl, er mwyn ceisio dod o hyd i sŵn y tyllau duon enfawr, sydd yng nghanol pob galaeth dros yr holl fydysawd. Rydym yn anfon ein llongyfarchiadau gwresog i ti William ac yn hynod falch o'th lwyddiant.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**

Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a Gorffennaf.
Mehefin: 1af Y Cynghorydd Elwyn Jones, Rhiwlas
2ail Wena Gordon, Holsten.
Gorffennaf: 1af – Eifion Harding
2ail – Arnold Jones

**Croeso**

Croeso i Caio Ynyr, mab bychan i Ynyr a Catrin, 6 Bryn Eglwys a brawd bach gwerthfawr i Alys Ynyr.

**Cydymdeimlad**

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu a chysylltiadau agos y diweddar annwyl, Gareth Fôn Jones, cyn brifathro gweithgar ein hysgol Gymuned.

**Gwellhad**

Ein cofion at bawb ohonoch sy'n sâl ar hyn o bryd yn y pentref, gyda chofion arbennig ar Dilys, Leslie, Tegid ac at Wil Jones, Bryntirion wedi triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd.

# Gefeillio Llanberis a Morbegno

Cafwyd penwythnos hwyliog a llwyddiannus iawn fis Mehefin pan ymwelodd criw bychan o Eidalwyr o efeilldref Llanberis, Morbegno, a'r ardal. Ar ôl cyrraedd yn hwyr ar y nos Iau, cafodd pawb bryd hyfryd o fwyd yn Spice of Llanberis a phiciad i'r Ddraig am beint wedyn.

Fore Gwener rhoddodd Marinella, y chef swyddogol Eidalaidd, wers i bawb ar sut i greu pasta ffres – pizzoccheri, math o basta sydd ond yn cael ei weini yn nyffryn Valtellina. Roedd y tylino'n waith caled ond llwyddwyd i baratoi digon o stribedi pasta ar gyfer cant o bobl yn y diwedd.

Daeth nifer fawr o bobl leol i gefnogi'r noson o fwyd Eidalaidd yn Nhy'n Llan yn Nant Peris – a hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Cafodd bawb flas ar y pizzoccheri, risotto a chyfle i flasu'r caws Bitto sydd yn enwog yn Morbegno – yn wir, llysenw'r dref ydy 'Citta del Bitto' – sef tref y Bitto. Diolch hefyd i Georgio's am ddod a'u fan hufen iâ i fyny – roedd yn bwdin perffaith!

Ar ôl clirio'r platiau a'r sosbenni, cafodd nifer o'r Eidalwyr drip i fyny'r Wyddfa fore Sadwrn (diolch i Stesion Wyddfa am eu haelioni) ac ymweliad arbennig a chastell Caernarfon yn y pnawn (diolch i faer Caernarfon am drefnu bod hyn yn bosibl). Cafwyd swper gwerth chweil yn nhafarn y Black Boy yng Nghaernarfon ac ambell i beint yn nhafarndai Llanberis.

Ar ôl brecwast arbennig yn Ngwesty'r Victoria (diolch yn fawr iddyn nhw am eu haelioni), cafodd y criw daith gerdded wrth eu boddau o gwmpas Castell Dolbadarn, yr amgueddfa lechi a'r Ysbyty Chwarel efo llywydd y pwyllgor – neu tad y gefeillio yn ôl yr Eidalwyr – Ken Jones.

Penwythnos llwyddiannus iawn, er gwaetha'r ffaith i'r awyren yn ôl i Milan gael ei chanslo am ddiwrnod, ac mae trefniadau'n barod ar y gweill ar gyfer dathlu 20 mlynedd ers y gefeillio yn 2024!












**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Sheila Jones, 24 Bro Rhos. Os bu un gair yn disgrifio Sheila yna 'gofal' fu hynny. Bu'n fam a nain arbennig i'w theulu. Ergyd drom iddi oedd colli ei 'channwyll' sef Non ei merch boblogaidd. Brwydro ymlaen wnaeth Sheila a rhoi o'i hegni i'w theulu. Cynhaliwyd angladd preifat yn ôl ei dymuniad.

**Oedfaon Medi**
**Cysegr:** 3/9 Undebol Caeathro (2.00pm); 10/9 Gweinidog; 17/9 Richard Parry Jones; 26/9 Richard Morris Jones.

**Saron:** 10/9 Dr. Ian Morris; 17/9 Philip Barnett; 24/9 Dr. Ian Morris.

**Bethel:** 3/9 Parch. Cledwyn Williams; 17/9 Donald Pritchard; 24/9 Parch. R.E. Hughes.

Fel yr arfer ni fydd oedfaon yn Y Cysegr, Bethel na Saron yn ystod mis Awst.

Dan arweiniad y Parch. Nerys Griffith rydym yn y Cysegr wedi dod yn gyfarwydd bellach ag oedfaon 'undebol' i gapeli'r ofalaeth. Mae'n codi calon gweld y cydweithio a'r cyd-addoli. Yn wir, bydd yr oedfa gyntaf ym Medi yn Sul yr Ofalaeth yng Nghapel Caeathro am 2 y prynhawn ar 3ydd Medi. Ni fydd oedfa yn y Cysegr y bore hwnnw.







## Merched y Wawr

Cafwyd cyfarfod pentymor arbennig iawn gyda mordaith ar y Fenai o Gaernarfon i Borthaethwy. Roedd hi'n noson gynnes o haf a'r Fenai lonydd yn dangos ei phrydferthwch ar ei gorau. Mae gweld y tir o'r môr yn brofiad difyr, a syndod oedd sylwi cymaint o goed sy'n gorchuddio glannau'r Fenai. Dotio ar wynder tai'r Felinheli, y plasdai a maint tai ar y glannau yn ardal Bangor a Phorthaethwy.

Braf oedd cael cwmni ambell i Filidowcar, wedi gorffen ei swper, ac yn torheulo ar noson heulog.

**Wythnos Mish-Mash**
Bu tywydd Mehefin o blaid yr amryw weithgareddau dros wythnos Mish-Mash a gafodd gefnogaeth dda iawn. Y mae'r amrywiaeth flynyddol yn apelio at bob oedran. Mae Bingo yn dod yn hynod o boblogaidd yma, ac ar y nos Fawrth roedd y neuadd yn orlawn – full house fel petai! Nos Fercher yw noson draddodiadol y ras 5k o gwmpas Felinheli ac yn ôl i Fethel. Yr un adeg ceir y ras o gwmpas y pentref i'r plant. Rhwng y ddwy ras cafwyd tua 150 o redwyr gyda chefnogaeth dda i'r ras oedolion gan glybiau rhedeg Arfon a Môn. Noson i'r plant oedd nos Iau gyda digon o chwysu yn y Disgo. I goroni'r wythnos ar ddydd Sadwrn cafwyd diwrnod llawn hwyl ac egni – yn weithgareddau amrywiol a digon o ganu a dawnsio. Cafwyd perfformiad arbennig gan Ddawnswyr Lowri cyn cloi y gweithgareddau gan y band Kim Hon a'r unawdwyr gwych Tara Bethan ac Yws Gwynedd.

Hoffai'r pwyllgor – Kelly, Gwen, Sioned, Sian, Caryl ac Ywain ddiolch i bawb a gyfranodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant arbennig yr wythnos. Diolch hefyd am gefnogaeth wych. Y mae'r gefnogaeth yma – yn niferol ac ariannol – wedi galluogi y pwyllgor i drefnu Mish-Mash 2024 rhwng Mehefin 24-29. Mae cynlluniau eisoes mewn llaw. Edrychwn ymlaen.





**Ysgol Bethel**
Teimlaf mai da o beth ar ran y pentrefwyr nad oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r ysgol yw llongyfarch a diolch i staff a disgyblion yr ysgol arbennig hon am eu cyfraniadau i ni fel ardalwyr dros flwyddyn arall. Yr ydym oll wedi rhyfeddu at amrediad y cwricwlwm cynradd bellach gyda'r pwyslais ar rannu profiadau, ymchwilio, cofnodi a datgan. Ysgol a gwên ar wynebau'r disgyblion yw Ysgol Bethel. Diolch hefyd am yr ymroddiad i gynnal ethos Gymraeg a Chymreig yr ysgol. Fel pob ysgol, fe ddaeth yr amser i'r plant hŷn – yn eu dagrau yn aml – i ffarwelio a symud ymlaen i'r sector uwchradd. Bydd yr ysgolion hynny yn falch o dderbyn y rhain. Gobeithio y daw llwyddiant iddynt ar ben y daith addysgol a gobeithio y byddant mewn gwahanol feysydd yn barod i gydnabod yn y dyfodol mai 'plant Bethel' ydynt.

I ysgol nid arholiad – yn unig
yw meini datblygiad.
Y mae rhai am hau yr had,
rho wreiddyn i wareiddiad.

**Diolch**
Diolchwn i Gareth Hughes, Erddig, am ei barodrwydd i dderbyn y gwahoddiad i lenwi y swydd wâg dros ardal Bethel/Seion ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Rwy'n siwr bydd ei brofiad ac ymroddiad yn gaffaeliad i ni fel etholwyr ar y Cyngor. Yn Gareth Griffith, Jane Pierce, Sasha Williams a Gareth Hughes mae gennym gwota cyflawn, profiadol a gweithgar i'n cynhyrchioli ar y Cyngor Cymuned.

**Aduniad**
I'r Howgets yn eich mysg hoffwn dynnu eich sylw at gyhoeddiad yn yr adran Llythyrau yn y rhifyn hwn.

**Adran Yr Urdd**
Ar benwythnos braf 9fed-11eg Mehefin cafodd 17 o'r aelodau benwythnos i'w chofio yng ngwersyll yr Urdd Glanllyn. Diolch i Huw, Sioned a Menna am eu gofal ohonynt.

Bu'r ymdrech i godi arian at y





Yna'r wefr o gael mynd o dan y ddwy bont. Rhaid oedd rhyfeddu at y beirianyddiaeth a'r grefft o'u hadeiladu. Braf oedd croesawu nifer o gyfeillion i ymuno â ni. Wedi mwynhau picnic, morio yn ôl yn hamddenol i'r Cei yng Nghaernarfon. Rydym mor freintiedig o gael byw mewn ardal mor naturiol hardd.

Diolchodd Mair Price i'r pwyllgor am eu trefniadaeth trylwyr y tymor hwn, a dymuno'n dda i Jennifer Roberts a'i phwyllgor am y tymor nesaf. Diolch i Jen hefyd am y cronicl lluniau â dynnwyd yn gofnod i ni o weithgareddau'r flwyddyn. Cymerwn y cyfle i longyfarch Jen ar ddod yn nain unwaith eto. Ganwyd mab i'w merch Ceri a'i gŵr yn ddiweddar.

Fe fydd egwyl rŵan dros yr haf cyn ailymgynnull yn y Neuadd Goffa ar nos Fercher, 13eg Medi am 7.30pm. Y swyddogion fydd Jennifer Roberts (llywydd), Meira Evans (Ysgrifenyddes) a Mair Williams (Trysorydd). Croeso i aelodau hen a newydd i gymdeithasu a rhannu rhaglen amrywiol 2023/24. Tâl aelodaeth fydd £20 mewn arian parod os gwelwch yn dda. Mwynhewch y seibiant, gan edrych ymlaen i'ch gweld ym mis Medi.









gangen yn llwyddiant drwy ddewis dyddiad o'r Dyddiadur. Rhian Graham, nain Gethin oedd yr enillydd. Diolch i Gaffi Cymunedol y Bedol am roi y te prynhawn i ddau fel gwobr. Simon Thomas, trefnydd Eryri ddewisodd y dyddiad.

Oherwydd newidiadau yn y tywydd, cawsom ein cyfarfod olaf yn y Galeri i weld ffilm a bwyd yn Mcdonalds a phawb wedi mwynhau.

Diolch i bawb fu'n ein cefnogi drwy'r tymor a chawn edrych ymlaen i ail gychwyn cyfarfod ym mis Mehefin. Haf hapus i chi i gyd!

**Eisteddfod Bethel**
Fel y gwelwch mae pwyllgor yr Eisteddfod wedi cynnwys y testunau yn y gwahanol feysydd yn y rhifyn hwn (tud 9). Diolch iddynt am gadw'r fflam yn fyw ac edrychwn ymlaen at eisteddfod lwyddianus eto eleni. Diolch o flaen llaw i'r gwirfoddolwyr parod fydd yn rhoi o'u hamser i hyfforddi y plant. Fel pob blwyddyn bydd y Pwyllgor yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniad ariannol tuag at y costau. Mae un noson wedi ei threfnu yn barod. Ar nos Wener, 8ed Medi bydd Helfa Drysor o gwmpas y pentref yn cychwyn a gorffen yn y Neuadd Goffa. Cadwch olwg am fwy o fanylion am beth sydd fel arfer yn noson hwyliog a chymdeithasol.





# Clwb Cerdded Bethel





I ardal Pentref Berw ym Môn yr anelodd y dwsin ohonom a Wini y ci ar gyfer ein taith ddiweddaraf. Parcio ger Cors Ddyga a dilyn arwyddion hanesyddol yr ardal oedd yn amlygu'r daith. Y man cyntaf oedd safle hen bwll glo Berw. Mae'r bwrdd gwybodaeth yno yn nodi bod cloddio yno ers 1550. Nodir hefyd safleoedd y nifer o byllau bychain annibynnol a sefydlwyd yno. Erbyn hyn mae gweddillion adeiladau gwreiddiol y pwll wedi eu cofrestru gan asiantaeth Cadw.

Y dasg nesaf oedd ceisio olrhain rhediad dwy o reilffyrdd yr ardal. Y pwysicaf oedd Rheilffordd Canol Môn arferai redeg o orsaf y Gaerwen i Amlwch. Mae cryn dyfiant ar rediad y lein bellach, gan i'r trên olaf arni redeg 30 mlynedd yn ôl. Nid yw'r cledrau wedi eu codi, ac mae dyfodol y lein yn dal yn destun trafodaeth. Yn ôl y wasg mae'n debyg y buasai'n costio £130 miliwn i adnewyddu'r 'ffordd haearn' ac ail gychwyn y gwasanaeth. Mae criw ffyddlon wedi bod yn anelu i wireddu'r freuddwyd yma ers sawl blwyddyn. Erbyn heddiw mae criw arall yn awgrymu'r syniad o'i throi yn llwybr cerdded, beicio a marchogaeth – trac ffitrwydd fel petai. Cawn weld.

Am 30 mlynedd roedd rheilffordd arall yn cysylltu gorsaf Pentre Berw a Thraeth Coch/ Benllech. Mae'r cledrau yma wedi eu codi, ond mae cyflwr y pontydd drosti mewn cyflwr boddhaol.

Ein cyrchfan nesaf oedd hen eglwys Sant Mihangel, Ysgeifiog. Dyddia'n ôl i'r 15ed ganrif, ac yn adfail erbyn hyn, er yn dal i'w chofrestru gan Cadw.

Ymlaen ar draws y gors, ac antur yn ein wynebu. Roedd y 100 llath olaf cyn cyrraedd Lôn Las Cefni yn debycach i jyngl na llwybr cyhoeddus. Gyda Wini yn troi'n 'gi tywys' effeithiol fe wnaethom weithio ein ffordd drwy'r tyfiant. Roedd y filltir olaf ar hyd llwybrau tarmac braf at y ceir. Paned a sgwrs yng nghaffi Tanio, a theithio gydag atgof o gwmniaeth braf unwaith eto.

# HR Jones



Yn dilyn erthygl y mis diwethaf am gofio Huw Robert Jones, bu plant hynaf Ysgol Gwaun Gynfi yn dysgu am ei fywyd a'i gyfraniad pwysig i Gymru. Buont, gydag aelodau o staff yr ysgol, Annette a Tony a chefnogwyr eraill, yn ymweld â'r fynwent ar 17eg o Fehefin i weld ei fedd a chanu cân ar lan y bedd (cân gan Tony Elliott ac Annette Bryn Parri) i gofio amdano.

Diolch i Iola Gruffydd am y llun a'r wybodaeth isod:

Yn dilyn eich erthygl am gofio HRJones yn y rhifyn dwytha, dyma lun o gyfarfod gynhaliwyd ar 3ydd Awst 1975 i goffau H.RJones.



Roedd Robyn Lewys yno fel y gwelwch yn y llun, Dr Kate Roberts a finna, fel aelod ieuengaf Cangen Plaid Cymru Deiniolen ar y pryd, yn gosod torch o flodau ar ffurf triban y Blaid, ar y bedd. Mae nifer o bentrefwyr Deiniolen yn y llun a chefn pen Parch Brew Hughes oedd yn ficer ar Eglwys Llandinorwig ar y pryd.







# Eisteddfod Bethel

**14 Hydref, 2023**

**<u>Cynradd</u>**
**<u>Cylch Meithrin</u>**
Plant yn cael eu dysgu yn y Cylch

**<u>Dosbarth Meithrin</u>**
Unawd – "Mi Welais Jac y Do
Llefaru – "Poen Bol"

**<u>Blwyddyn Derbyn</u>**
Unawd – "Y Clown"
Llefaru – "Tydw i'n smart!" (Selwyn Griffith)

**<u>Blwyddyn 1</u>**
Unawd – "Traed Mawr Strempan"
Llefaru – "Cantorion" (Selwyn Griffith)

**<u>Blwyddyn 2</u>**
Unawd – "Byd Amryliw"
Llefaru – "Plîs"

**<u>Blwyddyn 3 a 4</u>**
Unawd – "Ffrindiau" (Ceri Gwyn)
Llefaru – "Tedi a fi" (Tony Llewelyn)

**<u>Blwyddyn 5 a 6</u>**
Unawd – "Carol y Goeden" (Meilir Wyn)
Llefaru – "Dewch am dro" (Geraint Lloyd Owen)

Unawd Piano Bl 6 ac iau – hunanddewisiad
Unawd Offeryn (heblaw piano) Bl 6 ac iau – hunanddewisiad
Unawd Alaw Werin Bl 6 ac iau – hunanddewisiad
Unawd Cerdd Dant Bl 6 ac iau – hunanddewisiad
Parti Llefaru Bl Derbyn, 1, 2 a 3 – "Parti pen-blwydd!" (Anni Llyn)
Parti Canu Bl Derbyn, 1, 2 a 3 – "Coch, Melyn a Gwyrdd" (Annette Bryn Parri)
Parti Llefaru Bl 4, 5 a 6 – "Waw Glanllyn!" (Dorothy Jones)
Parti Canu Bl 4, 5 a 6 – "Cân y Cawr" (Caryl Parry Jones a Myfyr Isaac)

Bydd yr holl ddarnau unawd a llefaru ar gael trwy Ysgol Bethel neu trwy Eirian Hughes-Davies, 07765 365624.

Os ydych yn dymuno i'ch plentyn gymryd rhan yn y partïon, rhowch wybod i Eirian Hughes-Davies ar 07765 365624 erbyn Medi 4ydd, 2023.

Bydd tlysau yn cael eu cyflwyno i'r unawdydd, llefarydd, pianydd, offerynnwr, parti canu a llefaru gorau yn yr oedran Cynradd.

Bydd gwobrau teilwng yn cael eu rhoi i'r 1af, 2il a'r 3ydd ymhob cystadleuaeth felly dewch yn llu i gystadlu!

Bydd seremoni cadeirio'r Llenor Cynradd (gwaith a wneir yn yr ysgol) yn cael ei chynnal gyda'r nos yn ystod yr Eisteddfod.

**<u>Cystadlaethau Cynradd ac Uwchradd</u>**
Cân Gyfoes/Sioe Gerdd (Cynradd ac Uwchradd) – (hunanddewisiad)
Meimio i gerddoriaeth Gymraeg (Cynradd ac Uwchradd) – unigol neu grŵp (hunanddewisiad)
Deuawd Cynradd ac Uwchradd (hunanddewisiad)
Ensemble Offerynnol Cynradd ac Uwchradd (hunanddewisiad)
Stori a Sain (darn i'w gael ar y noson)
Darllen darn heb ei atalnodi (darn ar gael ar y noson)
Cystadleuaeth dweud jôc (addas i'r Eisteddfod!) – hunanddewisiad

**<u>UWCHRADD</u>**
Unawd Bl 7 i 13 (hunanddewisiol)
Llefaru Bl 7 i 13 "Yr Eira Cyntaf" (Myrddin ap Dafydd) neu hunanddewisiad *(darn llefaru ar gael trwy Eirian Hughes-Davies)*

Unawd Piano Bl 7 i 13 (hunanddewisiad)
Unawd Offeryn (heblaw piano) Bl 7 i 13 (hunanddewisiad)
Parti Canu Uwchradd (hunanddewisiad)
Parti Llefaru Uwchradd (hunanddewisiad)
Côr – agored (hunanddewisiad)

**<u>Llên</u>**
Blwyddyn 7 – 9 – cerdd neu ryddiaith hunanddewisiad
Blwyddyn 10 – 13 – cerdd neu ryddiaith hunanddewisiad
Bydd angen cyflwyno'r gwaith llên i law Eirian Hughes-Davies, Dolerw, Bethel, 07765 365624 erbyn Hydref 4ydd 2023.
Bydd seremoni cadeirio'r Llenor Uwchradd yn cael ei chynnal gyda'r nos yn ystod yr Eisteddfod.
*Bydd gwobr o £10 i enillwyr pob cystadleuaeth Uwchradd, £8 i'r 2il, a £6 i'r trydydd. Rhoddir cwpanau neu dlysau i'w cadw am flwyddyn yn wobr mewn rhai cystadlaethau penodol.*

**<u>CYSTADLAETHAU CYNRADD AC UWCHRADD</u>**
Cân Gyfoes/Sioe Gerdd (Cynradd ac Uwchradd) – (hunanddewisiad)
Meimio i gerddoriaeth Gymraeg (Cynradd ac Uwchradd) – unigol neu grŵp (hunanddewisiad)
Deuawd Cynradd ac Uwchradd (hunanddewisiad)
Ensemble Offerynnol Cynradd ac Uwchradd (hunanddewisiad)
Stori a Sain (darn i'w gael ar y noson)
Darllen darn heb ei atalnodi (darn ar gael ar y noson)
Cystadleuaeth dweud jôc (addas i'r Eisteddfod!) – hunanddewisiad

**<u>Cystadlaethau (agored i oedolion/ cymdeithasau)</u>**
Cystadleuaeth Talent Bethel – agored i **gymdeithasau** Bethel (hunanddewisiad e.e. sgets, canu, côr). Gwobrau ariannol o £30 i'r 1af, £20 i'r 2il a £10 i'r 3ydd.

Cystadleuaeth Limrig

Ysgrifennu cerdd neu ryddiaith (hunanddewisiad)

Bydd angen cyflwyno unrhyw waith llên i law Eirian Hughes-Davies, Dolerw, Bethel, 07765 365624 erbyn Hydref 4ydd 2023.
**<u>Cystadlaethau Celf a Chrefft Eisteddfod Bethel 2023</u>**

**Creadigol 2D**
**Agored (Ysgol Bethel i drefnu)**
Cylch Ti a Fi
Cylch Meithrin
Meithrin
Derbyn
Blwyddyn 1
Blwyddyn 2
Blwyddyn 3
Blwyddyn 4
Blwyddyn 5
Blwyddyn 6

**Creadigol 2D**
**Thema – Yr Amgylchedd**
Blwyddyn 7 – 13

**Collâge**
**Thema – Yr Amgylchedd**
Blwyddyn 2 ac iau
Blwyddyn 3 – 6
Blwyddyn 7 – 13

**Gwaith Creadigol 3D (e.e Model, Pyped, Cymeriad Cartwn)**
**Thema – Yr Amgylchedd**
Blwyddyn 2 ac iau
Blwyddyn 3 – 6
Blwyddyn 7 – 13

**Ffotograffiaeth (- un llun neu gyfes o luniau. Lliw neu Ddu a Gwyn)**
**Thema – Yr Amgylchedd**
Blwyddyn 2 ac iau
Blwyddyn 3 – 6
Blwyddyn 7 – 13

**Graffeg Cyfrifiadurol (Ffotograff wedi ei addasu) Thema – Yr Amgylchedd**
Blwyddyn 1 – 13

**Dylunio Logo ar gyfer Eisteddfod Bethel 2024**
Blwyddyn 1 – 13

**Cerdyn Cyfarch**
**Thema – Yr Amgylchedd**
Blwyddyn 1 – 6
Blwyddyn 7 – 13

**Addurno logo ar gyfer Crys – T**
**Thema – Yr Amgylchedd**
Blwyddyn 1 – 13

**Addurno Bisgedi**
**Thema – Yr Amgylchedd**
Blwyddyn 2 ac iau
Blwyddyn 3 – 6
Blwyddyn 7 – 13

# CHWILAIR MIS AWST/MEDI – GLÖYNNOD BYW

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | L | A | N | E | R | O | N | E | A | L | B | N | Y | W | G |
| S | Th | L | Ö | M | I | W | G | W | Y | N | B | A | Ch | W | W |
| M | M | Ô | R | E | P | Ll | W | A | R | E | P | U | A | R | E |
| E | A | Dd | M | A | N | T | E | Ll | P | A | U | N | B | O | I |
| L | N | Y | G | W | Y | S | I | C | Rh | W | N | Ch | W | M | R |
| Y | T | N | E | L | C | O | R | B | R | Ö | Y | O | I | A | L |
| N | E | Y | N | T | E | R | L | A | W | F | Ll | G | Ll | R | Ö |
| Y | Ll | Ö | C | S | M | S | Ö | Ch | A | Rh | N | Ll | I | D | Y |
| Rh | G | L | U | A | P | C | Y | W | M | S | P | E | R | Ll | N |
| A | A | R | M | Y | R | O | N | N | N | U | A | T | T | E | Y |
| W | R | I | R | W | L | P | B | A | Y | D | F | N | E | T | P |
| N | P | E | I | B | P | O | R | T | W | C | R | A | C | N | E |
| W | I | W | M | M | A | R | Y | P | G | Y | E | M | W | A | R |
| Y | O | G | Ö | R | N | B | Ch | Ll | R | S | W | L | O | M | Th |
| D | G | L | E | Y | S | A | N | D | Ff | I | R | E | Y | U | I |
| B | W | R | N | E | D | Ch | W | E | S | M | O | T | Y | N | A |


**BWRNED CHWE SMOTYN**
**COPOR BACH**
**GLESYN Y CELYN**
**GWEIRLÖYN BRYCH**
**GWEIRLÖYN Y DDÔL**
**GWEIRLÖYN Y PERTHI**
**GWYN BACH**
**GWYN BLAEN OREN**
**GWYN MAWR**
**MANTELL DRAMOR**
**MANTELL GARPIOG**
**MANTELL GOCH**
**MANTELL PAUN**
**MELYN Y RHAFNWYD**
**TRILLIW BACH**

Byddaf wrth fy modd pan dwi'n gweld glöyn byw (pili pala neu iâr fach yr haf) yn yr ardd neu pan fyddaf ar grwydr. Bûm yn ddigon ffodus i weld a chael llun o'r Gweirlöyn Brych yn yr ardd. Ffodus iawn, oherwydd(yn ôl Duncan Brown ar dudalen Fbk Llên Natur, maent wedi bod yn brin iawn eleni. Cefais lun o'r Trilliw Bach, yng nghanol llwyth o wenyn ar y lafant acw, hefyd, sy'n fy ngwneud i'n hynod hapus. Pam? Fel arfer maent wedi hedfan i ffwrdd cyn i mi hyd yn oed feddwl am gael llun!

Beth am gael y plant i dynnu lluniau o unrhyw löyn welan nhw dros wyliau'r haf? Efallai gallan nhw hefyd anfon unrhyw luniau i'r Eco i'w cyhoeddi yn ein rhifyn nesaf? Mae croeso i chi gysylltu efo'r Eco os ydach chi am rannu unrhyw beth fyddai o ddiddordeb i'n darllenwyr. Bydd yr atebion i'r chwilair hwn yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.






**GEIRFA GLÖYNNOD** – BUTTERFLY VOCABULARY

**Bwrnad Chwe Smotyn – Six Spot Burnet**
**Copor Bach** – Small Copper
**Glesyn y Celyn** – Holly Blue
Gweirlöyn Brych – Speckled Wood
Gweirlöyn y Ddôl – Meadow Brown
Gweirlöyn y Perthi – Gatekeeper
Gwyn Bach – Small White
Gwyn Blaen Oren – Orange Tip
Gwyn Mawr – Large White (Cabbage White)
Mantell Dramor – Painted Lady
Mantell Garpiog – Comma
Mantell Goch – Red Admiral
Mantell Paun – Peacock
Melyn y Rhafnwyd – Brimstone
Trilliw Bach – Small Tortoiseshell



| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | O | P | Y | S | P | E | R | T | M | A | C | E | R | L |
| C | Y | E | D | N | F | G | Dd | H | T | Ll | I | C | H | I |
| U | D | S | O | F | M | I | P | A | B | I | D | O | T | L |
| H | N | P | E | G | E | Ll | E | S | G | E | N | R | W | I |
| I | E | S | W | Dd | L | A | F | N | Y | M | H | N | Ch | R |
| D | B | Rh | O | S | Y | N | M | Y | N | Y | Dd | I | B | D |
| A | L | C | T | E | N | B | Ff | N | Ng | M | I | C | U | Y |
| F | O | G | N | R | M | S | L | T | C | A | T | Y | B | Ff |
| M | D | Ch | A | S | A | Ff | B | A | E | D | R | Ll | C | R |
| L | Y | E | F | N | I | T | G | F | I | S | W | E | I | Y |
| W | N | Th | A | Ch | R | B | Y | S | E | Dd | Y | C | W | N |
| S | H | C | L | Y | Ch | L | Y | S | E | R | N | R | N | Ll |
| I | A | G | E | O | I | S | E | R | E | N | Ll | Y | S | I |
| N | U | P | H | E | N | L | P | A | R | W | O | E | A | C |
| C | L | U | S | T | Y | M | O | Ch | Y | N | S | T | M | B |

# ATEBION I CHWILAIR MIS GORFFENNAF – BLODAU'R ARDD



**BLODYN HAUL**
**BYSEDD Y BLAIDD**
**BYSEDD Y CWN**
**CLUST Y MOCHYN**
**CLYCHLYS**
**CORNICYLL**
**GELLESGEN**
**LAFANT**
**LILI'R DYFFRYN**
**MELYN MAIR**
**PABI**
**PYS PER**
**RHOSYN MYNYDD**
**SERENLLYS**
**TRWYN LLO**

# Ysgol Penisarwaun

**Gweithgareddau Pontio**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 fynychu Gŵyl Chwaraeon yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar yn ystod oriau'r ysgol. Cawsant hefyd gyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd traws gwlad ar ôl oriau ysgol. Cyfle gwych iddynt ddod i adnabod disgyblion blwyddyn 6 eraill y dalgylch.

Cawsant hefyd dreulio deuddydd yn yr Ysgol Uwchradd. Yn ystod y deuddydd hwn cawsant recordio anthem newydd y dalgylch a chymryd rhan mewn gweithdai codio cyfrifiadurol. Mae pob un ohonynt bellach yn edrych ymlaen at gychwyn yn yr Ysgol Uwchradd fis Medi. Dymuniadau gorau a phob llwyddiant i'r saith ohonynt yn eu hysgol newydd.



**Gweithgaredd Samba**
Diolch i gynllun Codi'r To cafodd disgyblion blwyddyn 5 fynd i Ysgol Uwchradd Brynrefail lle cawsant gymryd rhan mewn Gweithdy Samba. Unwaith eto cafwyd llawer iawn o hwyl a phawb wedi mwynhau.



**Gweithdai Cerddorol**
*Ukelele*
Dros y cyfnod diwethaf cafodd disgyblion yr adran Iau wersi Ukelele. Bu Huw Owen yn dod i'r ysgol yn wythnosol i gynnal gweithdai creadigol gyda'r disgyblion. Cyfansoddodd Blynyddoedd 3 a 4 gerdd "Bywyd Chwarelwr" tra cyfansoddodd blynyddoedd 5 a 6 gerdd o'r enw "Gweision y Faenol". Bu'r disgyblion yn ymarfer yn yr ysgol cyn cael recordio eu gwaith gorffenedig ar CD. Derbyniodd pob un gopi o'r CD i fynd adre ar ddiwedd y gweithdy. Diolch yn fawr i Huw am ei waith caled gyda'r disgyblion. Cawsant brofiad creadigol cyfoethog iawn a phawb wedi mwynhau yn arw.

*Gweithdai recorders*
Cafodd disgyblion yr Adran Iau weithdai darllen cerddoriaeth a chwarae'r recorder gan ymarferydd Cymdeithas William Mathias. Yn ystod y gweithdy yma bu'r disgyblion unwaith eto yn cyfansoddi. Y tro hwn cerddi am Bonciau'r Chwarel a gynhyrchwyd. Aeth y disgyblion ati i berfformio rap o'i gwaith gyda lleisiau, recorders ac Ukelele yn cael ei chwarae. Cyflwynwyd y gwaith i bawb oedd yn yr Eisteddfod Bentref. Gwych iawn a phawb wedi mwynhau unwaith eto.

**Teithiau Addysgol**
Aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar daith addysgol i Pili Palas. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn gyda phawb wedi mwynhau ac wedi dysgu llawer.

I'r Galeri yng Nghaernarfon aeth Disgyblion Blynyddoedd 3 4 a 5 a 6 i weld Perfformiad Cwmni'r Arad Goch o hanes Jemima Nicholas.

Ar ddiwedd y tymor cafodd disgyblion blwyddyn 6 fynd i Gastell Caernarfon i weld cynhyrchiad arbennig o'r Mabinogi gan gwmni Struts and Frets, sydd yn llwyfannu'r sioe mewn lleoliadau ysbrydoledig Cadw ar hyd a lled Cymru ar hyn o bryd. Cawsant ddilyn hynt a helynt Rhiannon, Blodeuwedd a Phryderi a chlywed am swynion dewiniaid. Yn ogystal â stori afaelgar cafwyd pypedau , cerddoriaeth fyw a gwisgoedd arbennig. Cafodd bawb hufen ia cyn dychwelyd.



**Llwyddiant**
Diolch i Lillie am ddod a'i gwobrau am gystadlu mewn cystadlaethau Merlota i'r ysgol i ddangos. Mae hi wedi bod yn brysur yn cystadlu dros y penwythnosau yn ystod y tymor ac wedi bod yn llwyddiannus. Da iawn Lillie.

**Gwyliau'r Haf**
Hoffwn ddymuno Gwyliau Haf dedwydd i bawb. Bydd yr ysgol yn ail agor i ddisgyblion ddydd Mawrth Medi'r 5ed, 2023.

# Dau gylchgrawn newydd Cymraeg i ddod yn 2023

Bydd dau gylchgrawn newydd ar gael yn y Gymraeg eleni, ar ôl i Wasg Carreg Gwalch a Golwg ennill grantiau gan y Cyngor Llyfrau i beilota dau deitl newydd.

Bydd Gwasg Carreg Gwalch yn lansio cylchgrawn hanes poblogaidd, *Hanes Byw,* ym mis Medi a bydd Golwg yn lansio cylchgrawn digidol ar chwaraeon erbyn yr hydref.

Cafodd y ddau deitl eu sefydlu trwy gyllideb gan y Cyngor Llyfrau, sy'n cefnogi cylchgronau Cymru yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar bynciau o bob math, diolch i arian grant gan Cymru Greadigol.

Bydd cylchgrawn *Hanes Byw* yn cael ei lansio ar 28 Medi, gyda 4 rhifyn y flwyddyn ar gael mewn siopau llyfrau neu trwy danysgrifio ar wefan Carreg Gwalch.

Dywedodd Owain ap Myrddin, o Wasg Carreg Gwalch: "Yr hyn a anelir ato yw codi straeon o hanes ac archaeoleg, gwreiddiau geiriau a chwedlau, traddodiadau a chelfyddyd sy'n berthnasol o hyd i'n bywydau heddiw, yn taflu golau ar ambell broblem gyfoes. Bydd hefyd yn cynnwys elfennau storïol, hanes llawr gwlad y byddai trwch y gymdeithas Gymraeg yn medru ymhyfrydu ynddo a theimlo'n gyfforddus i gyfrannu iddo. Bydd prif faes yr erthyglau yn perthyn i'r 250 mlynedd diwethaf. Bydd pwyslais ar blethu'r gorffennol gyda heddiw – bod dylanwad ddoe i'w ganfod ym mywyd y dydd hwn."

Bydd Golwg yn lansio eu cylchgrawn chwaraeon newydd erbyn yr hydref. Dywedodd Owain Schiavone, Prif Weithredwr Golwg Cyf: "Mae Golwg yn falch iawn o'r cyfle i arbrofi gyda chylchgrawn chwaraeon newydd ac mae'r cynlluniau sydd gennym yn rai cyffrous. Rydym yn awyddus i geisio datblygu gwasanaeth sy'n arloesol yn y Gymraeg ac sy'n cynnig sylwebaeth arbenigol ar nifer o gampau gwahanol – o'r rhai prif ffrwd a phoblogaidd i chwaraeon llai amlwg. Byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth am union natur y cylchgrawn, ond rydym yn awyddus i glywed gan unrhyw un sy'n awyddus i gyfrannu at y prosiect, trwy e-bostio owainschiavone@golwg.cymru"

Dywedodd Arwel Jones, Pennaeth Datblygu Cyhoeddi'r Cyngor Llyfrau: "Rydym ni'n falch iawn o gefnogi peilot ar gyfer y ddau gylchgrawn yma sy'n ychwanegu pynciau newydd i'r farchnad cylchgronau Cymraeg. Sylwodd y panel annibynnol, sy'n dyfarnu'r grant cylchgronau, ar fwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer cylchgronau'n ymwneud â chwaraeon a hanes poblogaidd. Felly rydym ni wedi gallu cynnig grant un flwyddyn o £30,000 yr un i beilota cylchgronau newydd ar y pynciau hyn ac i ehangu'r dewis i ddarllenwyr."

**Ymddeoliad**

Dymunir pob dymuniad da i'r Parchg John Pritchard ar ei ymddeoliad ddiwedd Awst. Mae wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth a chefnogaeth i drigolion yr ardal ac wedi bod yn gefn ac arweinydd arbennig i aelodau capeli'r fro. Diolch o waelod calon am ei ymroddiad a ffyddlondeb, mi fydd chwith heb ei bresenoldeb cyson ar y Sul.



Dyma rai o aelodau Capel Cefn y Waen a Chapel Ebeneser Deiniolen, yn mwynhau te ar ôl yr oedfa dydd Sul yr 16eg o Orffennaf gan gynnwys dwy o'r aelodau hynaf, sef Miss Margaret Jones a Mrs Mona Parry.

**Cylch Meithrin**

Dymunir y gorau i Dilwen Williams wedi iddi gyhoeddi ei bod yn rhoi'r gorau i'w swydd fel arweinydd Cylch Meithrin Deiniolen ar ôl blynyddoedd lawer o waith caled ac ymroddiad i'r swydd. Mae dyled mawr i nifer o deuluoedd y pentref am ei gwaith a chenedlaethau o blant wedi elwa o ofal arbennig Anti Dilwen. Dyma beth oedd gan Anti Dilwen i'w ddweud:

*"Daeth yn amser i mi ffarwelio â Chylch Meithrin Deiniolen, ar ôl dros 17 mlynedd o wasanaeth diflino. Hoffwn ddiolch i'r gymuned gyfan, yr holl staff a fu'n gweithio yn y Cylch a'r staff presennol am eu cefnogaeth dros yr holl flynyddoedd.*

*Pob dymuniad da i'r Cylch i'r dyfodol, mae wedi bod yn rhan fawr o fy mywyd i ac mi fydd yn aros yn fy nghalon i am byth.*

*Anti Dilwen"*

**Merched y Wawr**

"Cawsom drafodaeth fuddiol yn ein cyfarfod fis Mai am raglen y gangen ar gyfer 2023-2024, ac edrychwn ymlaen at ddatgelu'r syniadau da am siaradwyr pan gawn bob cadarnhad. Bydd ein cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd nos Lun 18fed o Fedi am 7 o'r gloch yn Nhŷ Elidir, pan fydd croeso atom i unrhyw aelodau newydd.

Ar 17 Mehefin cynhaliwyd stondin gan y mudiad yng Ngŵyl Deiniolen ar Gae Bwthyn. Roedd yn neis bod yn yr Ŵyl eto, ac roedd hi fel ffair arnom! Roedd pob cacen gri, cacen pili pala, cacen lemwn, a chacen creision ŷd a mefus siocled wedi'u gwerthu erbyn diwedd y dydd! Diolch am bob cyfraniad i'r raffl ac i lwyddiant y stondin a'r diwrnod yn gyfan.

Ein taith haf eleni oedd i Fetws y Coed ar ddiwrnod braf i grwydro o gwmpas ar y 1af o Orffennaf. Cawsom swper ym Mhont y Pair cyn troi am adre a chafodd ambell un fargen dda ar sandalau cerdded yn yr hen Log Cabin! Does dim esgus i fod yn segur dros yr haf bellach! Does gan y Rhanbarth ddim taith gerdded eleni fel yr un a gafwyd ar hyd Llyn



Llanberis y llynedd, oherwydd prysurdeb gyda digwyddiadau'r mudiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan. Welwn ni chi yno efallai!"



## Carnifal – Gŵyl Deiniolen

Fel rhan o weithgareddau Gŵyl Deiniolen cynhaliwyd Carnifal ar ddydd Sadwrn yr 17eg o Fehefin ar Cae Bwthyn. Braf gweld gymaint o bobl leol, hen ac ifanc yn cael hwyl ac yn cael cyfle i godi arian at wahanol fudiadau lleol a chael cyfle i ddod ynghyd. Ffordd dda o ddod a'r gymuned at ei gilydd a phawb wedi mwynhau, yn enwedig gan fod y glaw wedi cadw draw! Diolch i'r Pwyllgor ac i bawb fu'n trefnu ac yn cymryd rhan.

























# Deg Mil i Ddathlu Deiniolen

Daeth newyddion gwych yn ddiweddar i Ddeiniolen gyda chyhoeddiad bod grant o £10,000 ar ei ffordd.

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi rhannu pot o £1.7 miliwn o grantiau rhwng 71 mudiad cymunedol ledled Cymru, ac mae Pwyllgor Pentref Deiniolen yn un o'r mudiadau llwyddiannus.

Mae Pwyllgor Pentref Deiniolen yn gweithio tuag at wneud Deiniolen yn lle gwell i fyw i'r bobl leol drwy greu cyfleoedd i gynnal digwyddiadau yn yr ardal leol, gan roi lle i blant, pobl ifanc ac oedolion ymweld, cymdeithasu a chymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau a gynhelir gan bobl leol, ar gyfer pobl leol. Bydd grant o £10,000 gan y Loteri Genedlaethol yn caniatáu iddynt dalu am staff ychwanegol ar gyfer digwyddiadau yn yr ardal leol, rhent a chyfleustodau ar gyfer lleoliad yn y gymuned yn ogystal â chostau hyrwyddo, gweithgareddau, a lluniaeth.

Dywedodd Lyndsey Vaughan Pleming, Cadeirydd Pwyllgor Pentref Deiniolen: "Mae Pwyllgor Pentref Deiniolen yn hynod o falch i dderbyn y grant yma gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Bydd hyn yn hwb mawr i ni ddatblygu gwasanaethau ac adnoddau sydd wir eu hangen yma ym mhentref Deiniolen Adnodd mwyaf gwerthfawr yr ardal yw'r bobl, a gyda'n gilydd gallwn 'Ddeffro Deiniolen' – a sicrhau'r gorau i'r bobl sy'n byw yma nawr ac i genedlaethau'r dyfodol. Ymlaen – gyda'n gilydd!"


E. W. PRITCHARD
*Trefnwyr Angladdau*
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202



CLWB PÊL-DROED IEUENCTID DEINIOLEN
JUNIOR FOOTBALLCLUB
YMUNWCH A NI AM DYMOR NEWYDD
GWYBODAETH
Oes gan eich plentyn diddordeb mewn pêl-droed ac eisiau chwarae i dîm lleol?
Mae croeso iddynt ymaelodi gyda ein tîm ni.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Dion neu Glesni
TYMOR 2023/24
Mae'r clwb yn edrych i ehangu ein carfan drwy recriwtio hyfforddwyr/chwaraewyr ar gyfer yr oedrannau canlynol;
Dan 6 Hyfforddwr a Chwaraewyr Bl 1
Dan 8 Chwaraewyr Bl 2/3
Dan 9 Hyfforddwr/ Chwaraewyr Bl 4
Dan 10 Hyfforddwr a Chwaraewyr Bl 5
Dan 12 Chwaraewyr Bl 6/7

CYSYLLTWCH NAWR
CPDDEINIOLEN2019@OUTLOOK.COM


**Newyddion Cynghorydd Deiniolen**

Cafodd gwair caeau chwarae y ward eu torri yn ddiweddar, diolch i'r Cyngor.

Bu Cwmni Adra yn gyfrifol am dorri gwair Bro Deiniol.

Siop symudol i fod yn bresennol wrth ymyl Tŷ Elidir am 8 wythnos arall. Diolch i bawb sydd yn mynd yno i gefnogi y cynllun.

Diolch yn fawr i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am ariannu y ffens gafodd ei gosod yn Gorlan yn ddiweddar.

**Diwrnod Amgylcheddol**

Cafwyd diwrnod llwyddiannus draw yn Pentre Helen yn ddiweddar, gyda'n diwrnod amgylcheddol. Cafodd 4 sgip eu llenwi a chludodd faniau Cyngor Gwynedd, llond naw fan i'r ganolfan ail-gylchu! Dyma'r prif bartneriaethau fu'n cefnogi:

Adra
Tim ail-gylchu Cyngor Gwynedd
Tim Ardal Ni Cyngor Gwynedd
Williams & Williams Skip Hire

# Ysgol Brynrefail

**Diwrnodau Iechyd a Lles, Mehefin 2023**

Yn ystod ein tridiau o weithgareddau Iechyd a Lles ym mis Mehefin eleni rydym yn hynod falch ein bod wedi gallu cynnig arlwy eang o brofiadau i ddisgyblion Blwyddyn 7, 8, 9 a 10 Ysgol Brynrefail. Mae hynny'n golygu bod tua 520 o bobl ifanc yr ardal wedi elwa o gael gwneud gweithareddau gyda'u ffrindiau yn hytrach na dilyn eu hamserlen arferol o wersi yn y dosbarth. Mae hybu iechyd meddwl a chorfforol iach yn bwysig iawn i ni yn yr ysgol a dyma oedd ffocws y gweithgareddau – mewn oes pan mae pobl ifanc yn treulio llawer o amser o flaen sgrin, yn eu llofftydd neu ar eu ffonau mae'n bwysicach ein bod yn cynnig cyfleoedd iddynt flasu a phrofi profiadau gwahanol i'r arfer. Cyn mynd ati i drefnu fe wnaethom holi barn rhieni, disgyblion a staff – mae'n anodd plesio pawb wrth reswm ond rydym yn gobeithio ein bod wedi gallu plesio'r rhan fwyaf!



Criw o flwyddyn 9 ar Lyn Padarn

Cafodd disgyblion Blwyddyn 7 y cyfle i feicio o Gaernarfon i Fryncir ac yn ôl ar hyd Lôn Eifion (neu i Benygroes i'r rhai llai mentrus). Cawsant gyfle i fynychu gweithdy drama, cerdd a Samba yn neuadd yr ysgol ac fe aethon nhw am dro yn ardal Llanberis gan ddysgu mwy am hanes Castell Dolbadarn a gwneud gwaith celf yn yr Amgueddfa Lechi.

Aeth disgyblion Blwyddyn 8 i Lerpwl am y diwrnod gan ymweld â'r amgueddfa forwrol (a chael amser i siopa wrth gwrs!). Hefyd, aethon nhw am dro yn ardal Beddgelert gan gerdded o Nant Gwynant i Lyn Dinas, i fyny wedyn i Gwm Bychan ac yn ôl ar hyd afon Glaslyn i Feddgelert am hufen iâ haeddiannol. Cawsant gyfle hefyd i ddysgu mwy am wlad, iaith, crefydd, chwedlau a diwylliant India mewn gweithdy yn yr ysgol.



Criw o flwyddyn 8 ar daith i Lerpwl



Criw Blwyddyn 9 ar daith Nant Peris




Criw o flwyddyn 10 yn Llanddwyn

Caiacio ac adeiladu rafft mewn timau ar Lyn Padarn oedd un o brofiadau disgyblion Blwyddyn 9. Hefyd, buon nhw ar daith gerdded o 9 milltir o Nant Peris, i fyny i'r chwarel (a gweld set rhaglen 'Game of Thrones' yn cael ei hadeiladu!) ac yn ôl i'r ysgol drwy Fachwen a Phenisarwaun. Yn olaf, cawsant gyfle i brofi gwahanol ffyrdd o gadw'n heini mewn gweithdai dawns, yoga a chwaraeon.

Saethu peli paent neu 'paintballing' oedd un o'r gweithgareddau i ddisgyblion Blwyddyn 10 gan gerdded i'r ganolfan ac yn ôl o'r ysgol (sef taith o tua 4 milltir). Cawsant hefyd fynd ar daith gerdded i Niwbwrch, Ynys Môn gan dreulio amser ar draeth hyfryd Llanddwyn (a gweld set arall y rhaglen 'Game of Thrones' yno!) Buon nhw hefyd yn chwarae gêm o golff-droed mewn timau a chwarae gemau fel criced, rownderi a phêl-droed yn erbyn ei gilydd.

**Diwrnodau Pontio ac Ymweld Blwyddyn 6**

Roedd cynnwrf mawr yn yr ysgol ar ddydd Llun a dydd Mawrth 12fed a'r 13eg Mehefin wrth i ddosbarthiadau blwyddyn 6 ysgolion cynradd y dalgylch ymuno â ni am ddeuddydd i



ymgyfarwyddo â'r ysgol a dod i adnabod disgyblion eu blwyddyn o ysgolion eraill.

Ar ddydd Llun treuliwyd y bore yn cwblhau gwaith pontio cymhwysedd digidol oedd wedi ei gychwyn fel prosiect yn yr ysgolion cynradd a'i gwblhau yn Ysgol Brynrefail. Yr oedd pob grŵp yn gweithio yng nghystadleuaeth Brwydr y Bygis i greu bygi a'i raglennu gan ddefnyddio meddalwedd gwahanol i ddilyn traciau penodol.

Dyma'r canlyniadau ar gyfer y categorïau gwahanol a 1af, 2il a 3ydd ar gyfer y gystadleuaeth ei hun.

1. Enillwyr Categori Ansawdd Adeiladu – Tîm Sêr Disglair (Llanrug) a Thîm Crumble (Waunfawr).
2. Enillwyr Categori Creadigrwydd ac edrychiad y Bygi – Tîm Dreigiau Drwg (Penisarwaun) a Thîm Michelle Obama (Bethel).
3. Enillwyr Categori Ansawdd Adeiladu – Tîm Cymru Crumble (Gwaun Gyfni) a Thîm Crumblers (Gwaun Gyfni).
4. Enillwyr Categori Cyflymder a manwl gywirdeb y bygi – Tîm Chwadan (Dolbadarn).
5. Enillwyr Categori Cydweithio fel tîm – Bois Llanber (Dolbadarn), Tîm Dreigiau Direidus (Penisarwaun) a Thîm Mynydd Mawr (Waunfawr).
6. Enillwyr Categori Gweithio heb Gymorth / Annibynnol – Tîm Hogia Hapus (Llanrug) a Thîm LMRO (Bethel).



**Cystadleuaeth Mathemateg blwyddyn 8**

Yn ystod mis Mehefin bu 8 set 1 mathemateg yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth fathemateg I flwyddyn 8 a drefnwyd gan y Gymdeithas Wyddonol eleni.

Llongyfarchiadau i Cynan Batten a Cai Williams ar dderbyn tystysgrif safon uchel ac i Caio Jones am dderbyn tystysgrif safon uchel iawn. Roeddent ymysg y rhai a ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth. Da iawn chi!











1. Enillwyr prif gystadleuaeth Brwydr y Bygis (1af) – Tîm Sêr Disglair (Llanrug).
2. Brwydr y Bygis (2il) – Tîm Crumblers (Gwaun Gyfni).
3. Brwydr y Bygis (3ydd) – Y 4 Prysur (Bethel).

Yn dilyn bore prysur yn codio cafwyd cyfle yn y prynhawn i ymarfer a recordio Anthem y Dalgylch. Mae'r anthem hon wedi ei chyfansoddi gan ddisgyblion bl6 pob ysgol yn y dalgylch a rhai o ddisgyblion blwyddyn 7 dan arweiniad Geth Tomos. Clywyd yr anthem ar raglen prynhawn Ifan ar Radio Cymru yn ddiweddar – mae hi'n wych!

Ar ddiwedd y dydd daeth Tudur Philips at flwyddyn 6 a 7 i berfformio Sioe Steddfod – Dowch i Foduan. Mae Cyngor Gwynedd wedi trefnu bod y sioe yn ymweld ag ysgolion uwchradd y sir pan mae blwyddyn 6 wedi bod yno er mwyn i flwyddyn 6 a 7 bob dalgylch ddysgu mwy am yr Eisteddfod Genedlaethol gan ei bod yn dod i'n hardal ni yr haf yma.

Ar fore dydd Mawrth rhannwyd pawb o flwyddyn 6 i'w dosbarthiadau newydd ym mlwyddyn 7 a chawsant gyfle i ddilyn amserlen arferol diwrnod yn yr ysgol uwchradd yn ogystal â chael sesiwn yn holi'r Cyngor Ysgol a'r Pennaeth Blwyddyn am unrhyw beth roeddent eisiau ei wybod am yr ysgol.

Rydym yn edrych mlaen i groesawu pawb yma i flwyddyn 7 yn mis Medi ac yn ddiolchgar i athrawon a chymorthyddion blwyddyn 6 a ddaeth yn gwmni i'r disgyblion ar y dydd Llun.

**Mabolgampau 2023**
Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion gymerodd ran yn y mabolgampau yng nghanol mis Mehefin. Cawsom ddiwrnod braf a llwyddiannus iawn. Dyma enwau a lluniau'r disgyblion a ddaeth i'r brig eleni.

**Genethod Blwyddyn 7**
1af – Maia Bermaud Thomas
2ail – Elan Williams
3ydd – Nanw Macintyre Huws

**Bechgyn Blwyddyn 7**
1af – Elis Griffiths
2ail – Dewi Williams
3ydd – Iago Hedd

**Genethod Blwyddyn 8**
1af – Alaw Edwards
2ail – Jessica Williams
3ydd – Elliw Jones

**Bechgyn Blwyddyn 8**
1af – Adam Davey
2ail – Caio Jones
3ydd – Ioan Owen

**Genethod Blwyddyn 9**
1af – Charlotte Darley
2ail – Beca Bowness
3ydd – Cadi Gosset ac Olwen Baines

**Bechgyn Blwyddyn 9**
1af – Max Roberts
2ail – Osian Morris
3ydd – Leon Francis a Guto Williams

**Victor Lodorum** – Elis Griffiths Blwyddyn 7
**Victrix Lodorum** – Maia Bermaud Thomas Blwyddyn 7


Y tŷ buddugol oedd Gwyrfai ac mae llun o Betsan Haf, capten Gwyrfai hefo'r gwpan.















**Llwyddiannau Chwaraeon**
Daeth Osian Morris Blwyddyn 9 yn Bencampwr Cymru yn ei oedran mewn cystadleuaeth beicio yn ddiweddar. Bydd yn mynd ymlaen rŵan i gynrychioli ei wlad yn y misoedd nesaf. Pob lwc iddo!

Ar gychwyn mis Gorffennaf aeth Hannah Fitsimmons-Thoss o Flwyddyn 9 lawr i Gaerdydd i gynrychioli Eryri yng nghystadleuaeth Athletau Cymru. Llongyfarchiadau mawr iddi ar ennill y fedal efydd wrth gael 3ydd yn taflu'r picell – gwych Hannah!

# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur – Rhan 17

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Ymddiheuriadau ond roedd hanes isod i fod yn Eco'r mis diwethaf ond mae'n rhaid bod pethau bach blewog wedi sleifio heibio'r Llew Frenin a chnoi drwy'r gwifrau a drysu pethau…

*Tybed os ydach chi wedi darllen y llyfr 'A Street Cat Named Bob' neu wedi gwylio'r ffilm? Seiliwyd y llyfr ar stori wir am James Bowen, oedd wedi bod yn gaeth i gyffuriau ac yn ddi gartref. Cerddodd Bob i mewn i'w gartref, gan roi rheswm i James fyw, a daeth y ddau'n gyfeillion nad oedd modd eu gwahanu. Bob oedd yn serennu yn y ffilm fel fo'i hun (ond wrth gwrs, nid yr un Bob sy'n deud ei hanes yn Eco'r Wyddfa bob mis).*

*Cath enwog arall oedd Orangey. Fo oedd yn actio 'Cat' yn y ffilm 'Breakfast at Tiffany's', gan gyd-serennu efo Audrey Hepburn. Roedd o mor dda am actio fe enillodd yr award PATSY dwywaith,.* Seren yn wir… *I'r rhai ohonoch sydd yn ddigon hen, fel fi, i gofio, roedd 'Lassie' yn un arall gafodd wobr PATSY!*



Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori :

" Fel dach chi'n gw'bod mi ydw i'n hoffi fy mwyd ac mae hi'n waith cyson i gadw fy mhwysau ar y 6 kg o ddydd i ddydd. Rhaid i mi gadw fy nerth, achos d'ach chi byth yn gwybod pryd fydd na rwbath bach pluog neu flewog o fewn cyrraedd. Ella mod i'n lond fy nghroen, ond dwi'n gallu symud fel mellten, pan dwi angen. Dwi'n falch nad oes yna gath arall, na'r un creadur arall, yn byw yn y tŷ yma efo fi, neu mi fysai'n rhaid i mi gwffio am fy swper … Roeddwn i'n gorfod cwffio i gael bwyd erstalwm, ond dydy hynny ddim yn rhan o fy mywyd i erbyn hyn. Roeddwn i'n sôn mis dwaetha fy mod i'n gath enwog. Naw wfft i hynny mae yna bethau pwysicach i boeni amdanynt. Pethau pwysig fel pryd gai fwyd yn fy mhowlen nesaf a pryd fyddan nhw'n cynna'r bocs bach sgwâr du i gynhesu'r lle yma.

Pan fydd fy mol i'n llawn dwi'n hapus i wylio'r byd yn mynd heibio, a gwylio giamocs y deu-droediaid a'r hyn sy'n digwydd efo'r deud-droediaid bach gwichlyd a swnllyd sydd yma weithiau. Heddiw roedd yr un fach efo un llai byth yn 'darllen llyfr'- wel dyna mae hi'n ei alw fo ac yn cael hwyl! Pan aethon




nhw i'r ardd i redeg o gwmpas, mi es i fusnesu beth oedd yn rhoi gymaint o hwyl iddyn nhw.

Roedd yna lun o gath arno fo ac o be glywais i, enw'r gath ddu yma oedd Twm. Pa fath o enw ydy hwnna ar gath? Er mod i'n cysgu llwynog glywais i hi nhw'n deud bod y gath ddu yn cael chwe chinio. Chwe chinio? Asiffeta dwi'n cael ryw fymryn o fwyd gwlyb yn fy mhowlen yn y bore ac wedyn yn y pnawn (ar ôl dipyn o ffalsio a pherswâd) ac mae hwn yn cael chwe phryd mewn chwe thŷ! Wir yr! Dwi'n gneud rwbath o'i le mae'n rhaid…

Dwi'n mynd i gael napan a meddwl drwy petha. Pan ddeffrais i a mynd drwadd i'r gegin, wnes i sylweddoli bod gen i bedair powlen ar y mat efo lluniau cathod arno fo. Dŵr sydd yn un, bisgedi mewn un arall, powlen brecwast a swper ydy'r un metel, a'r llall, un bach wen, yn dal ryw hylif blasus ganddyn nhw o bryd i'w gilydd. Felly dwi'n Bob pedair powlen. Mmmm. Hold on Defi John, fel bydda mam yn ei ddeud … Mae yna bowlen y tu allan i'r tŷ lle ydw i'n cael diod weithiau, mae o reit flasus, llai fflat a diflas na'r hyn sydd yn fy mhowlen i yn y tŷ. Felly dwi'n Bob pum powlen rŵan… Tybed fedrai fod yn Bob Chwe Phowlen rwsut…

A wyddoch chi be? Mi fedrai! Ryw ddiwrnod doedd yna ddim dŵr yn y bowlen yn y tŷ na'r bowlen y tu allan. Roedd hyhi yn rhy brysur yn gneud pethau yn yr ardd i gofio. Be fedrwn i wneud? Roeddwn i jest a thagu a ngheg i fel gwaelod caets bwji… Penderfynais bod yn greadigol a mynd i chwilio am ddŵr yn rhywle arall. Roeddwn i wedi gwylio rhai o'r petha pluog yn cael diod yn hwn – felly amdani! Os allai gael diod o hwn mi fydda i'n Bob Chwe Phowlen. Ocê dydw i ddim yn teithio o gwmpas chwe thŷ – erbyn meddwl basa'n rhaid i mi deithio am filltiroedd i gael hyd i chwe thŷ , a does wybod sut ddeu-droediaid fyddai ynddyn nhw. Mae'r rhai sydd gen i ddigon rhyfedd heb fynd i chwilio am rai rhyfeddach.

Mae'r holl feddwl a dadansoddi yma'n flinedig. Dwi angen napan bach arall. Setla i am deitl ychwanegol i'r goron o Lew Frenin sef Bob Chwe Phowlen… ella bod yna stori yn fanna yn rhywle".



Dewch am dro i'r siop am wledd o lyfrau i'ch ysbrydoli



Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

Palas PRINT

10 Stryd y Plas
Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas Safe Register
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718

AVW Advanced Vehicle Workshop
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

# WAUNFAWR

**Taith Haf Panad a Sgwrs a Merched y Wawr**
Cynhaliwyd taith haf ar y cyd rhwng criw Panad a Sgwrs a Merched y Wawr i Erddi Cadnant, Porthaethwy. Doedd y tywydd ddim ar ei orau ond wnaeth o ddim tarfu dim ar y mwynhad a'r hwyl a gafwyd. Diolch i'r rhai drefnodd y daith a gobeithio bydd mwy o deithiau yn ystod y flwyddyn!



**Addurno'r Pentref i groesawu Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd**
Er nad ydi Waunfawr yn Llŷn nac yn Eifionydd, rydan ni yn nhalgylch yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, a braf fyddai gwneud yn siwr ein bod yn estyn croeso cynnes i ymwelwyr â'r ardal yn sgil cynnal yr Eisteddfod yma. Gobeithio bydd addurniadau croesawu yn cael eu gosod wrth arwyddion Waunfawr erbyn i'r Eco gael ei gyhoeddi nesaf, a bydd ambell un o'r pentrefwyr wedi cael eu hysbrydoli i addurno eu cartrefi hefyd!!

**Cylch Meithrin Waunfawr**
Cynhaliwyd noson Bingo hynod o lwyddianus i godi arian i'r Cylch yn ddiweddar. Roedd y dafarn yn orlawn gyda phobl wedi dod i gefnogi. Casglwyd dros £350 i'r Cylch. Da iawn i bawb fu wrthi'n trefnu ac yn noddi.

**Llongyfarchiadau**
Ar Fehefin 24ain, yn Henblas Ynys Môn, priodwyd Helen Mai a Gwil Prytherch. Mae Helen yn ferch i Marian, Tai Eilian ac yn wyres i'r diweddar Kit o Tref Eilian. Cawsant dywydd bendigedig, fel y gwelwch yn y llun! Dymuniadau gorau posib i chi'ch dau i'r dyfodol.



**Brysiwch wella**
Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau a chofion cynnes at bawb o'r pentrefwyr sydd wedi bod yn sâl neu wedi gorfod cael triniaeth yn ddiweddar. Rydym yn anfon cyfarchion arbennig ar Rhys, Plas Glyn Afon sydd wedi treulio tipyn o amser yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn yr ysbyty. O'r diwedd mae Rhys wedi cael aren newydd, a gobeithio y byddi'n cael iechyd gwell o hyn ymlaen Rhys. Hefyd, mae cofion arbennig at Dewi Jones Dôl y Coed, sydd ar ganol triniaeth ar hyn o bryd. Gobeithio byddwch yn cael adferiad llwyr a buan Dewi. Cafodd Guto, Teganedd driniaeth yn Ysbyty Gwynedd, a gobeithio dy fod tithau'n gwella Guto.

**Croeso Adra!**
Mae Sara, merch Eurwyn a Pearl, Parc Waunfawr, wedi dychwelyd adra i fyw wedi 39 mlynedd i ffwrdd! Gadawodd Sara i fynd i'r brifysgol yn Lerpwl pan yn ddeunaw oed, a threuliodd Sara flynyddoedd wedyn yn byw yn ninasoedd Lerpwl, Llundain, Leeds ac yna Harrogate. Ond braf dy fod wedi dod adra Sara a chroeso cynnes nol i ti.

**Entreprenuriaid Ifanc Waunfawr!**
Mae Twm ac Erwan, Bodrida wedi mentro i fyd busnes yn ifanc iawn! Jam Mefus oedd y cynnyrch cyntaf iddynt ei werthu, ac roedd y jariau i gyd wedi mynd mewn dim! Daliwch ati hogia, ac mi edrychwn ymlaen i weld beth fyddwch yn ei werthu nesaf!



**Mascot Tîm Pêl-droed Cymru**
Cafodd Caleb Grove o Tref Eilian brofiad anhygoel fis diwethaf wedi iddo gael ei ddewis fel mascot i dîm pêl-droed Cymru yn eu gêm yn erbyn Armenia. Cafodd roi '*high five*' i bob un o chwaraewyr tîm Cymru, gan ei wneud yn hogyn hapus iawn, a'r profiad wedi bod yn fythgofiadwy! Rydan ni gyd yn Waunfawr yn falch dy fod wedi cael y cyfle arbennig hwn Caleb.





## Tîm Pêl-droed dan 10 oed

Cafodd tîm pêl-droed dan 10 Waunfawr noson i'w chofio'r penwythnos dwetha. Cyn mynd lawr i dafarn y Snowdonia Park, daeth y chwaraewyr ag aelodau o'r teuluoedd at ei gilydd am gêm gymysg.
Roedd y tywydd yn ofnadwy, ac y taclo yn waeth byth gan rhai o'r oedolion! Cafwyd lot o chwerthin, ag ambell i sgil yn cael ei ddangos gan rhai o'r oedolion. Diolch yn fawr i'r dafarn am y croeso, edrychwn ymlaen at y tymor newydd.





# LLANRUG

**Pob lwc**
Pob lwc i holl ddisgyblion a phobl ifanc bro'r Eco sydd wedi bod yn brysur yn adolygu ar gyfer gwahanol arholiadau dros y misoedd diwethaf: dymuniadau da i chi gyd wrth ddechrau ar bennod newydd ym mis Medi. Bydd rhai'n symud i golegau, eraill yn dechrau ar swyddi newydd neu'n cymryd y cyfle i gael seibiant ac i fynd i weld rhywfaint ar y byd cyn dechrau ar astudiaethau pellach neu swydd newydd. Pob lwc i bawb a mwynhewch yr haf!
Yn dilyn misoedd lawer o weithgareddau amrywiol yn y pentref i godi arian er budd Cronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, mae'r Ŵyl ar y gorwel ac mae 'na gyffro mawr! Pob lwc i bawb fydd yn cystadlu a pherfformio ym Moduan ddechrau Awst.

**Priodas**
Llongyfarchiadau calonnog i Bryn (Siop Gig Wavells) ac Angela, ar eu priodas yn ddiweddar. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i'r ddau ohonoch i'r dyfodol.

**Diolch**
Dymuna Mrs Tegwen Owen ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau pell ac agos am yr holl anrhegion a chyfarchion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn gant oed yn ddiweddar.

**Profedigaeth**
Rydym yn anfon ein cydymdeimlad llwyraf at Dafydd Gibbard a Delyth o Fryn Mair, Ffordd Crawia, a Gwenan Gibbard ym Mhwllheli o golli eu Mam, sef Mair Gibbard ar y 25ain o Fehefin. Cyfnod anodd i'r teulu oll ac rydym yn meddwl amdanynt yn eu colled.

**Profedigaeth**
Cafodd bro'r Eco ei brawychu ddiwedd Mehefin yn dilyn y newyddion hynod o drist o golli Dr Llŷr Sion Roberts tra ar wyliau. Roedd Llŷr yn un o blant y pentref a fu'n byw yn Bedw Gwynion am flynyddoedd, ac roedd wedi dychwelyd adref i'r Gogledd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ergyd a cholled enfawr i Mary, John a Lowri o golli nid yn unig fab, brawd ac ewythr annwyl a gofalus, ond un oedd â chymaint mwy i'w gynnig fel academydd disglair ac arbenigwr busnes, rheolaeth a marchnata. Roedd Llŷr hefyd yn Ysgrifennydd i Lys yr Eisteddfod Genedlaethol. Ni allwn ddirnad y loes y mae'r teulu'n ei deimlo a'r cyfnod hynod anodd y maen nhw'n ei wynebu, ond rydym i gyd yma'n y pentref yn meddwl llawer amdanynt ac yn anfon nerth a chydymdeimlad llwyraf atyn nhw.




## Dathlu Penblwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Mrs Tegwen Owen, Bod Elwy, Pontrhythallt ar ddathlu ei phenblwydd yn gant oed yn ystod Mehefin. Yn y llun gwelir hi gyda'i merch Menna, a'i chwaer (chwaer fach, chwedl hi) sy'n ymwelydd cyson o Gaernarfon. Cafwyd parti i'r teulu i ddathlu penblwydd mam, nain, hen nain a hen, hen nain. Nid yn aml y ceir pum cenhedlaeth yn dathlu gyda'i gilydd.

**Colled**
Mae'r pentref hefyd wedi tristau'n fawr gyda'r newyddion o golli Menna Williams – Menna Pensarn i bawb oedd yn ei hadnabod. Roedd yn Fam, Nain a Hen Nain hynod annwyl a charedig, ac mae'r golled yn fawr nid yn unig i'r teulu ond i'r ardal gyfan. Roedd Menna'n berson addfwyn ac yn ffrind i lawer ac roedd ganddi lais arbennig. Roedd canu'n agos iawn at ei chalon ac roedd yn enillydd mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol dros y blynyddoedd, gan berfformio'n aml mewn cyngherddau ym mhob cwr. Rydym yn meddwl llawer am Shân, Robin, Tim a Ffion yn eu colled drist ac yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf atynt yn y cyfnod anodd yma.

**Teyrnged gan Mair Hughes Menna**
Wrth golli Menna, mae Llanrug wedi colli TRYSOR. Roedd yn hapus a siriol bob amser ac yn mwynhau sgwrsio am ei bro. Roedd ganddi gof aruthrol, a bob amser yn ei chwmni mi fyddem yn dysgu rhywbeth newydd.

Roedd hi yn un o 'hoelion wyth' pentref Llanrug, a phawb yn adnabod 'Menna Pensarn'. Roedd wrth ei bodd yn reidio ei beic – yr un olaf oedd ganddi oedd yr un gwyn.

Roedd ganddi nifer fawr o ddiddordebau – yn aelod ffyddlon a gwerthfawr o Ferched y Wawr Llanrug ers y cychwyn cyntaf. Bu'n llywydd campus, sawl tro, ar y gangen.

Roedd yn soprano hyfryd yng Nghôr Clychau'r Grug ac yn unawdydd poblogaidd yn y Côr. Bu'n ffyddlon iawn i'r cyngherddau Adfent yng Nghapel y Rhos. Byddai ar y rhaglen bob blwyddyn fel unawdydd. Ac ar gais Haf Thomas, Tre Ceiri, byddai'n canu 'Mary's Boy Child' bob Nadolig. Roedd cystal os nad gwell na Harry Belafonte.

Roedd yn un o wirfoddolwyr gwerthfawr Clwb Cinio Hafan Elan am sawl blwyddyn hyd nes i hynny orfod dod i ben oherwydd y Cofid. Roedd pawb wrth eu bodd yn sgwrsio hefo hi.

Bu Menna'n Gofrestrydd i'r Cyngor Sir am flynyddoedd lawer, ac fe ddilynodd Shân ei mam yn yr un swydd. Wrth weinyddu priodasau, roedd bob amser yn gwneud hynny'n annwyl a phroffesiynol. Ac wrth gofnodi marwolaethau fe fyddai yr un mor annwyl a theimladwy bob amser gyda'r teulu.

Mae colli Menna yn ergyd drom i'w theulu wrth gwrs. Bydd ei ffrindiau yn teimlo'r golled yn ddwys hefyd – yn arbennig felly Val. Bu'r ddwy yn gyfeillion mynwesol ar hyd y blynyddoedd. Ond diolch am y llu atgofion melys a hapus fydd yn help i bawb wynebu'r dyfodol er cymaint y golled a'r hiraeth am Menna.

Bydd, fe fydd Llanrug yn llawer tlotach pentref heb Menna. Ond diolch amdani ac am gael ei hadnabod fel ffrind gwerthfawr. Boed iddi bellach gael huno'n dawel a di-boen gan wybod fod ganddi deulu annwyl a fydd yn gallu parhau i gynnal a thrysori ei henw am byth.

**Diolch**
Dymuna Anwen Hughes, Gwar y Mynydd, Carmel, a'r teulu oll, ddiolch o waelod calon am yr holl garedigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar yr achlysur trist o golli brawd, ewythr, cefnder a ffrind agos i lawer, sef Dylan Edwin Jones (Dyl Eds) o Lanrug, (gynt o Benisarwaun) yn ddiweddar.

Diolch yn arbennig i gwmni Iolo a'i griw yn Roberts & Owen, Penygroes am eu gofal caredig a'u cymorth a'u trefniadau gofalus ac urddasol.

Diolch yn fawr iawn hefyd i'r Parchedig W. Bryn Williams, Pwllheli (gynt o Dan y Gaer, Pontrythallt) am ei wasanaeth teimladwy ac arbennig.

Casglwyd £2,120.00 er cof am Dylan at Ymchwil yr Arennau.

**Capel y Rhos – Oedfaon mis Medi**
Medi 3: Uno yng Nghapel Caeathro am 2pm, ac fe weinyddir y Cymun gan ein Gweinidog, y Barchg Nerys Anne Griffiths
Medi 10: Gwasanaeth i'w drefnu
Medi 17: Y Barchg Nerys Anne Griffiths, ein Gweinidog
Medi 24: Mr. Donald Pritchard

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Ffion a Jamie, Stryd yr Orsaf ar enedigaeth mab bach arall sef Tomos Morgan. Mae Gruff John wrth ei fodd efo'i frawd bach newydd. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

**Llongyfarchiadau**
Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau mawr i Ian Darwood, Bro Rhyddallt, ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf gydag Anrhydedd mewn Ffiseg Niwclear ym Mhrifysgol Caer. Ardderchog o ganlyniadau. Pob lwc iddo i'r dyfodol.

Yn yr un modd, llongyfarchiadau calonnog i Rhydian Williams, Owain Cynfab Roberts, Anna Whiteside, Elain Elis a Ben Owen ar eu llwyddiant arbennig hwythau hefyd mewn gwahanol Brifysgolion. Gwych iawn.

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com



**Cwt Band a Phrosiect Pum Mil**
Mae prysurdeb mawr yn y Cwt Band yn Llanrug ar hyn o bryd gan fod rhaglen Prosiect Pum Mil yn gwneud newidiadau yno. Mae'r ffilmio gyda Trystan, Emma a Gwyn wedi ei gwblhau ac mae'r gwahanol weithwyr – yn seiri, trydanwyr, adeiladwyr ac ati yno'n ddyddiol. Mae'r band yn cynnal eu hymarferion yn y Sefydliad Coffa dros dro. Mi fydd y rhaglen yn cael ei darlledu ar S4C rywbryd yn yr hydref.





Dyma lun o fainc arbennig brynwyd gan y Clwb Ieuenctid er cof am Islwyn Roberts, Glanffynnon.

**Mainc arbennig**
Ar ôl derbyn arian gan Eryl Roberts, fe brynodd y Clwb Ieuenctid y fainc hon er cof am ei phriod Islwyn Roberts, Glanffynnon. Gosodwyd hi yn yr ardd ger neuadd yr ysgol ac yn y llun mae'r pennaeth, Mr Arwyn Williams; Harriet Jones-Ellis a Jac Williams o Flwyddyn 7; a Donna Taylor o'r Gwasanaeth Ieuenctid. "Lle i enaid gael llonydd' yn wir.

SPAR

Y Storfa, Spar, Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108



Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes
Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

Gwaith Coffaol
LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA



☎ 01286 672898

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

# GASWORCS LLANBERIS

## (Rhan 2 – Parhad o'r rhifyn diwethaf)

Nid yn unig oedd gweithwyr y Gasworcs yn gyfrifol am osod a thrwsio'r cyflenwad a'r cyfarpar Nwy a Dŵr, roeddynt hefyd yn gyfrifol am gasglu'r arian o'r 'meter' nwy oedd ym mhob tŷ, a mwyaf tebyg ym mhob busnes oedd â chyflenwad nwy.

Deuthum ar draws nodyn ynghylch 'Sefydlu'r *Llanberis Gas Light and Coke Company*' ar y 31ain o Awst 1869' ym mhapur Yr Herald Cymraeg dyddiedig 3ydd o Fedi 1869. Mae hyn yn cadarnhau'r syniad fod datblygu'r Gasworcs law yn llaw gyda dyfodiad y Rheilffordd i Lanberis yn 1869!

**Blynyddoedd olaf Gasworcs Llanberis**

Wedi i Brydain ddarganfod cyflenwad anhygoel o nwy naturiol o dan Fôr y Gogledd rhwng 1968 a 1977, penderfynodd y Bwrdd Nwy Cenedlaethol gael gwared â'r gweithfeydd nwy glo i gyd a chysylltu pawb bron â'r nwy naturiol trwy bibellau newydd. Roedd hon yn fenter anferth a chymhleth. Nid yn unig roedd rhaid rhedeg pibellau newydd i bob pentref, ond roedd rhaid hefyd rhoi 'ffitings' newydd ym mhob peiriant oedd yn gweithio â nwy glo i'w galluogi i weithio â nwy naturiol.

**Fy nghysylltiadau personol i â Gasworcs Llanberis**


Wedi i mi dreulio fy mlynyddoedd cynnar yn byw yn Stryd Goodman, rhyw ganllath o'r Gasworcs, mae gennyf nifer o atgofion am yr hen le. Y cof cyntaf sydd gennyf oedd sefyll ar waelod y giât fawr oedd yn arwain i'r Gasworcs, gydag un o'm ffrindiau'n gwthio'r giât fawr. Yn anffodus, aeth fy nhroed o dan y giât a pheri poen bythgofiadwy i mi.

Mae un o'm brodyr ddwyflwydd yn hŷn na mi. Mi fu fo'n llawer mwy mentrus na mi, a dyma'i hanes ef. Roedd wal, tua chwe throedfedd o uchder, o amgylch y Gasworcs. Un diwrnod, roedd fy mrawd ac un o'i ffrindiau wedi dringo i ben y wal ac wrthi'n taflu cerrig i'r 'coal tar' yn y pydew oddi tanynt. Yn anffodus, mi lithrodd fy mrawd o ben y wal a disgyn i mewn i'r pydew 'coal tar'. Yn arbennig o ffodus, roedd chwarelwr ag iddo'r blas enw TOW yn byw yn y rhes dai ochr arall i'r Gasworcs; ac o'i ffenest llofft wedi gweld fy mrawd yn disgyn. Rhedodd TOW (neu a rhoi iddo ei enw iawn, Thomas R. Williams) i mewn i'r Gasworks ac at y pydew. Mi anghofiais ddweud fod ystôl yn rhedeg o geg y pydew i'r gwaelod, mwyaf tebyg er mwyn clirio unrhyw nialwch oedd yn bodoli yn y pydew. Beth bynnag, mae'n rhaid bod fy mrawd wedi cael gafael yn yr ystôl a llusgo'i hun i wyneb y pydew. Pan welodd TOW ben fy mrawd yn ymddangos, gafaelodd ynddo a'i lusgo i'r lan. Mae'n rhaid bod ffrind fy mrawd wedi dweud wrth TOW pwy oedd y bachgen du yn ei law. Aeth TOW â'm brawd gan llath i fyny Stryd Goodman, at ddrws cefn ein tŷ ni. Wedi curo'r drws fe'i hagorwyd gan fy mam, ac wedi i Tow ddweud mai fy mrawd, ei mab, oedd o dan y 'coal tar' gwrthododd fy mam gydnabod mai ei mab ydoedd i ddechrau. Mewn ychydig amser, gydag eglurhad am gyflwr ei mab, roedd rhaid penderfynu sut i gael gwared â'r 'coal tar' o'i wallt, ei glustiau, ei drwyn a'i geg. Yr ateb, yn ôl fy mam flynyddoedd wedyn, oedd casglu lard gan ei chymdogion a'i rwbio dros gorff fy mrawd. Mae gan lard y gallu, fel 'poultice', i drin llosg, briw a llid!

Mae'n rhaid na wnaeth y 'coal tar' niwed corfforol, parhaol i'm brawd, gan iddo fod yn aelod o Dîm Pêl Droed Llanberis am tua phymtheng mlynedd wedi hynny. Gan nad oes gennyf unrhyw gof o'r digwyddiad yma, tybiaf fy mod i tua phump oed a bod fy mrawd yn 7 neu 8 oed pan ddigwyddodd hyn! Yn ystod fy mhlentyndod, wrth sgwrsio ag un o'r 'hen stajars', roedd un cwestiwn rheolaidd yn cael ei ofyn ganddynt, 'Ai chdi syrthiodd i mewn i'r Coal Tar'? Mae enwogrwydd yn dod mewn nifer o ffyrdd!

Cof arall sydd gennyf am y Gasworcs oedd cael mynd trwy'r giât fawr a chael helpu i fagio'r 'coke' mewn sachau i'w dosbarthu i gwsmeriaid yn y pentref a thu hwnt. Cefais wers gan y diweddar Hywel Coed ar sut i ddal ceg y sach yn agored, a hefyd sut i warchod fy nwylo rhag y 'coke' garw.


Er i drydan wneud i ffwrdd â defnyddio nwy i oleuo cartrefi a busnesau, roedd rhyw ychydig o'r pentrefwyr yn dal i'w ddefnyddio ym Mhumdegau'r ganrif ddiwethaf. Cofiaf fynd i dorri fy ngwallt, a Robin Huw Barbar yn tanio'r golau nwy yn y to, gyda matsien.




Cynllun o Gasworcs Llanberis yn 1895.



Llun o'r Gasworcs yn 30au'r ganrif ddiwethaf, dwi'n tybio.



Llun o'r Gasworcs tua 1970 – gydag adeilad y Ffwrnes wedi ei chwalu.

Roedd yn arferiad gan famau'r pentref i fynd â phlentyn oedd yn dioddef o'r 'pâs' (whooping-cough) – cyflwr hefo peswch diflino – i'r Gasworks er mwyn i'r plentyn anadlu'r amonia wrth sefyll ar ochr y tanc amonia!

Mae fy niolch yn fawr i'r ffrindiau â rannodd wybodaeth ac atgofion â mi.

# BRYNREFAIL




## Sefydliad y Merched



**Sgwrs ddifyr**
Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Mehefin gan ein llywydd Pat Jones. Balch oeddem o roi croeso i Ken Jones, rheolwr Canolfan Llanberis i ymuno â ni. Mae Ken yn adnabyddus yn yr ardal am ei waith ymchwil i haneswyr lleol a chefndir hanesyddol y pentref. Cychwynodd ei sgwrs drwy egluro am gefndir lluniau haneswyr y pentref, sydd wedi eu harddangos ar fur y Ganolfan. Roedd y rhain yn dangos delweddau o'r newidiadau fu yn y pentref dros ddegau o flynyddoedd.

Adroddodd hefyd hanes newid enw Gwesty Fictoria yn dilyn taith arfaethedig y Frenhines ei hun ond a fethodd fod yn bresennol ar yr achlysur. Safle arall o bwys yn y pentref yw Castell Dolbadarn a'i gysylltiad â'r arlunydd enwog J.M.W.Turner, sydd â'r llun gwreiddiol o waith yr arlunydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, lle bu i Ken dalu ymweliad i'w werthfawrogi. Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni ein gwestai a mawr yw ein diolch iddo.

**Gwibdaith**
Yn ôl ein harfer ym mis Gorffennaf, edrychir ymlaen am y wibdaith flynyddol. Ymunodd ugain o'r aelodau eleni ar wibdaith Arvonia gan deithio yn y lle cyntaf i gyrion Llanelwy i Allfa Tweed Mill ac yna dros Fwlch yr Oernant tua Llangollen i fwynhau pryd o fwyd. Ymlaen wedyn i Bontcysyllte a thaith hamddenol ar y draphont ddŵr enwog i gyfeiriad Llangollen. Er y tywydd anwadal, cafwyd diwrnod pleserus iawn gan hyd yn oed lwyddo i osgoi'r glaw!





# DINORWIG

**Ffilmio yn y chwarel**
Fel y gellid tybio, mae wedi bod yn hynod o brysur yn yr ardal gyda'r paratoadau ar gyfer y gwaith ffilmio. Bysus, ceir, peiriannau mawr a phob math o bethau eraill ar bedair olwyn yn cyrchu'r Allt Ddu, a chafwyd peth trafferthion ar y ffordd i fyny Gallt y Foel a thro Pen Bwlch. Diolch i'r drefn ei bod wedi tawelu bellach, a chael rhywfaint o heddwch.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Dilys Williams (Tŷ Capel gynt) sydd bellach wedi ymgartrefu ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli.

**Gofalaeth Fro'r Llechen Las**
Mae dyddiau'r ofalaeth yn ymddangos fel pe bai'n dirwyn i ben, a hynny'n dilyn ei sefydlu yn 2015. Does dim penderfyniad terfynol wedi ei wneud, a gobeithio y gellir rhoi adroddiad mwy cadarnhaol yn rhifyn nesaf yr *Eco*. Byddai colli'r ofalaeth yn sicr yn ergyd drom i gapeli Tal y Bont, Llandygai, Deiniolen, Llanberis a Nant Peris. Mae trefniadau'r Suliau yn Neiniolen eisoes yn bodoli, a dyma'r oedfaon o ddiwedd Medi i ddiwedd Hydref:

24ain Medi – Mr Arwel Williams, Caernarfon am 3.30pm
1af Hydref – Parch Olaf Davies, Ynys Môn am 3.30pm
8fed Hydref – Parch R.O.Jones, Gaerwen am 5.00pm
15fed Hydref – Sul gwag
22ain Hydref – Parch Huw Pritchard, Llangefni am 5.00pm
29ain Hydref – Parch Gerallt Evans Llangristiolus am 5.00pm.

**Tywydd**
A minnau'n ysgrifennu hyn o nodiadau ganol fis Gorffennaf, mae'r glaw yn curo ar y ffenestr a'r nosweithiau'n dechrau tynnu i mewn; mor wahanol i'r heulwen a gafwyd gydol Mehefin. Gobeithio nad hwnnw oedd ein haf.

# NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau dros yr haf:-

30 Gorffennaf – 9:30yb – Cymun Bendigaid;
5yh – Gwasanaeth unedig eglwysi Bro Eryri – os fydd y tywydd yn ffafriol cynhelir y gwasanaeth ar lan Llyn Padarn, ond os ddim bydd yn yr Eglwys. Dewch a phicnic gyda chi ac os hoffech dewch a chadair haul.
Awst 6 – 9:30yb – Boreol Weddi
Awst 13 – 9:30yb – Cymun Bendigaid 4yh – Gwasanaeth Teulu
Awst 20 – 9:30yb – Cymun Bendigaid a Bedydd
Awst 27 – 9:30yb – Cymun Bendigaid
Medi 3 – 9:30yb – Boreol Weddi
Medi 10 – 9:30yb – Cymun Bendigaid 4yh – Gwasanaeth Teulu
Medi 17 – 9:30yb – Boreol Weddi
Medi 24 – 9:30yb – Cymun Bendigaid

# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRUG 16EG O FAI, 2023

1. **DERBYN CROESO GAN Y CADEIRYDD**
   Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
2. **CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 18 EBRILL 2023**
   Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 18 Ebrill 2023 ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.
3. **UNRHYW FATER YN CODI O GOFNODION CYFARFOD 18 EBRILL 2023**
   Adroddwyd fod y goeden yn Parc Moelyn yn iawn ond fod graffiti wedi ei ysgrifennu ar y fainc.
4. **CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 3YDD O FAI 2023**
   Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.
5. **UNRHYW FATER YN CODI O GOFNODION 3YDD O FAI 2023**
   Dim ond fod gwrthwynebiad y cyngor i'r cais cynllunio wedi ei gyflwyno at Gyngor Gwynedd.
6. **I DDERBYN ADRODDIAD GAN GADEIRYDD PWYLLGOR Y FYNWENT AC I DREFNU DYDDIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR**
   Adroddodd Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent fod blaenoriaethau'r pwyllgor ar gyfer 2023/2024 wedi eu penderfynu a bod y rheolau newydd yn eu lle. Mae'r pwyllgor hefyd yn gweithio ar ddatblygu polisi rheoli cofebion.
   Adroddwyd fod cysylltiad wedi ei wneud a swyddog o'r Eglwys yng Nghymru parthed y wal sydd yn bochio ar y ffordd i'r fynwent a gobeithir trefnu cyfarfod gyda'r swyddog pan fydd yn yr ardal nesaf. Adroddwyd hefyd fod y swyddog am drefnu adroddiad peiriannydd am gyflwr y wal. Fe obeithir gallu cynnal y cyfarfod fis Mehefin.
   Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.
7. **DERBYN ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR CYLLID AC ADNODDAU AC I DREFNU DYDDIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR**
   Adroddwyd nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers penderfynu ar y gyllideb ar gyfer 2023/2024 ond fod angen trefnu cyfarfod yn weddol fuan.

   Penderfynwyd: Derbyn a diolch am y wybodaeth a phenderfynwyd cynnal cyfarfod o'r pwyllgor ar 23 o Fai 2023 am 18:30 drwy Zoom.
8. **DERBYN ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR HAMDDEN A MWYNDERAU**
   Adroddwyd gan y Cadeirydd nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod yn ddiweddar ond fod angen trefnu cyfarfod yn weddol fuan.
   Penderfynwyd: Derbyn a diolch am y wybodaeth a phenderfynwyd cynnal cyfarfod o'r pwyllgor ar 30 o Fai 2023 am 18:30 drwy Zoom.
9. **DERBYN ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR BWYD A LLESIANT AC I DREFNU DYDDIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR**
   Adroddodd y Cadeirydd fod tri chynghorydd wedi cyfarfod a swyddog o Fairshare a mynegwyd sawl pryder am y bwyd a ddarperir, megis poteli diod, dim bwyd oer.
10. **TREFNU CYFARFOD O'R PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH**
    Adroddwyd nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ond fod angen galw cyfarfod oherwydd digwyddiad ar sleid ar gae chwarae yn Cwm-y-Glo.
    Penderfynwyd: Dau gynghorwr i fynd i'r cae i archwilio'r broblem.
11. **DERBYN ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD BERWYN PARRY JONES, AELOD DROS GWM-Y-GLO AR GYNGOR GWYNEDD**
12. **DERBYN ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD BECA BROWN, AELOD DROS LANRUG AR GYNGOR GWYNEDD**
13. **DERBYN A CHYMERADWYO ADRODDIAD YR ARCHWILIWR MEWNOL**
    Adroddwyd fod yr archwiliwr mewnol wedi cwblhau ei waith ar gyfer2022/2023 a bod yr archwiliwr wedi darparu adroddiad mewnol (eisoes wedi ei gylchredeg) Nodwyd fod popeth mewn trefn ac nad oedd yr archwiliwr wedi adnabod dim o'i le.
    Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth a diolchwyd i'r clerc am ei waith. Fe arwyddwyd y ffurflen flynyddol gan y Cadeirydd.
14. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
    a) **Rhif y Cais: C23/0048/23/LL**
    Adeiladu tŷ. Tir ger 8, Rhes Rhythallt, Llanrug.
    Penderfynwyd: Parhau i wrthwynebu'r cais am y rhesymau sydd eisoes wedi eu mynegi.

## RYSÁIT

### Jeli mwyar duon

Mae popeth i'w weld yn ffrwytho ynghynt eleni a lluniau di-ri ar y cyfryngau cymdeithasol o fadarch ac aeron o bob math yn barod i'w casglu. Un o fy ffefrynnau fi ydy'r mwyar duon, ac ydy maent wedi duo'n gynt eleni!

Erbyn rhifyn mis Hydref mi fyddwch wedi bod yn piclo a jamio dwi'n siŵr. Fodd bynnag, dydw i ddim yn hoff o'r hadau mân sydd yn y mwyar, felly mi fydda i bob amser yn gwneud jeli yn hytrach na jam. A choeliwch fi, ar ddiwrnod oer yn y gaeaf mae tamaid o dost wedi ei blastro efo jeli mwyar yn dod a misoedd cynnes yr haf yn ôl cystal â dim. Jeli afal a mwyar fydda i'n ei wneud. Mae dau reswm am hyn, mae'r afal yn helpu'r jeli i 'setio' ac yn gwneud i'r mwyar fynd ymhellach h.y. mwy o jeli am eich ymdrechion.



**Jeli afal a mwyar duon**
**Cynhwysion:**
4 pwys o fwyar duon
2 bwys o afalau coginio
2 lemon
2 beint o ddŵr
(Byddwch angen pwys o siwgr i bob peint o sudd gewch chi ar ôl berwi'r uchod. Gallwch gael siwgr pwrpasol i wneud jam yn y siopau, h.y. siwgr efo '*pectin*' ynddo fo, sy'n helpu iddo 'setio' ond does dim rhaid).

**Dull:**
Os oes padell bwrpasol ganddoch gorau oll, fel arall defnyddiwch y sosban fwyaf sydd yn y tŷ (neu dwy sosban)

Torrwch unrhyw ddarnau o'r afalau sydd wedi mynd yn ddrwg a'u gwaredu. Torrwch weddill yr afalau yn ddarnau (dim angen tynnu'r hadau na'u plicio) tua modfedd (3cm) o faint a rhoi'r mwyar, afal a dŵr yn y sosban. Codwch nhw i ferwi'n dynner am tua thri chwarter awr i awr. Mi fydda i hefyd yn rhoi sudd 2 lemwn a'u crwyn yn y gymysgfa i helpu nhw i 'setio'.



Gadewch iddo oeri am ychydig

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## CRYNODEB O GOFNODION CYFARFOD – 6ED FEHEFIN 2023

Cydymdeimlwyd yn ddiffuant iawn gyda Gareth Griffiths yn ei brofedigaeth o golli ei fam yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Croeso arbennig hefyd i Gareth Hughes, sydd wedi ei ethol yn gynghorydd dros Fethel. Mi fydd Gareth hefyd yn ein cynrychioli ar Lywodraethwyr yr Ysgol ym Methel.

**Cofnodion Cyfarfod 2ail Fai 2023**

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

**Materion o'r Cofnodion**

**Bin Sbwriel Marchlyn** – Derbyniwyd llythyr o Gyngor Gwynedd yn ymateb i'n cais am fin yn y man uchod. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn wyliadwrus o osod bin yma gan y basa'n denu problemau o waredu anghyfreithlon, ond i ddweud y gwir dyna sydd yn digwydd yno ar hyn o bryd, gan fod yna ddim bin i neb roi eu sbwriel. Mae cyngor Gwynedd am fonitro'r safle yn y cyfamser. Awgrymwyd i yrru llythyr yn ôl yn nodi fod wir angen bin yno a hwnnw yn cael ei wagio yn rheolaidd, gan fod neb yn mynd oddi yno gyda'u hysbwriel, a baw ci yn y car yr holl ffordd adref.

**Motorhomes Allt Ddu a Dinorwig** – Derbyniwyd ymateb yn datgan fod y Cyngor yn ymweld â'r safle o bryd i'w gilydd ac yn cadw llygaid. Nid ydynt wedi dod o hyd i dystiolaeth fod yno faw dynol yn cael ei waredu yno. Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnig cyflwyno cyfyngiadau parcio yno, ond oherwydd nifer gwrthwynebiadau a godwyd yn erbyn hyn, ni pharhawyd a'r cynllun. Mae cynllun peilot 'Arosfan' yn cael ei dreialu'r Haf hwn, ac edrychir fel bod yr un sydd yn Llanberis bron yn barod. Cawn weld sut effaith caiff hyn os unrhyw dros fisoedd yr haf.

**Gohebiaeth a Materion Eraill**

**Mynwent Macpela** – Derbyniwyd sawl cwyn ynglŷn ag ymddygiad gôr cymdeithasol cnewyllyn bychan o'r gymuned sydd yn ymgynnull ym mynwent Macpela Deiniolen. Mae'n ymddangos fod yna bobl ifanc yn yfed, miwsig yn uchel, rhegi, poteli wedi eu torri yn fwriadol ar y llwybrau, pacedi creision ayyb ym mhob man. Yna mae yna griw fengach yn reidio eu beics yno erbyn hyn hefyd. Mae pobl sydd yn ymweld â beddi eu hanwyliad, neu yn cerdded trwy lwybr y fynwent yn teimlo yn ofnus. Gwyddom fod y llythyrau yma wedi cael eu gyrru i'r heddlu, a bydd Y Cyngor yn cyd weithio yn agos gyda'r heddlu. Awgrymwyd i'r clerc ysgrifennu i bennaeth mynwentydd Cyngor Gwynedd i ddatgan ein pryderon ynglŷn â'r sefyllfa yma, ac i weld os oes unrhyw syniad am ddatrysiad i'r mater ymhellach.

**Cynllunio**

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

**C23/0348/18/DT, 41 Rhydfadog, Deiniolen**

Dymchwel yr estyniad presennol a chodi estyniad Newydd ar gyfer Cegin, Lolfa ac Ystafell Ymolchi. Dim Gwrthwynebiad

C23/0259/18/AM Camelot, Penisarwaun

Cais amlinellol ar gyfer 4 annedd preswyl arfaethedig. Dim gwrthwynebiad

**Llwybrau**

Gwaith wedi cychwyn ar ambell lwybr yn yr ardal, felly, efallai gwelwch ambell lwybr wedi cau dros dro tra mae'r Gwaith yn mynd rhagddo. Mae'r Gwaith blynyddol o dorri gordyfiant ar y llwybrau ar waith hefyd.

**Awdit Mewnol a Ffurflen Flynyddol 2022**

Cymeradwyed y Ffurflen Flynyddol yn unfrydol o'r flwyddyn a ddaeth i ben ar y 31ain Mawrth 2023. Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith, a bydd nawr yn paratoi a gyrru'r gwaith ymlaen i Awdit Cymru. Gan fod y Cyngor Cymuned yn derbyn archwiliad cyflawn eleni, bydd rhaid disgwyl ymhellach am gyfarwyddid o ddogfennau archwilio a fydd angen gan Awdit Cymru.

**O Gwmpas y Bwrdd**

**Biniau Deiniolen** – Tynnwyd sylw fod biniau wedi eu gosod yn y pentref, ond maent lawer rhy agos at ei gilydd ar y stryd fawr o'r ysgol ymlaen am Rhydfadog. Ond nid oes dim wedi eu gosod lawr ffordd Hafod Olau, na Ffordd Deiniol a dim un yng Nghlwt y Bont. Hefyd, mae'r 2 bin Baw ci rhy agos at ei gilydd ar Lôn Garnedd, neu fod angen un ychwanegol yn ben Lôn Garnedd.

**Pwyllgor Apêl Eisteddfod Genedlaethol** – Braint yw cael cyhoeddi fod yr apêl wedi cyrraedd ei darged yn ardal Llanddeiniolen. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd i allu cyrraedd y nod yma unwaith eto.

**Arwydd Dim Lorïau Trwm ger garej Arfon –** Nid oes dim arwydd wedi ei roi hyd yn hyn, ac mae lorïau mawr dal yn mynd i fyny'r lôn yma, ac yna cael trafferth methu dod yn ôl i lawr. Y clerc i gysylltu unwaith eto.

ac yna tywalltwch y cyfan i mewn i fag jeli (mi wneith hen gynfas a llinyn i'w gau a'i hongian ar ddrws cwpwrdd y tro) wedi ei osod dros bowlen fawr i ddiferu. Bydd angen ei adael am o leiaf dwy awr, gorau oll dros nos. Erbyn meddwl mae'n help cael pâr arall o ddwylo wrth wneud hyn i gyd a chofiwch mae sudd mwyar yn creu llanast!

**PEIDIWCH** â gwasgu'r bag, neu mi fydd eich jeli yn gymylog.

Mesurwch faint o sudd sydd yn y bowlen ac ychwanegwch bwys o siwgr i bob peint. Os gofiwch chi rhowch y siwgr yn y popty ar wres isel (tua 120$^{\circ}$C) cyn ei ychwanegu i'r sudd ynghyd â'r jariau rydach chi wedi eu golchi neu eu rhoi drwy'r peiriant golchi llestri) i gynhesu. Dyliech hefyd osod ryw hanner dwsin o soseri/blatiau bach yn yr oergell.

Codwch y sudd a siwgr i ferwi'n araf am rhwng 10 – 20 munud. Cofiwch ei droi a sicrhewch fod y siwgr wedi toddi'n gyfan gwbl yn y sudd **cyn** ei fod yn berwi.

Pan godwch chi lwy bren lân o'r jeli, mi ddyliech chi ddechrau gweld y diferion yn ceulo ac yn ffurfio caenen (*flake*) neu len. Dyma'r adeg i roi llond llwy de ar un o'r soseri oer, ei adael am 10 eiliad ac yna ei wthio efo'ch bys. Os ydy'r jeli'n ceulo mae'n barod! Os ddim gadewch iddo ferwi am ychydig eto, cyn tsiecio efo soser oer arall.

Tynnwch y sosban oddi ar y gwres a thywalltwch yr hylif poeth (yn hynod ofalus) i'ch jariau cynnes (efo jwg neu ladl). Gosodwch ddisgiau papur cŵyr (*wax circles*)ar ben pob un a chaewch bob caead yn dynn.

Gadewch iddynt oeri 'n llwyr, cyn eu labelu a'u dyddio.

Maent yn gwneud anrhegion hyfryd i deulu, ffrindiau a chymdogion, os nad ydach chi am gadw holl ffrwyth eich llafur i chi eich hun.

Mwynhewch.



# Cyngor Cymuned Llanberis

## COFNODION CYFARFOD MIS TACHWEDD 2022

***Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 14eg Mehefin 2023 am 19.00 yn Y Ganolfan, Llanberis.***

**1 Croeso'r Cadeirydd**
Croesawyd Cyngorwyr i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Nodwyd gan y Cadeirydd bydd gwesteion o'r Parc Cenedlaethol ac Grŵp GwyrddNi yn rhoi cyflwyniad byr i'r Cyngor yn ystod y cyfarfod.

**2 Presennol**
***Ward Padarn:*** Gwilym Evans (Is Gadeirydd y Cyngor Cymuned), Iwan Harding, Heather L Jones, Kevin Morris Jones, Nia Jones, Kim Jones, Louise Price, Helen Sharp, Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis,

***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard (Cadeirydd Y Cyngor Cymuned)

***Ymddiheuriadau:*** Trystan Tomos

Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc.) Barry Davies (Clerc Dynodedig.)

**3 Datgan Buddiant:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau yn yr agenda.

**4 Cyflwyniad i'r Cyngor gan swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri.**
Croesawyd swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri i'r cyfarfod.

Cafwyd cyflwyniad gan y ddwy swyddog ar gyfleoedd grantiau sydd ar gael oddi fewn cymunedau yn y Parc a chymunedau sydd yn ffinio ar y Parc Cenedlaethol.

Cyfeiriwyd at Gronfeydd Cymunedol Eryri a bod swyddog penodol wedi ei phenodi i'r swydd 'Swyddog Ymgysylltu Cymunedau'. Nodwyd gan y swyddog bod ffynhonnell grantiau ar gael i grwpiau a Chynghorau Cymuned ymgeisio amdanynt. Nodwyd bod £60K wedi ei glustnodi ar gyfer 2023/24. Byddai'r gronfa ar gyfer prosiectau gweddol sylweddol gyda gwerth y prosiect/grant rhwn £5K a £20K. Mae dyddiad cau'r grant penodol hwn ar y 30ain Mehefin 2023. Mae'r ffenestr felly yn dynn iawn os yw grwpiau neu'r Cyngor Cymuned am gyflwyno cais am grant eleni.

Nodwyd bod £80K wedi ei glustnodi ar gyfer grantiau yn 2024/25 a bod y ffenestr ymgeisio yn agor ar y 1af Ebrill 2024. Awgrymwyd efallai bod y ffenestr hon fwy oddi fewn gallu rhai grwpiau a'r Cyngor Cymuned i gyflwyno cais.

Nodwyd bod gwybodaeth berthnasol ar gael ar safle we'r Parc Cenedlaethol neu drwy gysylltu drwy e-bost gan lythyru ac cronfacymunedoleryri@eryri.llyw.cymru

Rhoddwyd byr gyflwyniad i'r Cyngor gan Ms Eta Trumper. Nodwyd llwyddiant ei gwaith gyda'r Parc Cenedlaethol. Nodwyd bod rhan bwysig o'r gwaith dydd i ddydd yn ymwneud a gwirfoddolwyr yn y Parc a bod cyfraniad gwirfoddolwyr yn werthfawr ac yn bositif dros ben.

Roedd gwaith llesiant hefyd yn rhan sylweddol ac yn rhan bwysig o'r swydd. Roedd y swyddog yn awyddus iawn i weld cynydd mewn nifer o wirfoddolwyr ac fe ofynwyd bod y Cyngor Cymuned yn ceisio cynorthwyo'r nod hyn drwy dynnu sylw at gyfleon gwirfoddoli gyda'r Parc Cenedlaethol.

Rhoddwyd diolch gan y Cadeirydd i'r swyddogion am ei cyflwyniad gwerthfawr a diddorol.

**5 Cyflwyniad i'r Cyngor gan Swyddog GwyrddNi.**
Rhoddwyd cyflwyniad ar brosiectau GwyrddNi. Nodwyd bod y grwp wedi cynal pedwar sesiwn cyhoeddus a bod 50 unigolyn wedi cofrestru ar y cychwyn a bod y nifer nawr wedi gostwng i 30 o aelodau. Nodwyd bod lleihad mewn niferoedd yn ddisgwyliedig a bod y nifer sydd yn parhau wedi ymrwymo i'r grwp yn newyddion cadarnhaol a phositif. Nod ac amcan y prosiect yw tynnu sylw at argyfwng cynhesu byd eang a bod gwirfoddolwyr yn ystyried camau gellid eu cymryd yn lleol er mwyn cyfrannu at leihad arllwys carbon.

Mae'r grwp GwyrddNi yn edrych am brosiectau a fydd yn galluogi tynnu sylw at argyfwng cynhesu byd eang. Mae grwp ardal Llanberis yn awyddus iawn i adnabod lleoliad ac i osod hysbysfwrdd yn lleol er mwyn tynnu sylw at eu gwaith a thynnu sylw at y cyfleoedd i ymaelodi gyda'r grwp a gwirfoddoli gyda'r prosiect.

Rhoddwyd diolch i'r swyddog gan y Cadeirydd am ei chyflwyniad gwerthfawr a diddorol.

**6 Cadarnhau Cofnodion:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 10fed Fai 2023 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**7 Materion yn codi o'r cofnodion:**
***Castell Dolbadarn*** – Nodwyd bod bollard cyfyngu mynediad gyda cherbyd wedi ei osod gan berchennogion y tir. Croesawyd a diolchwyd am y gwaith hwn gan Gynghorywyr. Fe fu i Gynghorydd ddatgan pryder enfawr bod plant ifanc yn gallu dringo drwy'r ffens ddiogelwch sydd ar ben y grisiau twr a mynd trwodd at ben mur y Castell.

***Y Fynwent –***Nodwyd sefyllfa argyfyngus Y Fynwent gyda llefydd claddedigaethau yn lleihau pob blwyddyn. Cyfeiriwyd at adroddiad yn dilyn y cyfarfod. Gofynnwyd am farn y Cyngor ar y tri safle a oedd wedi ei ystyried fel tir claddu estynedig at y dyfodol.

***Cyfarfod yn Is Orsaf Trydan Pentir –*** Rhoddwyd cyflwyniad ar lwyddiant y cyfarfod gan y Cyng. Emlyn Bayliss. Cyfeiriwyd at gynllun a oedd wedi ei arddangos i Gynghorwyr yn y cyfarfod a bod y cynllun (ar ddull map wedi ei argraffu) wedi dangos yn glir iawn beth oedd sefyllfa fwyaf diweddar ar y gwaith sydd wedi ei gwblhau. Argymell fod Grid Cenedlaethol yn rhoi'r wybodaeth sydd ar eu cynllun ar safle we fel bod y cyhoedd yn gweld faint o'r gwaith sydd bellach wedi ei gwblhau.

**8 Materion a godwyd gan Aelodau:**
***Gwesty Dolbadarn*** – Adroddwyd bod pryderon enfawr yn codi gan drigolion lleol oherwydd camymddwyn honedig difrifol ar y safle ar rhai adegau. Nodwyd bod yr Heddlu yn ymwybodol o rhai materion ond ar y cyfan, nid oes fawr allai'r Heddlu ei wneud.













***Llyn Padarn*** – Nodwyd pryder ynglŷn â chynydd sylweddol mewn gweithgareddau chwaraeon dwr ar Lyn Padarn yn enwedig yn ystod Gŵyl y Banc diwethaf ac yn benodol ar ochr Gilfach Ddu o'r llyn. Nodwyd bod y sefyllfa yn dorcalonus oherwydd niferoedd sylweddol oedd wedi ymwed â'r safle. Nodwyd bod y llyn yn adnodd pwysig ond bod pryder ynglŷn â gor ddefnydd. Adroddwyd bod y llyn fel parc gweithgareddau ac nid llyn naturiol. Roedd cryn bryder yn cael ei ddatgan ynglŷn â chynnydd sylweddol mewn nifer ymwelwyr a gormod o weithgareddau ar y dŵr

***Parcio ger Siop y 'Spar'*** – Fe ddatgan pryder ynglŷn â pharcio anghyfrifol ac afreolus tu allan i siop y 'Spar' yn y pentref. Roedd problemau traffic yn creu perygl ac anhwylustod i gerddwyr a gyrrwyr cyfrifol. Mae cerbydau yn parcio ar y palmant, ar y llinellau melyn dwbl ac ar fynedfeydd a fu wedi ei neilltuo ar gyfer mynediad gyda cherbyd. Roedd bysus a lorïau yn cael trafferthion diddiwedd tramwyo ar hyd y briffordd.

***Maes Parcio 'Arfon'*** **–** Nodwyd bod rhwystr cyfyngu uchder cerbyd i'r maes parcio wedi ei gloi ar agor ac felly nid oes cyfyngiad ar uchder gerbydau a allai barcio ar y safle. Nodwyd pryderon bod cerbydau Camperfans enfawr yn parcio ar y safle ac yn cyfyngu ar y nifer llefydd parcio sydd ar gael i geir a hefyd yn amharu ar lif traffic drwy'r maes parcio.

***Parcio UTMB (Ultra Trail Marathon)*** – Nodwyd pryder ynglŷn â ffi sylweddol roedd y cwmni yn ei godi ar barcio i gystadleuwyr eleni. Oherwydd y gost uchel roedd rhan fwyaf o'r cystadleuwyr yn parcio mewn meysydd parcio cyhoeddus a oedd, yn eu tro, yn lleihau nifer llefydd parcio i ymwelwyr eraill a phobl lleol.

Nodwyd pryder gan Gynghorwyr bod Cyngor Gwynedd yn caniatau gormod o ddigwyddiadau yn Llanberis ac nad oedd cyfyngiad ar y nifer a fyddai yn gallu cystadlu mewn digwyddiad. Nodwyd yn sgil y digwyddiad UTMB na fod yna unrhyw safle parcio bysys ar gael yn lleol gan fod tir yn Gilfach Ddu a fydd fel rheol ar gyfer parcio bysus wedi ei rentio i gwmni UTMB am y penwythnos.

**9 Gohebiaeth:**
Llythyr gan Gyngor Gwynedd yn nodi bydd Llwybr Cyhoeddus Rhif 127 ar gau ar adegau er hwyluso gweithgaredd ffilmio.
Gohebiaeth yn tynnu sylw at ddigwyddiad 'Cwrdd ag Anghenion Cymunedol yng Nghymru' ar y 12fed Gorffennaf 2023 10.00 hyd at 13.00. Gwybodaeth bellach ar ei safle we.

Llythyr gan Eisteddfod Llyn ac Eifionydd yn diolch i Gyngor Cymuned Llanberis am eu cyfraniad i gronfa'r Eisteddfod eleni.

Llythyr gan Gyngor Dinesig Bangor yn gwahodd cynrychiolaeth o Gyngor Cymuned Llanberis i seremoni Sul Dinesig Bangor ar yr 16eg Gorffennaf 2023. Bydd angen i Gynghorwyr sydd yn bwriadu mynychu, hysbysebu Cyngor Dinesig Bangor cyn y 30ain Mehefin 2023.

Llythyr gan Reolydd Pensiynau yn cadarnhau bod Cyngor Cymuned Llanberis wedi cwblhau ailddatganiad cydymffurfio a Rheolydd Pensiynau dan y Ddeddf Pensiynnau 2008.

**10 Cynllunio**
**C23/0440/15/LL –** Newid defnydd o ddefnydd A1 i Ddefnydd A3 gan gynnwys man newidiadau i gynnwys newid ramp i ardal patio i flaen yr adeilad a gosod arwydd newydd heb ei oleuo a gosod ramp newydd i gefn yr adeilad. Cyfeiriad yw 41b Stryd Fawr, Llanberis.

***Dim sylw.***

**NP3/15/180L –** Gosod tanc disel 5,000 litr a ffens bren a phorth estynedig. Tir ym maes parcio uchaf ger gorsaf rheilffordd Yr Wyddfa.

***Dim sylw.***

**11 Materion Ariannol:**
Nodwyd bod y siec a dderbyniwyd am y swm £250 gan Awdurdod Yr Heddlu yn parhau yng nghyfrif y Cyngor Cymuned. Mae'r arian wedi ei neilltuo ar gyfer y Clwb Ieuenctid lleol. Oherwydd nad oes gan y Clwb Ieuenctid gyfrif banc nid yw'n bosib trosglwyddo'r arian iddynt.

Nodwyd bod adroddiad archwilwyr mewnol wedi ei dderbyn a bod cadarnhad wedi ei dderbyn bod y Cyngor Cymuned yn gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau statudol.

***Yn y Banc ar yr 23ain Mai 2023***

**Cyfrif Cyfredol**: £48,892.79
**Cyfrif Cadw**: £66.96
***Derbyniwyd rhwng 28 Ebrill 2023 a 28 Mai 2023 – £27, 211.78.***

**11a) Cadarnhawyd cyfanswm taliadau:**
Cyfanswm Gwariant = **£1622.25**
Arian a dderbyniwyd rhwng 29 Ebrill a 28 Mai

Cyfanswm Derbyniadau **£675.00**

**12 Llwybrau Cyhoeddus a Mynwent:**
Cadarnhawyd bod coeden wedi torri a gwrych wedi ei docio ger Bron Eryri.

Cadarnhawyd bydd gwair yr hen Fynwent yn cael ei dorri un ai ar ddiwedd mis Mehefin neu mor gynnar a phosib dechrau mis Gorffennaf.

Nodwyd fod Pontbren ger y llyn yn ardal Afon Goch wedi dirywio yn sylweddol.


**12 Cyrff Allanol:**
Dim materion i'w adrodd arnynt.


**13 *Sylwadau ar 'Facebook' (ddim ar yr agenda)***
Nodwyd siom a chonsyrn gan Gynghorwyr bod negeseuon negyddol yn ymddangos ar dudalennau 'Facebook'a hyn yn barnu gwaith Cynghorwyr. Nodwyd anhecwch a diffyg parch drwy'r fath sylwadau ac atgoffwyd bod pob cyfle i rai sydd yn anfodlon gyda gwaith y Cyngor ddod i gyflwyno eu sylwadau ger bron y Cyngor Cymuned.

**12 Dyddiad Cyfarfod Nesaf:**
Noder dyddiad y cyfarfod nesaf ar y 12fed Gorffennaf 2023 am 19.00 yn Y Ganolfan, Llanberis.

Daeth y cyfarfod i ben am 21.05.





# LLANBERIS

**Cais am newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco.
Diolch yn fawr.

**Diolchiadau**
Dymuna Michael Williams (Michael Llwyncoed), ddiolch i bawb am yr holl gardiau, y galwadau ffôn a'r dymuniadau da iddo yn dilyn ei lawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Glan Clwyd.

**Clybiau a grwpiau**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y Pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6pm tan 7.30pm Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb gwnïo**
Cynhelir yn y Ganolfan ar brynhawn dydd Iau, rhwng 2pm a 4 pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Grŵp Pentref Taclus Llanberis**
Mae'r grŵp yn hel sbwriel bob bore Sul trwy'r haf, i fynnu at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r gaeaf. Y grŵp yn cychwyn am 10am o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12pm. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook.



**Merched y Wawr**
Daeth diwedd ar dymor llwyddiannus gyda thrip i Lerpwl ar ddydd Sadwrn, 10fed Mehefin. Cafwyd *brunch* ym mwyty Bill's ger y dociau – brolio ar yr wyau *Royale* – cyn teithio'r ddinas ar fws heb do yn yr haul. Bu cyfle wedyn i siopa, ac roedd pawb wedi mwynhau.

Bydd cyfarfod cyntaf y tymor newydd ar nos Fercher, 6ed Medi, am saith o'r gloch yng Nglwb Cymdeithasol Llanberis 'Y Ddraig' gyda'r Parchedig Wyn Roberts (Elvis) yn westai. Bydd croeso i aelodau newydd. Bydd cyfarfodydd gweddill y tymor yn y Ganolfan, Llanberis, fel arfer ar nos Fercher cyntaf pob mis am saith o'r gloch.

**Home Guard Llanberis**
'Rwyf wedi bod yn chwilio, ers blynyddoedd, am luniau/ gwybodaeth yn ymwneud â Home Guard Llanberis, yn ystod yr Ail Ryfel Byd. 'Rwy'n tybio bod yna ddwy adran Home Guard wedi bod yn Llanberis, un yn Necaco a'r llall yn gweithredu o'r *Drill Hall*. Mae lluniau o adrannau Nant Peris/ Llanrug a, dwi'n meddwl, Penisarwaun wedi ymddangos mewn ôl rifau o'r Eco.

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w gweld yn yr Eglwys rhwng 10:30am a 2:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau dros yr haf:-
Gorffennaf 30 – 11yb: Boreol Weddi; 5yh – Gwasanaeth unedig eglwysi Bro Eryri – os bydd y tywydd yn ffafriol, cynhelir y gwasanaeth ar lan Llyn Padarn, fel arall bydd yn yr eglwys. Dewch a phicnic gyda chi ac os hoffech dewch a chadair haul.
Awst 6 – 11yb: Cymun Bendigaid
Awst 13 – 11yb: Boreol Weddi
Awst 20 – 11yb: Cymun Bendigaid
Awst 27 – 8yb: Cymun Bendigaid, 11yb: Gwasanaeth Teulu
Medi 3 – 11yb: Cymun Bendigaid
Medi 10 – 11yb: Boreol Weddi
Medi 17 – 11yb: Cymun Bendigaid
Medi 24 – 8yb: Cymun Bendigaid, 11yb: Gwasanaeth Teulu
Enillwyr Clwb 100:
Mis Mai: 1 Val Griffith, 2 Fiona Watkins, 3 Freda Jones
Mis Mehefin: 1 Owain Rees Jones,
2 Val Griffith, 3 Oliver Edwards

**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau dros yr haf:
30 Gorffennaf – 9:30yb – Cymun Bendigaid; 5yh – Gwasanaeth unedig eglwysi Bro Eryri – os fydd y tywydd yn ffafriol cynhelir y gwasanaeth ar lan Llyn Padarn, ond os ddim bydd yn yr Eglwys. Dewch a phicnic gyda chi ac os hoffech dewch a chadair haul.
Awst 6 – 9:30yb – Boreol Weddi
Awst 13 – 9:30yb – Cymun Bendigaid 4yh – Gwasanaeth Teulu
Awst 20 – 9:30yb – Cymun Bendigaid a Bedydd
Awst 27 – 9:30yb – Cymun Bendigaid
Medi 3 – 9:30yb – Boreol Weddi
Medi 10 – 9:30yb – Cymun Bendigaid 4yh – Gwasanaeth Teulu
Medi 17 – 9:30yb – Boreol Weddi
Medi 24 – 9:30yb – Cymun Bendigaid

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Tafarn Y Glyntwrog Llanrug
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser

671191

# Buddsoddi yn nyfodol Tyddyn Teg

**Beth yw'r hanes?**
Mae ystyr yr enw Tyddyn Teg wrth galon pwy ydym ni: rydym eisiau ffermio mewn ffordd sy'n deg wrth fyd natur, wrth ein gweithwyr, a'r gymuned a wasanaethir gennym.

Ein gweledigaeth yw byd lle mae pobl a byd natur yn ffynnu am fod gan bawb berthynas gyda'u bwyd, y tir, a'r bobl sy'n ei gynhyrchu.

Ers 2015, bu ein tîm yn cynyddu ei sgiliau er mwyn tyfu llysiau o ansawdd uchel yn gyson a dibynadwy mewn modd nad yw'n dinistrio daear na dŵr, ac i weithredu fel cydweithredfa ddilys sy'n rhannu grym.

Erbyn hyn, rydym yn gwasanaethu tua 180 o deuluoedd lleol sy'n tanysgrifio i'n cynllun llysiau trwy'r flwyddyn, yn ogystal â chadw siop ar y safle sy'n hwb gwerthu i gynhyrchwyr adfywiol lleol eraill ac yn cyflenwi siopau lleol ym Mangor a Chaernarfon.

Trwy'r cynnig cyfranddaliadau hwn, rydym yn eich gwahodd i ymuno yn ein nod o adeiladu diwylliant bwyd a thir lleol egnïol a hyfyw yma yng Ngogledd Cymru, gan weithio tuag at y dyfodol toreithiog y gwyddwn fod modd ei gyrraedd.

**Pam cyfranddaliadau cymunedol?**
Yn Nhyddyn Teg, byddwn yn meddwl llawer am y dyfodol, a cheisiwn ddysgu gan fyd natur. Rydym am greu gwaddol ac rydym am i'r dyfodol fod yn fwy amrywiol a thoreithiog na'r presennol. Mae amrywiaeth yn gyfystyr â gwytnwch ym myd natur ac rydym ninnau am fod yn wydn; dyma pam ein bod yn amrywio perchnogaeth y fferm trwy'r cynnig cyfranddaliadau cymunedol.

Golyga hyn nad yw dyfodol y fferm yn dibynnu ar ymrwymiad ac adnoddau nifer fechan o bobl.



Os oes angen i rywun adhawlio eu buddsoddiad (h.y. tynnu eu cyfranddaliadau yn ôl) yna mae modd iddynt wneud hynny heb daflu dim oddi ar y cledrau am fod cynifer o bobl yn gyfranddalwyr. Os yw gweithiwr yn dymuno symud ymlaen ac arallgyfeirio eu hegni, gallant wneud hynny am fod cynifer o weithwyr. Gellir cymryd lleoedd cyfranddalwyr a gweithwyr dros amser gan fod ein system yn ddigon sefydlog ac amrywiol i ymdopi â newid.

Sut caiff yr arian ei ddefnyddio?

Ein gobaith yw codi £400,000: dyma swm fydd nid yn unig yn trosglwyddo perchnogaeth y tir a'r busnes i'r gymuned, ond a fydd hefyd yn ein galluogi i ddiweddaru ein cyfleusterau fel y gallwn weithredu'n well fel cydweithredfa a fferm gymunedol. Bydd hyn yn cynnwys gwneud traciau tyllog yn fwy diogel, adeiladu swyddfa a thoiled hygyrch i gwsmeriaid ar y safle, creu buarth newydd, ehangu'r maes parcio a diweddaru traciau a llwybrau tramwy cyhoeddus sy'n croesi neu sy'n gyfagos â'r fferm.

**Beth gaf fi trwy fuddsoddi?**
Rydym yn rhagweld y bydd y gyfradd llog ar gyfranddaliadau yn 3%, a delir yn flynyddol o flwyddyn gyntaf eich buddsoddiad ac a fydd yn cronni yn eich cyfrif cyfranddaliadau, gan gynyddu'r swm y gallwch ei dynnu allan yn y pen draw. Bwriadwn ganiatáu i arian gael ei dynnu allan ar ôl tair blynedd, ar sail y cyntaf i'r felin. Y lleiafswm y gellir ei fuddsoddi yw £100.

Os byddwch yn buddsoddi, byddwch hefyd yn dod yn aelod o Dyddyn Teg gyda'r hawl i fynychu ein CCB, ethol cynrychiolwyr i weithio gyda ni ar brosiectau cydsafiad cymunedol a dal aelod-weithwyr yn gyfrifol am gyflawni amcanion Tyddyn Teg fel y'u nodir yn ein Siarter.

**Cydsafiad Cymunedol er mwyn creu Dyfodol Tecach**
Fel buddsoddwr, gallwch ddewis rhoi'r cyfan, hanner, neu ddim o'r llog sy'n ddyledus i chi yn ein Cronfa Cydsafiad Cymunedol, a gyd-reolir gan weithwyr a buddsoddwyr i gyflawni prosiectau sy'n cryfhau sofraniaeth bwyd yn lleol ac yn fyd-eang. Yn benodol, byddwn yn defnyddio'r gronfa hon i ariannu aelodaeth y cynllun llysiau i deuluoedd sy'n wynebu trafferthion ariannol ac na fyddai modd iddynt gael mynediad ato fel arall, yn ogystal â chynnal digwyddiadau cymunedol sy'n dod â phobl at ei gilydd i ddysgu a rhannu.

**All unrhyw un brynu cyfranddaliadau?**
Gall wir! Mae modd i chi brynu cyfranddaliadau o unrhyw ran o'r byd cyn belled â'ch bod dros 16 oed, gydag isafswm buddsoddiad o £100 yn unig!

**Dyma fydd y cynnig cyfranddaliadau yn ei alluogi:**
Fferm sy'n eiddo i'r gymuned ac a gedwir gan gydweithredfa gweithwyr sy'n gwasanaethu'r gymuned a byd natur

Dyfodol cydweithredol lle mae gweithwyr a defnyddwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ail-hawlio eu perthynas gyda'r tir a'u bwyd, a gwneud hynny mewn modd sy'n adfywiol i fyd natur ac i'r gymuned

Dyfodol toreithiog lle caiff bwyd iachus ei dyfu a'i fwyta yn lleol

Dyfodol gwydn lle mae cymunedau cysylltiedig yn cefnogi ei gilydd wrth wynebu'r newid sydd o'u blaenau.

**Buddsoddwch mewn dyfodol toreithiog heddiw!**
Ewch i www.crowdfunder.co.uk/p/tyddyn-teg-community-shares neu gyrrwch siec i Tyddyn Teg, Tyddyn Berth, Bethel, Caernarfon, Gwynedd, LL55 3PS. Gwnewch yn siŵr eich bod yn amgáu nodyn gyda'ch enw a'ch manylion cyswllt gyda'ch siec!



**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 | hefsj@aol.com

# Garddio

## AWST

**Yn yr ardd flodau**

Daliwch ati i dorri beth sydd wedi darfod blodeu, yn enwedig os ydyn nhw wedi mynd i edrach yn flêr. Eto i gyd gall pennau hadau ambell i beth ddal i edrach yn dda, ar ôl i'r blodau ddarfod, e.e. y pabi dwyreiniol (oriental poppies) neu'r *allium*. Gosodais ddalwyr pwrpasol i rai o'r blodau talaf e.e. y *verbenna bonariensis*, (ferfain yr Ariannin) *verbascum* (pannog) a'r alliums, er nad ydynt wedi gwarchod popeth rhag wyntoedd cryfion Gorffennaf.





Un cysur, cyn i bennau hadau hardd yr *allium* gael eu chwythu drosodd gan y gwynt, torrwch nhw. Peidiwch a'u rhoi yn y domen gompost, yn hytrach, crogwch nhw a'u pennau at i lawr i sychu am ryw wythnos neu bythefnos. Maent yn creu arddangosfa hardd mewn daliwr, yn rhad ac am ddim. Mae gen i rai ers llynedd, sy'n dal i edrach ddifon del. Os am eu chwistrellu fel addurniadau at y Nadolig gadewch iddynt sychu am tua mis cyn eu chwistrellu ,y tu allan i'r tŷ ar ddiwrnod llonydd, gan geisio taenu haen wastad o baent ar bob un. Dylid torri'r lafant yn ôl hefyd unwaith bydd y blodau wedi dechrau darfod rhag iddo dyfu'n rhy heglog ond peidiwch â thorri mewn i'r hen bren. Mi ydw i am gymryd torriadau o'r un acw hefyd, jest rhag ofn i'r gwynt a rhew gaeafol ei lladd. Mae hi'n adeg da rwan i gymryd toriadau o blanhigion fel y lafant, penstemon a'r neu lwyni fel yr viburnum, chjoisya a'r hebe gan ddefnyddio'r tyfiant lled-aeddfed *(semi-ripe)* ddatblygodd yn ystod yr haf.

Os bydd mis Awst yn boeth, fel mis Mehefin, cofiwch barhau i ddyfrio a bwydo'r blodau yn enwedig y basgedi crog a'r potiau. Ond os ddaw hi'n law tarannau dydy rhai planhigion (e.e. perlysiau) ddim yn hoff o fod a'u traed yn wlyb, felly bydd angen gwagio rhai o bryd i'w gilydd. Pwy ddywedodd bod garddio'n hawdd dudwch?

Mae modd casglu hadau aeddfed, a'u sychu – gan gofio eu labelu, a'u storio mewn lle sych mewn bag/amlen bapur efo bag bach o silica gel efallai. Gallwch wedyn benderfynu lle rydach chi am i blanhigion dyfu er bod rhai'n penderfynu hadu eu hunain. Rhai sy'n hawdd i'w tyfu yw troed y golomen (*aquilegia*), pabi cyffredin a melyn Mair (*calendula*). Efallai na wnaiff pob un dyfu, yn sicr wnaeth rhai hadau ddim tyfu'n flodau gen i eleni, ond efallai wnaiff rhai ohonynt. Dyfal donc ydy hi efo garddio.





**Yn yr ardd lysiau**

Dylai'r tomatos fod wedi tyfu'n ddigon tal bellach, felly torrwch y blaen dyfiant, fydd yn cyfeirio'r egni i'r ffrwyth. Yn yr un modd daliwch ati i gael gwared â'r lladron a dyfriwch a bwydwch gyda chwrtaith hylifol yn gyson. Cofiwch fwydo holl gynnyrch y ty gwydr, megis pupurau, tsilis a phlanhigion wy (*aubergines*) yn wythnosol hefyd.

Cynaeafwch eich llysiau pan maent yn ifanc a blasus, a daliwch ati i ddyfrio fel bo'r angen, yn enwedig ffa Ffrengig a ffa dringo.

Os oes gormod o gnwd o unrhyw beth, gallwch rewi perlysiau a llysiau, neu gallwch glymu rhai fel saets a teim mewn sypiau a'u crogi i sychu mewn lle tywyll a sych. Fel arall rhannwch efo'ch teulu neu'ch ffrindiau neu cyfnewidiwch eich gormodedd chi efo cyd-arddwr sydd efo gormodedd gwahanol.

## MEDI

**Yn yr ardd flodau**

Daliwch ati i ddyfrio a fwydo blodau'r ardd yn enwedig y rhai mewn basgedi a photiau os yw'n sych.

Cofiwch bod coed bythol wyrdd yn cadw eu dail drwy gydol y flwyddyn felly'n elwa o ddŵr ychwanegol mewn cyfnodau sych, yn enwedig os ydynt yn tyfu mewn potyn.

Tra bod llwyni collddail a phlanhigion lluosflwydd (*perennials*) yn dechrau eu cysgiad gaeaf, does dim angen dŵr arnynt i dyfu, gan eu bod yn canolbwyntio ar dyfu gwreiddiau yn yr hydref. Bydd planhigion newydd yn enwedig, angen eu dyfrio, gan nad yw eu sustem wereiddio wedi datblygu'n llawn, felly daliwch ati i ddyfrio tan ddaw'r rhew cyntaf.

Os am fod yn drefnus plannwch fylbiau *hyacinth, amaryllis* a'r cennin pedr megis '*Paper Whites*' a '*Grande Soleil d'Or*'ar gyfer y Nadolig – a'u rhoi mewn lle oer a thywyll. Cadwch olwg arnynt, a'u dyfrio nhw rŵan ac yn y man. Maent hefyd yn gwneud anrhegion da i ffrindiau neu'r teulu.

Plannwch fylbiau o bob math yn eich gardd. Gallwch dorri rhai planhigion yn ôl e.e. mynawyd y bugail (geranium) neu mintys y gath (nepeta) sy'n gorweddian dros bob dim, gallwch fod yn lwcus a chael ychydig o flodau hwyr o wneud hyn ond yn sicr bydd mwy o le wedyn i'r bylbiau. Gallwch hefyd godi'r blodau blwyddol sydd heibio eu gorau, oni bai eich bod am gadw'r pennau hadau i'r adar. maent wrth eu boddau efo hadau blodau'r haul, mwcog/egroes rhosod, *Echinacea, centaurea cyanus* a'r *scabiosa stellata*.

Codwch a rhannwch blanhigion perennial sy'n blodeuo'n y gwanwyn e.e. Mantell y Forwyn (*alchemilla*) neu fflocs (*phlox*), ym mis Medi fel bod eu gwreiddiau'n cael cyfle i sefydlu cyn y tywydd oer.

Mae'r hydref hefyd yn amser da i blannu coed a llwyni, pan gawn ni ychydig o dywydd gwlyb ac ychydig o wres hefyd.

**Yn yr ardd lysiau**

A dyma un o'r amseroedd prysuraf o'r flwyddyn – cynaeafu a bwyta a mwynhau ffrwyth eich llafur.

Mae'r india corn (*sweetcorn*) yn barod i'w bwyta os yw 'llaeth' yn dod allan ohonynt. Bydd blas rhai dyfwyd adref lot gwell na rhai'r archfarchnad, oherwydd bod y siwgr ynddynt yn troi'n startsh gynted ag y cawn nhw eu casglu, felly'n syth i'r sosban neu ar y barbeciw i gael y gorau ohonynt.

Gadewch wreiddiau'r pys a ffa yn y ddaear wedi iddyn nhw orffen tyfu maent yn rhoi *nitrogen* i'r pridd.





Os ydach chi mewn man oer a gwlyb (fel fi) byd rhai perlysiau megis rhosmari, gorthyfail (*chervil*) tarragon a saets angen eu cysgodi dros y gaeaf, yn yr un modd os gallwch roi cloch wydr (*cloche*) dros eich ysgallddail (*chard*) mi gewch rywbeth blasus i'w fwyta drw'r gaeaf.

Hwyrach y bydd angen rhwyd i gadw'r adar oddi ar y bresych.

**Cyffredinol**

Taflwch unrhyw ffrwythau/llysiau sydd wedi pydru.

Dyfriwch y tŷ gwydr yn gynnar yn y dydd; mae *botrytis* yn hoffi nosweithiau tamp ac oer. Caewch y drws yn y pnawniau i gadw'r gwres i mewn.

Mae mis Medi yn amser da i hau hadau i greu lawnt a hefyd yn amser da i fwydo lawnt sydd wedi'i hen sefydlu.

**Bywyd gwyllt**

Ar ôl prysurdeb tymhorau'r gwanwyn a'r haf, bydd garddwyr ar draws Cymru'n dechrau tacluso a chlirio ar gyfer tymor yr hydref a'r gaeaf. Tra fod pawb yn hoffi gardd daclus, (gan frwydro yn erbyn ymdrechion cath fawr sunsur a thwrch daear i chwalu pridd ym mhob man acw), cofiwch ystyried sut allwch ofalu am yr hyn sydd yn eich gardd o dan eich traed, ar y planhigion a'r blodau ac yn yr awyr. Ystyriwch pa blanhigion allwch chi eu plannu yn eich gardd i roi cysgod neu fwyd i'r creaduriaid hyn? Allwch chi ddod o hyd i le i roi gwesty i'r gwenyn neu bryfetach a gadael ambell i bentwr o ddail i greaduriaid bach cael lloches?

Mae'r RHS (*Royal Horticultural Society*) am roi'r gorau i ddefnyddio'r term '*pest*' neu bla am greaduriaid megis malwod, gwlithod a phryfed gleision (*aphids)* er mwyn annog garddwyr i edrych arnyn nhw fel rhan o ecosystemau'r ardd. Plymiodd niferoedd pryfetach yn ystod y blynyddoedd diwethaf, oherwydd ymyrraeth dyn, sy'n cynnwys colli cynefinoedd a'r defnydd o bla-laddwyr (*pesticides*). Ystyriwch fodd bynnag, bod pryfed o bob math yn hanfodol i gynnal bywyd ar y Ddaear, trwy beillio cnydau bwyd, bod yn rhan o'r gadwyn fwyd a chadw pridd yn iach.

Dyma ychydig o ffeithiau wneith i chi weld eu pwysigrwydd efallai:

Mae'r cwtsboncyn (*springtail)* yn bwydo ar ddeunydd planhigion marw; gall un medr sgwar o bridd gynnwys 60,00 o'r creaduriaid hyn

Gall y fuwch goch gota fwyta hyd at 50 pry glas bob dydd; gall eu larfau (*larvae*) fwyta hyd at bum gwaith yn fwy na hynny

Defnyddir gwenyn meirch parasitig (*parasitic wasps*) i reoli aphids mewn tai-gwydr ar raddfa fawr (large scale greenhouses)

Amcangyfrifir bod y titw tomos las yn bwyta hyd at 50 biliwn o lindys gwyfynnod yng ngwledydd Prydain ac Iwerddon bob blwyddyn

Gallwch hefyd gael gwared o bryfetach a gwahanol greaduriaid sy'n tyllu eich cabaits neu foron trwy ddefnyddio 'biological controls' sy'n cynnwys larvae a'r fuwch goch gota – drwy'r post! Dydw i heb ddefnyddio'r rhain fy hun, ond maent yn edrach fel ffordd dda o gadw rheolaeth ar ddifethwyr llysiau. Un cwmni sy'n cynnig ystod o'r rhain ar y we yw greengardener.co.uk Tybed os ydach chi wedi defnyddio dulliau fel hyn? Beth am anfon eich canfyddiadau atom yn yr Eco?

**Lloffa neu fforio(*forage*)**

Mi fyddaf fel arfer yn mwynhau lloffa (*forage*) am ffrwythau a madarch (os ydw i'n hollol siwr eu bod nhw'n rhai diogel i'w bwyta) yn ystod misoedd yr hydref, sy'n rhoi esgus perffaith i mi gael mynd am dro yn lle llnau. Erbyn hyn mae llawer o'r coed a'r llwyni i'w gweld yn llawn aeron o bob math, sy'n argoeli'n dda i fywyd gwyllt dros fisoedd oer y gaeaf. Mae'r llus allan yn gynnar eleni (fel dwi'n ysgrifennu hwn ar ganol mis Gorffennaf) er mae angen mynadd i gasglu digon i wneud tarten neu grymbl. Yn sicr mi fyddai'n casglu mwyar duon yn ystod mis Awst a dechrau mis Medi ac yn gwneud jeli mwyar ac afal (creu mwy o hylif i'w droi'n jeli felly) fydd yn fy atgoffa o fisoedd cynhesach wrth ei fwynhau o flaen y tân. Fedrai ddim pasio cnau nac eirin perthi (*sloes*) heb gasglu dipyn i'w bwyta ar y nail law a'u troi'n '*gin*' hyfryd erbyn misoedd oer y gaeaf ar y llall. Rwyf bob amser efo ryw fath o fag yn fy mhoced yr adeg yma o'r flwyddyn – jest rhag ofn. Un peth, peidiwch â bod yn rhy farus – gadewch ryw ychydig ar ôl i bobl eraill ac i fywyd gwyllt.

***Rhosyn Mynydd***

# Un funud fach ...

## POBL Y DDAEAR

Mi glywais y gofodwr Tim Peake yn dweud ar y radio'r dydd o'r blaen am un o'r pethau mwyaf a ddysgodd wrth deithio'r gofod. Pe byddai wedi cyfarfod â rhywun o blaned arall, meddai, mi fyddai wedi ymffrostio mai o'r ddaear a welai oddi tano y daethai. Roedd gweld y ddaear oddi tano wedi rhoi iddo'r ymdeimlad o berthyn i bawb o'i phobl, ac wedi atgyfnerthu'r syniad ein bod ar y ddaear hon yn un ddynoliaeth sy'n perthyn i'n gilydd. Wrth reswm, does yna ddim byd gwreiddiol am yr hyn a ddywed Tim Peake, ond ei fod o wedi cael rhyw olwg arbennig ar bethau wrth edrych i lawr ar y ddaear a gweld ein bod oll efo'n gilydd ar yr un belen o blaned ryfeddol hon.

Anos o lawer ydi cofio hynny ar y ddaear ei hun, yn ein byd rhwygedig â'i ryfeloedd a'i anghyfiawnder a'r cyfan sy'n dryllio perthynas pobl â'i gilydd. Mae hunanoldeb a barusrwydd yn amlwg yn pylu'r ymdeimlad o gymuned glos gytûn. Anodd ydi synied am un ddynoliaeth pan nad oes undod amlwg o fewn gwlad a chymuned a theulu. A phe byddem yn cyfarfod â phobl o blaned arall, mae'n beryg y byddai arnom gywilydd o orfod dweud mai o'r ddaear y deuem. Pwy fyddai'n awyddus i gyfaddef eu bod yn perthyn i'r ddaear gyfoethog o ffrwythlon y mae miliynau'n newynu arni? Pwy fyddai'n rhuthro i gyhoeddi eu bod yn rhan o'r hil ddynol sydd â'r gallu rhyfeddol i garu ac ymgeleddu ond sydd mor barod i gasáu a chlwyfo?

Nid bod hyn oll yn amlwg wrth edrych i lawr ar y ddaear. Ei phrydferthwch a'i thapestri amryliw o diroedd a moroedd sy'n rhyfeddu'r gofodwyr. Dyw difrawder a hagrwch calon dyn ddim i'w weld o bellafoedd y gofod. Ond y mae'n hysbys i'r Duw a'i creodd. Ac yr oedd yn hysbys i'w Fab, Iesu Grist, wrth iddo ddod i'n daear o anghyfiawnder a drygioni gan ei uniaethu ei hun â'r ddynoliaeth. Gwnaeth hynny trwy ddod yn un ohonom er mwyn delio â'r drygioni trwy ei roi ei hun i farw ar groes Calfaria. Trwy ei farwolaeth, mae Iesu Grist yn cynnig i'r ddynoliaeth faddeuant am yr holl hagrwch a phechod sy'n dinistrio perthynas pobl â'i gilydd ac â Duw. Ond trwy ei fywyd a'i fuddugoliaeth y mae hefyd yn estyn i'r ddynoliaeth allu newydd i garu a chymodi, ac i ofalu'r naill am y llall.

A phe byddwn innau'n cyfarfod â rhywun o blaned arall gallwn yn ddibetrus ymffrostio mai o'r ddaear y deuwn a'm bod yn perthyn i ddynoliaeth y mae'r Duw Mawr a greodd y nef, y ddaear, y planedau a'r bydysawd cyfan wedi ei charu ddigon i roi ei Fab ei hun yn aberth drosti. Ond yn bwysicach o lawer, mi ymffrostiaf heddiw fod gennym yn Iesu Grist waredwr sydd wedi ein caru ac sy'n medru ein nerthu i fod yn ddynoliaeth newydd sy'n ymdebygu iddo fo ei hun yn ein cariad a'n gofal am ein gilydd, o fewn teulu a chymuned a gwlad a byd. Mi ymffrostiaf fy mod yn un o bobl ddaear y daeth Mab Duw i'w chanol i'w gwaredu ac i gynnig iddynt obaith a bywyd.

**JOHN PRITCHARD**



# Newyddion Elusen Dyffryn Peris

Cafwyd cyfnod gwlyb annisgwyl yng nghanol yr haf, sy'n golygu fod tyrbin yr Ynni'n troi ac yn cynhyrchu trydan ac felly'n cynhyrchu arian i'r Elusen unwaith eto, wedi'r cyfnod hir o sychder a gafwyd ychydig fisoedd yn ôl.

Mae yna dipyn o amser wedi mynd ers i chi gael newyddion am yr Elusen … ac rydym yn falch o gyhoeddi ein bod wedi cymeradwyo 4 cais newydd ers hynny – y manylion isod – ond y gobaith ydi y cawn ragor o geisiadau fel rydym yn dod nôl i ryw fath o normalrwydd wedi'r cyfnod Covid.

Os cofiwch, un o amcanion sylfaenol Ymddiriedolwyr Ynni Padarn Peris oedd sefydlu elusen a chyfrannu £10,000 y flwyddyn iddi i'w rannu i brosiectau amgylcheddol lleol. Ers ei sefydlu yn 2017 mae'r cynllun heidro cymunedol eisoes wedi rhoi £30,000 yn rhodd i'r Elusen, a'r gobaith ydi y byddwn yn cael rhagor o geisiadau i'w hystyried fel mae pethau'n gwella.



Yr haf diwethaf rhoddwyd £277 i Grŵp Datblygu Llanberis i ddarparu basgedi blodau crog ar hyd Stryd Fawr y pentref.

Cytunwyd i roi £300 i GwyrddNi fel cyfraniad at gostau trafnidiaeth i un o Gynulliadau Hinsawdd a gynhaliwyd yn Y Caban ym Mrynrefail – diwrnod llwyddiannus iawn gyda disgyblion ysgolion cynradd y dyffryn yn cael agoriad llygad i ddatblygiadau efallai fydd yn hanfodol yn y frwydr yn erbyn cynhesu byd eang.

Un prosiect sy'n hyrwyddo bwriad yr Elusen i'r dim oedd darparu pwynt gwefru dwbl yn un o feysydd parcio'r Caban a rhoddwyd £4406.68 i'r fenter ac eisoes mae'n cael ei ddefnyddio'n aml – y gobaith i'r dyfodol yw y gwelwn ragor o'r pwyntiau gwefru yma yn y dyffryn i ddefnydd trigolion lleol ac i ymwelwyr. Diolch i Glyn Hudson o *Open Energy Monitor* am hwyluso'r gwaith.

Cymeradwywyd £1850 i Gyngor Cymuned Llanrug i osod hysbysrwydd newydd ac i hyrwyddo eu gwaith yn y fynwent leol.

Ers sefydlu'r Elusen rydym eisoes wedi cyfrannu dros £13,000 i brosiectau yn nalgylch yr Eco, ond mae'n rhaid pwysleisio fod 'na arian yn sefyll yn y gronfa at ddefnydd lleol … felly, os oes gennych syniad am brosiect ewch ati i edrych ar ein gwefan.

Er mwyn bod yn llwyddiannus rhaid i'r ceisiadau gyflawni un o nodau'r Elusen – dyma'r math o brosiectau a gefnogir …

* Lleihau tlodi tanwydd,
* Hyrwyddo ynni adnewyddadwy,
* Hybu trafnidiaeth gynaliadwy,
* Annog busnesau i arbed ynni,
* Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd,
* Lleihau gwastraff,
* Hybu unigolion i wirfoddoli yn eu cymunedau,
* Hybu ymarfer corff yn y gymuned,
* Helpu dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg i gynnal natur ddwyieithog ein cymuned.

Fe ddylai ymrwymiad i'r iaith Gymraeg fod yn amlwg ym mhob prosiect ac fe all unigolion neu grwpiau ymgeisio am y grantiau.

Byddwn yn derbyn ceisiadau yn chwarterol … 1 Ionawr – 31 Mawrth, 1 Ebrill – 30 Mehefin, 1 Gorffennaf – 30 Medi a 1 Hydref – 31 Rhagfyr. Felly ewch i'n gwefan – www.elusendyffrynperis.cymru – i lawr lwytho ein Canllawiau i Ymgeiswyr a'r Ffurflen Gais, ac efallai y cewch chi ysbrydoliaeth i wireddu breuddwyd a all wella ein cymuned wedi'r holl drafferthion a wynebwyd yn ddiweddar.

Bydd ceisiadau'r chwarter cyfredol yn dod i ben ddiwedd Medi.

Os oes angen i chi gysylltu â ni ynghylch eich cais, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn anfonwch e-bost at cais@elusendyffrynperis.cymru











Lluniau:@ Ray Wood




## Tyddyn Teg

**Bwyd – Tir – Pobl**

**LLYSIAU LLEOL FFRES**

**Ymunwch â'n cynllun llysiau!**

**Dewch i'n siop!**

- **Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.**
- **Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.**

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

# Chwilota

Erthyglau hanes lleol,
Bro Eco'r Wyddfa.

chwilota.wordpress.com

## Daniel Gregory, Pont Gerniach a'r New Inn

Dros yr wythnosau diwethaf bu cryn drafod ar safle 'Llanberis ddoe a heddiw' (ar Facebook) ar yr enw 'Gerniach/Geirniach', sef afon Arddu fel y mae'n cael ei hadnabod erbyn hyn. Roedd y gwahanol gyfranwyr yn dyfynnu o sawl ffynhonnell ble roedd yr hen enw'n cael ei ddefnyddio. Nodwyd mai Pont Gerniach oedd yr hen enw ar y bont bresennol ger Gorsaf Rheilffordd yr Wyddfa, ac mai yn 1813 y cafodd ei hadeiladu, ac mai'r Parch Peter Bailey Williams, Rheithor plwyfi Llanrug a Llanberis ar y pryd a oedd yn honni hynny. Yr oedd teithio o'i ofalaeth yn Llanrug i eglwys y plwyf yn Nant Peris yn drafferthus iawn iddo, o gofio mai ar y llwybr cul a alwai'n *"dangerous zig-zag"* dros y Clegir yr oedd y daith honno. Ac mewn llythyr mor ddiweddar â 1832 ganddo yn dadlau ynglŷn â ffeithiau anghywir mewn pamffled ar "Causes of Dissent from the Established Church in the Principality", mae'n adrodd *"... I have frequently been exposed to great dangers in the performance of my duty owing to the bad state of the road, the mountains I had to cross, and the rivers I had to wade through."* Mae hyn yn awgrymu nad oedd fawr o bontydd i'w gynorthwyo i groesi'r gwahanol afonydd rhwng ei gartref yn Llanrug a'r eglwys yn Nant Peris. Eto i gyd, roedd plwyfolion Llanrug wedi cyfrannu £10 tuag at wella'r ffordd ar draws y Clegir mor gynnar â 1812. Tybed felly a wnaeth plwyfolion Llanberis gyfrannu tuag at godi pont newydd flwyddyn yn ddiweddarach i groesi'r afon Gerniach? Yr ateb yw 'na' : roedd pont yno'n barod – beth bynnag oedd ei chyflwr. Daw'r wybodaeth o gofnodion y Sesiwn Chwarter ym mis Hydref 1812, a phlwyfolion Llanberis (neu 'inhabitants' fel y maent yn cael eu galw) sy'n dwyn achos yn erbyn gŵr o'r enw Daniel Gregory *"for nor repairing the bridge over Afon Gerniach".* Mae'n amlwg felly fod pont yn bodoli yno eisoes, ac mai angen ei thrwsio oedd, ond i'r gwaith hanfodol fethu a chael ei wneud. Nid yw'n ymddangos fod Daniel Gregory wedi gwneud y gwaith, oherwydd bedair blynedd yn ddiweddarach, yn 1816, mae 'inhabitants' plwyf Llanberis yn erlyn Daniel Gregory yn Llys y Chwarter Sesiwn *"for failure to repair the Llanberis bridge."* Dair blynedd yn ddiweddarach, yn 1819 mae llythyr arall gan y Parch Peter Bailey Williams yn cael ei anfon i rywun o'r enw William Hughes; unwaith eto'n poeni ynglŷn â'r ffaith nad yw'r bont wedi ei thrwsio, a'r tro hwn mae'n ei galw yn Bont Gerniach.

Mewn cyfnod o lai na deng mlynedd rhwng 1812 ac 1819 mae pryderon ynglŷn â chyflwr y bont a'r angen am ei thrwsio. O bosib mai ei hail-godi oedd ei angen yn hytrach na'i thrwsio, ac mai dyna pam y nodir y flwyddyn 1812/13 fel dyddiad ei hadeiladu.

Ond pwy tybed oedd y Daniel Gregory a gafodd ei erlyn am beidio gwneud y gwaith angenrheidiol ar y bont? O astudio cofrestrau plwyf Llanberis daw'r enw i'r amlwg ddwywaith. Mae cofnod o gladdu Daniel Gregory, Tŷ Gwyn, Penllyn, yn ddeunaw oed yn 1813. Nid hwn ydyw, ond mae'n bosib mai hwn oedd mab yr un gafodd ei erlyn. Does dim cofnod o'i fedyddio yn eglwys y plwyf, felly mae'n ymddangos i'r teulu gyrraedd yr ardal ar ôl 1795. Beth tybed ddaeth a hwy yma? Mae cofnod claddu y tad yn rhoi'r ateb. Bu farw Daniel Gregory, New Inn, ym mis Mai 1820 yn 70 oed, a diolch i arferiad y Parch Peter Bailey Williams o sgwennu nodiadau ymyl y ddalen am lawer o'i blwyfolion yn Llanrug a Llanberis, cawn wybod mwy amdano. Fe'i ganed yn Swydd Stafford tua 1750, ac yr oedd wedi bod yn asiant yng ngwaith copr Thomas Wright ar y llethrau uwch Llyn Peris. Daeth Thomas Wright o Nantwich i feddiant y lês ar y gwaith copr yn 1805, ac felly mae'n bosib mai dyna pryd y daeth Daniel Gregory a'i deulu i fyw i'r ardal. Mae hynny'n egluro'r cyfeiriad yn y Ty Gwyn, Penllyn – o fewn cyrraedd i'r gwaith. Ond roedd hefyd erbyn o leiaf 1812 yn cadw'r New Inn (y Dolbadarn diweddarach). Tybed pa bryd yn union yr adeiladwyd y dafarn 'newydd' hon ar y ddôl?

Bu Daniel Gregory a'i wraig, Mary, yn cadw'r dafarn hyd ei farwolaeth yn 1820, a hynny'n eithaf llwyddiannus mae'n ymddangos. Ceir disgrifiad yn 1816 o wledd wedi ei pharatoi yn y New Inn i *"a select number of Gentlemen".* Byddai'n hynod ddiddorol cael gwybod pwy oedd y rhain! Ond roedd broliant arbennig i'r bwyd a'r paratoadau gan Mr a Mrs Gregory, ond yn enwedig i'r cwrw a oedd yn cael ei fragu yn y dafarn. Ac er mai yn Saesneg y mae'r disgrifiad o'r wledd, nid 'beer' a ddefnyddir am y ddiod, ond 'cwrw'. Cyfansoddwyd nifer o benillion i ddathlu'r achlysur. Dyma un ohonynt:

*'Since we're all here so jolly*
*We'll banish melancholy;*
*Here is Gregory for ever*
*Desert him we'll never*
*But visit Llanberis again and again.'*

Does wybod a ddaeth y 'select gentlemen' yn ôl rhwng y wledd hon a marw Daniel Gregory bedair blynedd yn ddiweddarach.

Bu Daniel Gregory farw yn ddi-ewyllys, a hawliodd Mary, ei weddw, ei holl eiddo; gwerth £19. Mae posibilrwydd iddi symud i fyw i Fangor, ond ni ellir cadarnhau hynny. Does wybod chwaith a oedd plant eraill ar wahan i'r mab a fu farw'n ifanc.


Wedi marwolaeth Daniel Gregory daeth y New Inn i ofalaeth John Williams a'i wraig – brodor o Fetws Garmon – ac yn ystod misoedd cyntaf 1824 fe adnewyddwyd y dafarn. Yn y flwyddyn honno hefyd y cynhaliwyd Eisteddfod Gŵyl Ddewi yng Nghaernarfon dan nawdd Cymdeithas y Cymreigyddion. Un o'r rhai oedd yn bresennol oedd William Edwards o Lanberis, a oedd yn arddel yr enw barddol Gwilym Padarn. Mae'n debygol mai ef fu'n gyfrifol am sefydlu cangen o Gymdeithas Cymreigyddion Nant Padarn ar Fehefin 17eg 1825 yn y New Inn. Gwilym Padarn oedd bardd swyddogol y Gymdeithas, ond gŵr o'r enw Jeremiah Williams oedd y llywydd, ac yr oedd yntau hefyd yn asiant yn y gwaith copr. Roedd y Gymdeithas i fod i gyfarfod yn fisol, ond hyd y gwn, nid oes cofnodion ar gael i brofi a ddigwyddodd hynny, a phrin yw'r wybodaeth amdani. Er hynny, cynhaliwyd cyfarfod arall yn y New Inn ar Ddydd Gŵyl Ddewi 1826.

Gan mai hwn yw'r rhifyn olaf cyn yr haf, ni ddaw'r nesaf allan tan rifyn mis Hydref – digon o amser i chwi grwydro o amgylch yr ardal yn hytrach na diflannu dros y môr. Crwydrwch lwybrau cyhoeddus y fro, chwiliwch am gerrig beddau diddorol neu olion adfeilion hen gartrefi ac anfonwch ataf gyda gwybodaeth amdanynt neu ymholiad. Cysylltwch ar unrhyw agwedd o hanes lleol y fro, ac anfonwch i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com neu ffoniwch 01286 673515. Mwynhewch y gwyliau.






# Dal i redeg....



Dros y mis diwethaf bu rhedwyr y fro'n hynod brysur gyda rasio rheolaidd, a hynny ddwywaith yr wythnos yn aml. O fewn cyrraedd rhesymol roedd Ras 10k Y Felinheli, Ras 7k Bethel a Ras 5k Pentir. A daeth llwyddiannau. Arwel Lewis, Bethel yn 3ydd dros 60 oed yn Y Felinheli, ond yn gyntaf ym Mhentir. Maggie Oliver, Dinorwig oedd y ferch gyntaf dros 70 oed ym Mhentir, ac ail yn Y Felinheli. Teithiodd Arwel hefyd i'r Bermo a dod yn 2il yn y ras 10k yno. Draw yn Abersoch daeth Adam Jones, Llanberis yn gyntaf yn yr hanner marathon. Ar y mynyddoedd, daeth Ali Thomas, Llanberis yn ail dros 50 oed ar Foel Siabod ac Arwel Lewis yn drydydd dros 60 oed ar Foel y Gamelin ger Llangollen. Teithiodd dau o Lanberis i Ynys Cybi, gydg Anwen Hockley yn ail ferch yn Ras Mynydd Twr a Rhys ap Gwilym yn drydydd dros 40 oed.

**Gafael Llaw yn elwa**

Un o brif ddigwyddiadau rhedeg mynydd y fro oedd Sialens 24 awr Yr Wyddfa a gynhaliwyd yn Llanberis. Yr oedd yn bosib cystadlu fel unigolion, parau neu dimau o dri, pedwar neu bump. Y gamp oedd rhedeg i gopa'r Wyddfa ac yn ôl i Gae'r Ddôl gymaint o weithiau a phosib rhwng 10 o'r gloch fore Sadwrn a 10 o'r gloch fore Sul, oedd yn golygu bod allan ar y mynydd berfeddion nos. Roedd tîm lleol o Lanrug wedi cystadlu yn y ras hon y llynedd dan arweiniad Dr Huw Gwilym, gan godi arian i elusen Gafael Llaw. Aeth y tîm i'r copa 12 gwaith y llynedd.



Eleni, y targed oedd torri'r record a pharhau i godi arian i elusen Gafael Llaw. Yn anffodus, bu'n rhaid i Huw Gwilym dynnu allan oherwydd anaf, ond llanwodd Trystan Gwilym (sy'n athro yn Ysgol Dolbadarn) y bwlch, ac oherwydd hynny, nid Hogia Llanrug oedd yn cystadlu! Gweddill y tîm oedd Darren Owen, Lyndon Roberts, Dyfed Thomas a Ceirion Williams. Ar y cyfan bu'r tywydd yn ffafriol, a thorrwyd y record, gan gyrraedd y copa 13 o weithiau, gyda'r rhedwr olaf yn cyrraedd yn ôl gwta bum munud cyn i'r 24 awr ddod i ben! Rhedodd Trystan, Darren a Dyfed 3 gwaith i'r copa, a Lyndon a Ceirion 2 waith. Mae torri'r record hon yn anodd iawn, oherwydd mae'n golygu y byddai angen i bob rhedwr yn y tîm allu rhedeg i'r copa ac yn ôl mewn llai na awr a hanner ym mhob cymal. Ond pwy a ŵyr y flwyddyn nesa?

Roedd tîm merched Rhedwyr Eryri hefyd yn cystadlu, a hwy ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth gan gyrraedd y copa 11 o weithiau. Rhian Thomas, Llanrug oedd yr unig ferch leol yn y tîm a gyrhaeddodd y copa ddwywaith.

**Ras yr Wyddfa**

Er gwaethaf y darogan o stormydd eithafol, doedd y gwynt a'r glaw ddim yn ddigon i ohirio'r Ras eleni – ond chafodd neb fentro i'r copa. Cafodd y ras ei chwtogi, a phawb yn troi'n ôl ar waelod Allt Moses. Er hynny mentrodd dros 450 i fyny'r mynydd, a daeth torf dda i sefyll yn y glaw i'w disgwyl yn ôl.

Eidalwr oedd yr enillydd, ac Albanes oedd enillydd ras y merched. Roedd pedwar rhedwr wedi cwblhau'r ras mewn llai na 40 munud – amser anhygoel o gysidro'r amodau. Roedd llwyddiannau lleol hefyd, gyda Dyfed Thomas, Llanrug yn ennill y categori oedran dros 45, ac yn aelod o dîm Rhedwyr Eryri a gipiodd y wobr am y tim cyflymaf. Roedd Deio Garton, Tan y Coed hefyd yn aelod o'r tîm buddugol. Merched Llanberis oedd yn cadw'r faner leol i gyhwfan, gydag Ali Thomas ac Emily Wood yn gorffen yn gyntaf ac ail yr yr adran dros 55 oed.

Ond yn sicr, yr enillwyr ar y diwrnod oedd y trefnwyr am eu penderfyniad i gynnal y ras er gwaethaf rhagolygon y tywydd, a hefyd am ei chwtogi er diogelwch. Diolch arbennig hefyd i'r stiwardiaid a fu allan ar y mynydd yn nannedd y gwynt am lawer mwy o amser na'r rhedwyr. Does ond gobeithio y bydd y tywydd yn garedicach y flwyddyn nesaf.

# Ergyd i Ymgyrch Ewro 2024



Efallai fod rhai ohonoch yn cofio fy erthygl yn Rhifyn mis Mai yn dathlu cychwyn gwych Cymru i ymgyrch Ewro 2024. Roedd Cymru yn eistedd ar frig grŵp D gyda 4 pwynt. Yn anffodus barodd hynny ddim yn hir iawn! Erbyn hyn, yn dilyn gemau mis Mehefin, mae Cymru yn wynebu tipyn o her i gyrraedd Ewro 2024. Roedd mis Mehefin yn fis i'w anghofio.

Daeth Armenia i Gaerdydd Mehefin 16eg a'r haul yn gwenu'n braf. Doedd cefnogwyr Cymru fodd bynnag ddim yn gwenu ar ôl y chwiban olaf. Roedd hi'n berfformiad siomedig iawn ac yn fflach yn ôl i orffennol Cymru.

Fe gychwynodd Cymru'n dda gyda sawl cyfle a daeth gôl gan Daniel James o fewn y 10 munud cyntaf. Teimlad ar ôl y 10 munud cyntaf felly byddai llawer mwy o gôls i Gymru yn dilyn. Yn dilyn gôl Cymru fodd bynnag, doedd Armenia ddim yn barod i eistedd yn nôl ac fe aethant yn agos iawn i sgorio yn syth bron! Dylai hynny wedi bod yn rhybudd i Gymru y byddai'n rhaid iddyn nhw weithio'n galed i aros ar y blaen. Yn anffodus doedd y rhybudd ddim yn ddigon ac fe gafodd Armenia gôl gyfartal ar ôl ugain munud o chwarae. Roedd Cymru wedi mynd i gysgu ar ôl sgorio. Roedd Armenia yn cael llawer gormod o ofod ac yn cael llawer gormod o barch gan Gymru. Erbyn hanner amser, roedd Armenia ar y blaen. Doedd neb wedi gweld hynny'n dod cyn y gêm dwi'n siwr!

Roedd Armenia wedi dechrau gwastraffu amser yn syth ar ddechrau'r ail hanner, yn ceisio gwneud popeth i aros ar y blaen. Roedd Cymru yn defnyddio'r asgell ac yn rhoi'r bêl mewn i'r cwrt cosbi gan obeithio am y gorau. Doedd Kieffer Moore ddim yn gallu cael ei ben ar y bêl a doedd dim golwg o gôl i Gymru. Gyda hanner awr ar ôl i chwarae, daeth gôl arall i Armenia. Roedd hi'n 3-1. Diolch felly i Harry Wilson, wrth iddo sgorio a'i gwneud hi'n 3-2. Roedd llygedyn o obaith i Gymru i geisio cael rhywbeth allan o'r gêm. Byr oedd y gobaith hwnnw, wrth i Armenia sgorio unwaith et, a'i gwneud hi'n 4-2. I ychwanegu at noson siomedig i Gymru, fe welodd Kieffer Moore gerdyn coch, am helynt gyda gôl geidwad Armenia. Noson i'w anghofio i Gymru, ond noson i'w chofio i Armenia – eu buddugoliaeth gyntaf mewn 10 gêm!

Doedd hi ddim yn ddrwg i gyd i Gymru ar y cae. Roedd rhywbeth i ddathlu wrth i David Brooks wneud ei ymddangosiad cyntaf yn nôl yn y crys coch ers iddo gael diagnosis o gancr. Moment arbennig tu hwnt a braf ei weld yn nôl ar y cae.

Yn dilyn canlyniad a pherfformiad siomedig iawn yn erbyn Armenia, roedd Cymru yn teithio i Samsun i wynebu Twrci. Mehefin 19eg, roedd gêm anodd o'u blaenau. Yn syth roedd Twrci yn dominyddu ac roedd eu cefnogwyr yn llawn tân. Fe sgoriodd Chris Mepham o fewn y 10 munud cyntaf. I'r rhwyd anghywir. Lwcus iddo ef ag i Gymru, daeth VAR i'r achub. Doedd y gôl ddim yn sefyll gan fod camsefylliad. Daeth ergyd i

# Cymru yn curo Cwpan y Byd

Rydym wedi bod yn lwcus yn ddiweddar wrth weld Tîm Pêl-droed y dynion, Tîm Rygbi Gynghrair a Hoci Cymru yn cystadlu mewn Cwpan y Byd.

Ond un gamp mae Cymru wedi cystadlu ym mhob Cwpan y Byd ydi Cwpan Dartiau'r Byd PDC. Ers y Twrnament cyntaf yn 2010 mae Cymru wedi bod yn bresennol ym mhob un o'r 13 sydd wedi ei chynnal.

Mae hon yn gystadleuaeth mae Cymru wedi cael llwyddiant yn y gorffenol. Yn gyn bencampwyr wedi i Gerwyn Price a Jonny Clayton ennill y tlws yn Salzburg yn ystod y Covid yn 2020. Mae Cymru wedi gorffen yn ail dair gwaith hefyd yn 2010, 2017 a'r llynedd 2022 gan golli i Damon Heta a Simon Whitlock o Awstralia yn y ffeinal.

Eleni roedd Gerwyn Price a Jonny Clayton yn dychwelyd fel pâr am y 6ed tro yn olynol i gynrychioli Cymru. Wedi curo'r tlws yn 2020 a cholli yn ffeinal y llynnedd, roedd y pâr ymysg y ffefrynnau ac yn 2il ddetholion i'r gystadleuaeth gyda'r ddau yn 7 uchaf yn rhestr detholion y Byd PDC.

Casglodd 40 o wledydd yn Frankfurt, Yr Almaen ar gyfer Cwpan Dartiau'r Byd PDC. Gan fod Cymru yn y 4 uchaf ar y rhestr detholion roedd Cymru yn cael osgoi'r rownd gyntaf gan fynd yn syth i'r ail rownd gyda Lloegr, Yr Iseldiroedd a'r Alban. Ymunodd Cymru gyda'r parti ar y Dydd Sadwrn. Ond daeth bach mwy o bwysau ar Gymru gyda'r newyddion fod Michael Van Gerwen wedi gorfod tynnu allan o dîm yr Iseldiroedd. Oherwydd y newyddion hynny, roedd Cymru, erbyn hyn, yn ffefrynnau i ennill yn Frankfurt.

Gêm gyntaf Cymru yn ail rownd y twrnament oedd yn erbyn Vladimir Andersen a Benjamin Drue Reus o Ddenmarc. Enillodd Denmarc y cymal cyntaf. Ond daeth Cymru yn gyfartal gyda chymal o 11 Dart. Roedd Price a Clayton yn chware yn dda gyda chyfartaledd gêm o bron i 100 wrth iddynt ar un adeg ennill 5 cymal yn olynol. Digon hawdd oedd hi i Gymru wrth ennill y gem o 8-2 a lle yn rownd nesaf.

Dychwelodd y ddau Ddydd Sul ar gyfer rownd yr wyth olaf. Sweden oedd ei gwrthwynebwyr ac roedd Cymru ar ei hôl hi yn gynnar wrth i'r par o Dennis Nilsson a Oskar Lukasiak fynd 3- 1 ar blaen. Ennillodd Cymru 4 cymal yn olynol wrth fynd 5-3 ar y blaen. Ond yn ôl daeth Sweden a gêm yn gyfartal 5-5. Ond roedd gêr arall gan y pâr o Gymru gan orffen 3 cymal mewn 14, 16 a 14 o Ddartiau i ennill o 8-5 a lle yn y 4 olaf.

I'r Sesiwn nos Sul y rowndiau cyn derfynol a Chymru yn herio Gwlad Belg gyda'i pâr Dimitri Van Den Bergh a Kim Huybrechts. Roedd Cymru ar y blaen 3-2 wedi'r 5 cymal cyntaf. Manteisiodd Cymru yng nghymal 6, wrth i Kim Huybrechts fethu 3 dart ar 32 a Jonny Clayton yn taro dwbwl 10 i roi Cymru 4-2 ar y blaen. Enillodd Cymru'r 2 gymal nesaf a'r sgôr yn 6-3. Ond methodd Gerwyn Price 2 ddart ar ddwbl 10 i fynd 7-3 ar y blaen a chosbodd Gwlad Belg Gymru gan ennill y cymal hwnnw a'r 2 nesaf ar gêm yn ôl yn gyfartal.

Er nad yw'r pâr o Wlad Belg yn cyd lynnu gyda'i gilydd oddi ar yr oci roedd Van Den Bergh a Huybrechts yn chware yn dda fel pâr. Enillodd y ddau dîm gymal arall a'r sgôr yn gyfartal 7-7 gydag un cymal i chwarae a Chymru gyda'r fantais yn y cymal olaf. Doedd hi ddim yn gychwyn da i Gymru ond Jonny Clayton yn gorffen gyda chyfuniad arbennig o 100 mewn 2 Dart a Chymru yn ennill 8-7 a trwodd i 3ydd ffeinal mewn 4 blynedd.

Ymlaen i'r ffeinal i wynebu'r Alban oedd wedi trechu'r tîm cartref Yr Almaen yn y rownd gyn derfynol. Felly Gerwyn Price a Jonny Clayton yn erbyn Peter Wright a Gary Anderson a'r ddau Albanwr wedi ennill Pencampwriaeth y Byd ar ddau achlysur.

Cipiodd Cymru'r 3 cymal cyntaf yn y ffeinal, cyn i'r Alban ennill y 4ydd cymal. Yn y 5ed cymal cyfle i Peter Wright ar gyfuniad o 147 ond methodd gyfle ar y Dwbl 18 a Jonny Clayton yn gorffen ar 67 i gipio'r cymal.

Dyma Gerwyn Price yn ymestyn mantais Cymru yn y cymal nesaf gan orffen a chyfuniad o 104. Yna fu bron i Peter Wright lwyddo gyda chyfuniad o 158 ond methu dwbl 19 a Clayton yn ei gosbi. Yna Clayton yn cosbi Gary Anderson wrth iddo fethu 2 dart ar ddwbl a Clayton yn gorffen. Cymru 7-1 ar y blaen ac yn rheoli.

Price yn gorffen yn wych ac yn llwyddo i orffen a chyfuniad o 116. Er i'r Alban ennill y cymal nesaf tro Clayton oedd hi i orffen 116 gan roi Cymru 9-2 ar y blaen. Gyda Peter Wright ond yn taflu 26 i gychwyn cymal 12 roedd Cymru yn llygadu cyfle. Wedi 12 Dart roedd Gerwyn Price a chyfle ar 36 ond ef yn methu 3 dart ar Ddwbl 18. Gary Anderson yn methu Dwbwl 18 i'r Alban am gyfuniad o 98 a Clayton gyda chyfle i Gymru. Clayton yn gorffen 18 mewn 2 dart a Chymru yn ennill o 10 – 2. Cymru yn ennill Cwpan Dartiau'r Byd am yr ail dro. Yn dilyn y fuddugoliaeth Jonny Clayton a Gerwyn Price sydd a 3ydd record gorau yn hanes y gystadleuaeth fel par.

Yn dilyn eu buddugoliaeth gyntaf yn 2020 cafodd y ddau, ychydig o fisoedd rhyfeddol wedi'r llwyddiant honno. Gerwyn Price yn ennill Pencampwriaeth y Byd 2021. Jonny Clayton yn ennill ei brif gystadleuaeth gyntaf yn y Meistri. Rhyngddynt ar un adeg yn 2021 roedd 5 allan o 9 o'r prif Gystadalaethau yn gylchdaith Dartiau y PDC yn nwylo'r ddau o Gymru. Gobeithio bydd ennill Cwpan Dartiau'r Byd eleni yn dod a llwyddiant tebyg i'r ddau unwaith eto am weddill y flwyddyn.

**Elgan Rhys Jones**

Gymru yn agos i hanner amser. Roeddem lawr i 10 dyn (yr ail waith mewn 2 gêm). Dangosodd y dyfarnwr gerdyn coch i Joe Morrell am dacl uchel. Roedd hi am fod yn ail hanner hir iawn ac roedd tasg anodd iawn o flaen Cymru.

Doedd dechrau'r ail hanner ddim yn rhy ddrwg ac fe gafodd Cymru gyfle i fynd ar y blaen wrth i gic rydd gan Harry Wilson orfodi arbediad gwych gan gôl geidwad Twrci. Fe gafodd Twrci wedyn gyfle euraidd i fynd ar y blaen wrth iddyn nhw ennill cic o'r smotyn. OND, doedd hynny ddim yn sgript Danny Ward gan iddo arbed y gic o'r smotyn! Roedd y Wal Goch yn dathlu fel petai Cymru wedi sgorio! Lwc ar ein hochr unwaith eto. Ychydig funudau wedyn, roedd Twrci yn meddwl eu bod wedi mynd ar y blaen wrth i Nayir daro'r bêl i gefn y rhwyd, ond daeth VAR i'n hachub eto. Yn anffodus roedd Cymru wedi defnyddio eu lwc i gyd ac fe gafodd Nayir ei gôl ar ôl 72 munud. Ar ôl un gôl, daeth un arall ac roedd Twrci 2 gôl ar y blaen. Roedd Cymru wedi dal yn dda gyda 10 dyn ac wedi reidio eu lwc. Yn anffodus, colli eto oedd tynged Cymru.

Ar ôl cychwyn da i'r ymgyrch, mae gobeithion Cymru o gyrraedd Ewro 2024 felly wedi cael ergyd. Bydd y ddau dîm sydd yn gorffen ar frîg y grŵp yn ennill lle yn Ewro 2024. Rydym ar hyn o bryd yn eistedd yn y 4ydd safle dal gyda 4 pwynt. Mae Twrci nawr ar frig y grŵp a 5 pwynt o'n blaen. Mae Croatia gyda 4 pwynt fel ni ond wedi chwarae 2 gêm yn llai. Yn realistig, er mwyn gorffen yn y ddau uchaf, mi fyddai'n rhaid i Gymru ennill y 4 gêm sydd yn weddill sydd yn cynnwys gemau gartref yn erbyn Twrci a Croatia. Nid yw'n gobeithion o orffen yn y ddau safle uchaf yn y grŵp felly yn edrych yn wych erbyn hyn ond nid yw hynny yn golygu na fyddwn ni'n mynd i'r Almaen haf nesaf. Mae posib i ni gyrraedd Ewro 2024 drwy'r gemau ail-gyfle, diolch i ymgyrch Cynghrair y Cenhedloedd. Parhewch i gadw'r calendar yn wag felly ar gyfer haf 2024, rhag ofn bydd taith i'r Almaen yn yr arfaethl!

**Mared Rhys Jones**




## MARI'N ARWYDDO CYTUNDEB HANESYDDOL

Mae Mari Gibbard o Lanrug yn un o ddeg o chwaraewyr clwb pêl-droed Wrecsam sydd wedi arwyddo cytundebau rhannol broffesiynol.

Bydd darllenwyr yr Eco yn cofio ein bod wedi dilyn gyrfa Mari Gibbard o Lanrug gyda balchder, felly mae Mari wedi cymryd cam arwyddocal newydd.



# Gymnasteg - llwyddiant rhyngwladol i fachgen o Lanrug

Ar y Sadwrn olaf ym Mehefin daeth Guto Williams yn fuddugol yn y Tumble League yng nghartref Gymnasteg Prydeinig yn Lilleshall. Dim ond 8 oed yw Guto, ond roedd hyn yn dilyn perfformiad arbennig ganddo fis Mai yn Stoke, ble daeth yn 5ed dan 11 oed drwy Brydain. Dim ond Guto ac un bachgen arall o Gymru a gymhwysodd o ran safon mewn treialon yng Nghaerdydd i gynrychioli Cymru ac Ysgol Gynradd Llanrug yng nghystadleuaeth derfynol i ysgolion Prydain. Roedd ei sgôr yn Stoke yn y tim dan 11 oed yn ddigon i dîm Cymru ennill y gystadleuaeth yn erbyn ysgolion Lloegr, Iwerddon a'r Alban.

Bydd Guto'n parhau i ymarfer drwy'r haf gyda Chlwb Gymnasteg Eryri ym Mhlas Silyn, Penygroes, a hynny ar gyfer mwy o gystadlaethau yn ystod y gaeaf. O ystyried ei oedran, bydd ganddo bron i dair blynedd arall o gystadlu yn yr oedran dan 11 oed – a mwy o lwyddiannau i ddod yn sicr. Llongyfarchiadau mawr iddo.

## RYGBI

**Chwaraewr y Flwyddyn**

Mae Jac Petch-Jones o Benisarwaun newydd orffen ei flwyddyn olaf yng Ngholeg Llandrillo a bydd yn cychwyn ar gwrs ym Mhrifysgol Bangor ym mis Medi. Mae eisoes yn ymarfer efo tîm hŷn Rygbi Gogledd Cymru (RGC) ym Mae Colwyn, a bydd yn parhau i chwarae rygbi tra'n y Brifysgol. Bu'n chwarae'n rheolaidd i dîm Coleg Llandrillo dros y blynyddoedd diwethaf, ac ar ddiwedd ei dymor yno enillodd wobr Chwaraewr y Flwyddyn – dewis yr Hyfforddwr.

Dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol.

**Corin yn edrych ymlaen am y tymor nesaf**

Llongyfarchwyd Corin Mabon Jones o Gwm-y-Glo rai rhifynnau yn ôl, a daeth y tymor rygbi diwethaf i ben ac yntau'n teimlo'n bositif a'i nerth a'i fedr wedi gwella yn fawr iawn. Daeth y tymor i ben gyda thaith rygbi i Iwerddon gyda thîm dan 15 Bwllheli.

Gyda'r tymor nesaf yn prysur agosau, mae ymarferion eisoes wedi cychwyn. Mae Corin yn ffodus iawn wedi cael dyrchafiad o fewn Rygbi Gogledd Cymru ac wedi cael y fraint o fod yn rhan o'r garfan dan 18, er nad yw ond 15 oed.

Dros wyliau'r ysgol bydd yn hyfforddi rhwng 1.00pm a 6.00pm bob dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau ym Mae Colwyn. Bydd hyn yn gyfuniad o sgiliau, tactegau, ffitrwydd a gwella gêm. Bydd hefyd yn gwneud llawer iawn o hyfforddiant pwysau ar gyfer cryfder ac adeiladu. Y cynllun yw gwella galluoedd a chryfder Corin, ac yna symud ymlaen â'i rygbi i'w wneud yn chwaraewr hyd yn oed yn well, yn gryfach ac yn fwy penderfynol.



# Cymorth i Rai yn Rhagori ym Myd Chwaraeon

Mae dilyn eich breuddwyd ym myd chwaraeon yn gallu bod yn gostus tu hwnt, gyda'r holl ymarferion, teithio, cystadlu ac ati, ond os ydych o dan 25 oed ac yn dod o Wynedd neu Gonwy efallai y gall Cronfa Cofio Robin fod o gymorth.

Mae'r elusen wedi rhoi cyfraniadau ariannol i dros 70 o unigolion ers ei sefydlu 5 mlynedd yn ol ac wedi cyfrannu dros £60,000. Ymysg y rhai sydd wedi derbyn cymorth mae Medi Harris gafodd flwyddyn hynod lwyddiannus y llynedd, yn ennill medal efydd yng Ngemau'r Gymanwlad, ac yna'n ennill medal aur eleni ym Mhencampwriaethau Nofio Prydain. Un arall sydd yn serennu yw Gwenllian Pyrs sy'n chwarae rygbi dros Gymru. Fe roddir ystyriaeth i bob math o chwaraeon, a dros y blynyddoedd rhoddwyd arian i fyd marchogaeth, saethu colomenod clai, beicio, dringo, caiacio, bocsio ac ati.

Ewch i www.cofiorobin.co.uk i weld mwy am yr elusen. Yno hefyd cewch gopi o'r ffurflen gais sydd angen ei llenwi a'i dychwelyd i'r Ymddiriedolaeth erbyn 30ain Medi, 2023.




FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
www.fframia.com
FFRAMIO LLUNIAU




BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch **(01248) 361044**
D. P. OWENS RHIWLAS

Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 | hefsj@aol.com

# Ar ben arall i'r lein

Dyma un o'r tymhorau rhyfeddaf dan haul. Er bod y tywydd wedi troi o'r haul tanbaid i rhywbeth mwy ansefydlog, cawodydd a gwynt, does dim digon o law i godi lefelau'r afonydd i fy nhemtio gyda'r enwair. Mi fentrais ar un achlysur i drio am dorgoch ar Padarn, ac ofer fu hynny, dim byd ond chwyn, er fy mod yn cael rhyw sibrydion fod tipyn o frithyll yn dod i'r rhwyd o lannau'r Ddol yn Llanberis. Fel mae'r tywydd yn newid o ddydd i ddydd mae gawaldu yn dod acw gyda newyddion, mi fydd mwy am hyn yn nes ymlaen.

Yr unig le sy'n dal iddi yn weddol yw Llyn y Dywarchen, gyda'r stocio cyson, ond ar adegau mae y fan yma yn cysgu a llawer un yn cael siwrna seithug. Bu'r stocio diweddaraf ar y 10fed ac 11eg Gorffennaf gyda brithyll yr enfys ardderchog o ddeorfa Trawsfynydd a brithyll brown arbennig o Ddeorfa Crawia. Mae'n sicr y bydd y lle yn brysur iawn yn ystod y dyddiau nesaf.

Yndi mae Dywarchen yn lyn hyfryd, fel mae Parc Eryri yn dweud yn ei hysbys o'r parc – 'Lle i enaid gael llonydd'. Ond i'r pysgotwyr does dim eisiau llawer o lonydd – ond yn hytrach plwc a naid rhyw 'sgodyn go fawr yn de! Ond mewn difri mae'r llyn yma yn un o berlau pysgota Cymru ac o'r diwedd mae corff hybu pysgota Cymru wedi dechrau arni i ddod a'r llyn at sylw 'sgotwrs y byd. Pysgota Cymru (Fishing Wales) yw'r corff hybu hwn. 'Rwyf wedi bod yn swnian eu bod dim ond yn rhoi sylw i leoliadau y de a'r canolbarth, a diolch iddynt maent wedi ymateb gyda rhai diwrnodau o ffilmio ar ein dyfroedd. Mae'n rhaid canmol eu gwaith, tarwch olwg ar htt://youtu.be/Wzfxwv/NUOv. Tydw i ddim y glir iawn os oes gwirionedd yn y sibrydion fod cwmni ffilmio Paramount yn ceiso denu Dr Robin Parry am Holywood!





Oes mae tipyn go lew o waith tacluso ac adnewyddu adnoddau sy'n ymwneud ar bysgotfa, gresyn yw nad oes mwy o wirfoddolwyr yn dod ymlaen a rhoi eu ysgwyddau at y gwaith yma. Ar y funud rydym yn dibynnu ar rhyw ddwsin o aelodau i redeg y sioe. Oes mae nifer fawr o'r cyhoedd yn cael mwynhau ein adnoddau ond does dim yn troi eu dwylo i roi cymorth; cofiwch mae llawer iawn o hwyl a chyfeillgarwch yn sgil hyn i gyd, peth prin iawn heddiw mewn llawer i le yn ôl pob golwg.

Diolch i Dafydd Whiteside am ei ymchwil ar Bont Rug a'r Felin Wen. Dan y bont bresennol mae'n bosib gweld bwa dwy bont, felly'n amlwg rhyw dro fod y bont wreiddiol wedi lledu a mae'n bosib gweld y dyddiad 1770 wedi ei naddu ar y bwa ochr Caernarfon i'r afon. Yn nyddiaduron Robert Thomas, Erw Pwll y Glo 1809 – 1823 mae yn cyfeirio ar fachu eogiaid o dan Pont Rug a hefyd wrth y cerrig camu a'r sarn sydd ychydig i lawr yr afon o'r bont. Rhaid ceisio cael cymorth o rhywle i argraffu'r holl wybodaeth yma, neu yn angof fydd yr holl beth. Yn anffodus does neb ar gael i'n rhoi ar ben ffordd ac yn fwy na hyn does neb eisiau gwybod chwaith – hen dro yn de.





Rhaid i mi gymryd y cyfle i ddiolch i rhai o'r aelodau sydd wedi bod, ac yn dal i fod wrthi, yn tacluso ac uwchraddio a thrwsio'r adnoddau. Mae gwaith go lafurus wedi bod yn mynd ymlaen ar y llwybrau a'r pontydd sy'n hwyluso mynediad i'r glannau o Benllyn i lawr at y Caledffrwd – afon does neb yn cyfeirio ati heddiw fel Afon Newydd. I John a Brinley y mae'r diolch am eu gwaith ardderchog.



**Dyddiad ar Pont Rug']**

Cyfeirias ar y dechrau am newyddion yn dod i law, a hyn yn tystiolaethu fod natur yn gweithio mewn ffyrdd dirgel dros ben. Mae pysgotwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi bod wrthi ers degawdau, yn sylweddoli fwy a mwy fod yr hen wybodaeth a gawsom pan yn dechrau ar y grefft yn gywir. Wel fel hyn mae pethau – wedi'r holl sychdwr a dim eog na gwyniedyn wedi eu gweld ers wythnosau lawer, er fod yr afonydd yn dal yn isel mae'r pysg mudol yma yn synhwyro fod newid ar y gorwel. Ar yr 11eg o Orffennaf, yn dilyn cawodydd trwm, fe ddechreuodd y Seiont godi rhyw ychydig, pedair modfedd ar y mesurydd is-law Pont Crawia. Yn hwyrach yn y dydd cefais nifer o alwadu gan rhai o'r criw sydd hefyd yn pysgota'r Fenai am ddraenogiaid y môr, i'r perwyl fod mwyaf sydyn heidiau o wyniadau a nifer dda o eogiaid mawr yn neidio o'r Belan hyd at Bont Britannia. Efallai fod tro arni yn dod o'r diwedd. Ond cofiwch mae'r hen bysgod yn gwybod yn iawn fod llwybr eu rhediad am Lyn Padarn ar agor, cawn wedl sut fydd hi at y rhifyn nesaf.

Mater arall sy'n cael ei godi'n gyson yw y dirywiad yn safon rheolaethu pysgodfeydd yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru sydd i fod i oruchwylio a rheolaethu i weld fel ei fod yn anwybyddu ei holl gyfrifoldebau. Mae potsio allan o bob rheolaeth a does dim llond dwrn o giperiad drwy'r wlad. Mae yr holl syniad o ddatblygu a gwella wedi ei roi ar un ochr a neb yn malio dim am be sy'n mynd ymlaen. Be sydd tu ôl i hyn tybed? Wel yn y pen draw cyfrifoldeb ein llywodraeth yng Nghaerdydd yw Cyfoeth Naturiol Cymru ac un o ddyheadau y llywodraeth yw atal saethu yn gyfan gwbwl, ac yn ôl pob golwg ydyn nhw am gael gwared â physgota hefyd? Y ffordd orau i wneud hyn yw anwybyddu popeth i wneud â'r grefft. Un enghraifft yw fod cyfrifoldeb am gynefinedd ei dyfroedd wedi ei drosglwyddo i gorff o'r enw Afonydd Cymru, a'r corff yma sy'n gyfrifol am ariannu Ymddiriedolaethau Afonydd led led Cymru. Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru sy'n gweithredu yn ein hardal ni, ond mae eu pencadlys ymhell o'r fro hon.

Mi fydd eglurhad pellach am hyn yn y rhifyn nesaf, ond y pryder mawr yw fod Afonydd Cymru yn cael ei ariannu drwy Gyfoeth Naturiol Cymru a'r llywodraeth yng Nghaerdydd. Felly drwy synnwyr nid yw yn gallu bod yn annibynnol gyda penderfyniadau ar be sydd angen ei wneud yn ein tyb ni i wella'r stoc bysgod. Fel cadarnhad o hyn yn ddiweddar mae CNC wedi cyhoeddi adroddiad ar stoc eogiad a gwyniadau yng Nghymru – mae'r Seiont wedi ei chlustnodi fel afon ble mae posibilrwydd i'r eog ddiflannu o'i dyfroedd, ac maent yn dweud fod eisiau gwneud rhywbeth ar frys. Un o'u penderfyniadau yw atal magu a stocio cywion yr eog, ac felly'n anwybyddu ein holl argymhellion.

Does neb i weld yn sylweddoli y budd fuasai i'r fro drwy gael deorfa lewyrchus, a'r posibilrwydd i allu cynnig swyddi a hyfforddiant mewn maes ble mae galw mawr amdanynt. Wel mae galw mawr ar draws y byd – heblaw Cymru, sobor iawn yn de! Pa bryd mae ein gwleidyddion am afael ynddi ar hyn? Byw mewn gobaith efallai.

Hwyl am y tro

**Huw Price Hughes**

# Pêl fasged – Gwobrwyo Dreigiau Caernarfon

Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd yn y diddordeb mewn pêl fasged. Mae Clwb Pêl fasged Dreigiau Caernarfon, sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn y Ganolfan Hamdden yno wedi elwa ar hynny, ac yn denu nifer dda o aelodau o fro'r *Eco* a thu hwnt. Yn ogystal â'r ymarfer yn y Ganolfan mae'r Clwb yn cystadlu'n rheolaidd yng Nghynghrair Gogledd Cymru, gan deithio mor bell â Threffynnon a'r Wyddgrug. Cymaint yw'r diddordeb – a'r safon – fel bod dau dîm yn cystadlu yn yr oedrannau dan 14 oed a than 16 oed: y Dreigiau Du a'r Dreigiau Gwyn. Mae tîm hefyd yn yr adran dan 18 oed. Mae hyfforddiant rheolaidd hefyd i'r rhai ieuengach.

Ar ddiwedd y tymor cynhaliwyd Noson Wobrwyo y Clwb yn y Neuadd, Bethel a daeth nifer dda o'r enillwyr o'r fro; pob un ohonynt yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail. Dyma'r rhestr enillwyr:

***Dreigiau Du dan 14 oed***: Prif Sgoriwr – Riley O'Donnell, Bethel. Chwaraewr y Chwaraewyr – Iwan Summers, Deiniolen. Chwaraewr yr Hyfforddwr – Max Lawson, Bethel. Amddiffynnwr Gorau – Gwern Gwilym, Llanrug.

***Dreigiau Gwyn dan 14 oed:*** Meilir Jones, Rhiwlas aeth â thair o'r gwobrau, sef Prif Sgoriwr, Chwaraewr y Chwaraewyr a Chwaraewr yr Hyfforddwr. Enillodd hefyd dlws Chwaraewr Mwyaf Gwerthfawr (MVP) y Gynghrair.

***Dreigiau Du dan 16 oed***: Prif Sgoriwr – Sam Booth, Llanberis.

***Dreigiau Gwyn dan 16 oed***: Prif Sgoriwr – Ieuan Thomas. Chwaraewr wedi gwella fwyaf – Benjamin Day (oedd yn absennol ar y noson)

***Dreigiau dan 18 oed***: Amddiffynnwr Gorau – Jac Roscoe. Chwaraewr wedi gwella fwyaf – Osian Hanks, Deiniolen.

Arwel a Iola Jones, Bethel gyda thîm o hyfforddwyr brwdfrydig sy'n cynnal gweithgareddau'r Clwb.



Jac Roscoe



Gwern Gwilym



Ieuan Thomas



Iwan Summers



Meilir Jones



Osian Hanks




Riley O'Donnell (chwith) a Max Lawson.



Sam Booth

## Pencampwr Beicio Mynydd



Ganol fis Mehefin daeth Osian Morris, Llanrug yn gyntaf mewn cystadleuaeth beicio mynydd ar i lawr ar gwrs caled yn Llangollen. Mae'n prysur gwneud enw iddo'i hun fel cystadleuwr addawol iawn yn y gamp – camp a all fod yn beryglus o gysidro y cyflymder sy'n cael ei gyrraedd ar wyneb creigiog, troellog ac anwastad i lawr gelltydd serth. Roedd yn ôl yn Llangollen o fewn pythefnos, gan orffen yn bedwerydd. Bydd ras olaf cyfres bencampwriaeth Cymru yn cael ei chynnal ym Mlaenau Ffestiniog ddiwedd Medi.

Mae ganddo bellach yr hawl i wisgo crys Pencampwr yng ngweddill y cystadlaethau cenedlaethol. Llongyfarchiadau mawr Osian.

ISSN 2516-7235

